



Cyfarfod

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 30AIN GORFFENAF, 2020

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 22 Gorffennaf 2020)

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

AELODAETH (19)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Huw Gruffydd Wyn Jones
W. Gareth Roberts
Sedd Wag - Plaid Cymru

Aled Wyn Jones
Berwyn Parry Jones
Paul John Rowlinson

Charles Wyn Jones
Peredur Jenkins
Gethin Glyn Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes
John Pughe Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Sion W. Jones

Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid derbyn cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd Chwefror 13eg 2020 fel rhai cywir

5. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR 13 - 37 GWYNEDD AR GYFER 2019/20

I ystyried yr adroddiad

6. CYFRIFON TERFYNOL 2019/20 - ALLDRO REFENIW

38 - 65

I ystyried yr adroddiad

7. DATGANIAD O GYFRIFON CYNGOR GWYNEDD 2019/20

66 - 159

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

8. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD 2019/20

160 - 170

I ystyried yr adroddiad

9. RHEOLAETH TRYSORLYS 2019/20

171 - 178

I ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

10. CYNLLUN ARCHWILIO ALLANOL 2020 CYNGOR GWYNEDD

179 - 194

I ystyried yr adroddiad

11. ASESIAID O GYNALIADWYEDD ARIANNOL - CYNGOR 195 - 210 GWYNEDD

I ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

**12. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD 01/02/2020 211 - 237
HYD 31/03/20**

I ystyried adroddiad y Rheolwr Archwilio

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 238 - 252
2019/2020**

I ystyried adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol

14. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2020/21 253 - 260

I ystyried adroddiad y Rheolwr Archwilio

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 13/02/2020

Yn bresennol: Y Cyngorydd John Brynmor Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aled Ll. Evans, R Medwyn Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Edgar Wyn Owen, Dewi Wyn Roberts, John Pughe Roberts a Paul Rowlinson.

Aelod Lleyg: Sharon Warnes

Eraill a wahoddwyd: Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)

Swyddogion: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid - Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Hefyd yn Bresennol:

Mewn perthynas ag eitem a 6 ar y rhaglen: Dilwyn Williams (Prif Weithredwr)

Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen: Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi)

Mewn perthynas ag eitem 13: Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro). a Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr)

1. YMDDIHEURIADAU:

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Huw Wyn Jones, Charles Wyn Jones ac Angela Russell.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019, fel rhai cywir.

5. CYLLIDEB 2020/21

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid yn amlygu'r gyllideb ar gyfer 2020/21. Mynegwyd fod y gwaith o gynllunio'r gyllideb wedi dechrau ym mis Mehefin, ac ym mis Gorffennaf fod y rhagdybiaethau yn amlygu yr angen am gynlluniau arbedion. Esboniwyd fod cynlluniau arbedion wedi eu trafod yn Pwyllgorau Caffu dros y misoedd diwethaf ac oherwydd bod rhai cynlluniau yn gynhennus fod y nifer o gynlluniau arbedion wedi lleihau.

Esboniwyd fod y gyllideb wedi ei thrafod mewn cyfres o weithdai lle gwahoddwyd yr holl aelodau ac y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 18 Chwefror.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid y bydd gyllideb yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Lawn ddechrau mis Mawrth. Esboniwyd fod y setliad drafft yn well na'r hyn oedd wedi ei ragweld ac yn cwrdd â chwyddiant. Er hyn, mynegwyd, nad yw'r setliad drafft yn ddigonol i gyfarch y galw ychwanegol ar wasanaethau ym maes gofal. Nodwyd y bydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth ar 25 Chwefror.

Trafodwyd y tabl gofynion Gwario Ychwanegol a tynnwyd sylw at y prif benawdau. Mynegwyd o ran Chwyddiant Cyflogau y bydd cynnydd tal dros 2% yn unol â'r rhagamcan cenedlaethol, ynghyd a chynnydd yng nghyfraniad pensiwn cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Nodwyd fod y Gronfa Bensiwn wedi derbyn dychweliadau gwell na'r disgwyl dros y blynyddoedd diwethaf ac o ganlyniad bydd y Cyngor yn cyfrannu llai fel cyflogwr mewn i'r Gronfa'r flwyddyn nesaf. Mynegwyd fod y ffigwr net ar gyfer ysgolion yn dangos sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, gyda niferoedd disgyblion mewn ysgolion cynradd yn lleihau, ond fod cynnydd yn yr uwchradd. Tynnwyd sylw at Derfynu Grantiau Penodol, gan nodi fod y Llywodraeth yn ariannu cynlluniau drwy grantiau ac yna yn nodi na fydd y grantiau yn parhau'r flwyddyn ganlynol, ac yn achos grant ataliol gofal plant, nid yw'r arian yn trosglwyddo i'r setliad chwaith, ac o ganlyniad fod angen i'r Cyngor ddarparu'r arian. Tynnwyd sylw at y bidiau oedd i'w gweld o dan y pennawd Pwysau ar Wasanaethau gan nodi fod lefel gwasanaeth yn yr adrannau gofal yn amlygu'r galw ychwanegol ar wasanaethau. Esboniwyd fod bid yno ar gyfer y Gwasanaeth Digartrefedd, a mynegwyd os bydd grant ychwanegol yn cael ei gynnig i'r maes hwn y bydd modd dychwelyd y bid. Mynegwyd fod y gyllideb yn nodi y bydd addasiadau cytundebau torfol i staff yn cael ei ddiddymu yn gyfan gwbl eleni.

Tynnwyd sylw at y tabl Sefydlu'r Gyllideb yn amlygu anghenion gwario'r Cyngor, ac eglurwyd bod y bwlc ariannol yn cael ei gyfarch drwy godi'r dreth Cyngor 3.9%. Ymhelaethwyd gan fynegi fod y gyfradd cynnydd yn y Dreth Cyngor dros y blynyddoedd yng Ngwynedd yn is na' chyfartaledd Cymru. Mynegwyd fod consensws da wedi ei amlygu yn y Gweithdai Cyllideb a gynhaliwyd, a nodwyd yn dilyn y trafodaethau yma fod yr argymhelliad wedi ei gefnogi gan drwch aelodau'r Cyngor.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid fod balansau'r Cyngor wedi bod yn arf allweddol i ganiatáu i'r Cyngor aros i weld beth oedd sefyllfa'r setliad, cyn hyd yn oed ystyried lefel arbedion dros £2miliwn. Esboniwyd fod y balansau wedi prynu amser ac osgoi hel bwganod am doriadau nad oedd eu hangen erbyn 2020/21. Ychwanegwyd y bydd cadw'r balansau yn caniatáu defnyddio'r un tactegau eto erbyn cyllideb 2021/22. Mynegodd nad oes Strategaeth Tymor Canolig wedi ei gyflwyno gyda'r gyllideb eleni, gan fod ansicrwydd am y dyfodol cyn cyllideb Canghellor Llywodraeth San Steffan fydd yn cael ei gyflwyno ar 11 Mawrth. Cadarnhaodd fod y gyllideb am 2020/21 yn gytbwys.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Holwyd y Pennaeth o ran Trosglwyddiadau i'r Setliad a Therfynu Grant Penodol, a bu iddo ymhelaethu ar beth yn union yw'r rhain. O ran trosglwyddiadau i'r setliad, nodwyd mai grantiau yw'r rhain sydd yn parhau ond fod yr arian yn cael ei drosglwyddo i grant cyffredinol y Cyngor, ynghyd â'r cyfrifoldebau perthnasol. Amlygwyd fod rhai grantiau penodol lle disgwylir i'r Cyngor ymrwymo i wariant ychwanegol a pryd mae'r grantiau eu bod yn dod i ben mae disgwyliad i'r Cyngor ddarparu'r arian.
- Holwyd pam fod Cynlluniau Tai yn y rhaglen cyfalaf yn haneru yn 2021/22. Mynegwyd fod yn llithro o flwyddyn i flwyddyn ac yn anghyson rhwng blynyddoedd.
- Mynegwyd pryder am sawl grant penodol yn y maes gofal gan Lywodraeth Cymru gan nodi nad oes cynlluniau pendant i'r dyfodol.

- Amlygodd fod y gyllideb yn gilr a diolchwyd i'r Adran Gyllid am eu gwaith a'i cefnogaeth.

PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.

6. STRATEGAETH CYFALAF 2020/21 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi gan nodi bod y cyflwyniad ar strategaeth cyfalaf 2020/21. Ychwanegwyd ei fod yn rhoi trosolwg ar y gwariant a sut y maes risgiau yn cael ei rheoli. Amlygwyd Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau gan amlygu ei fod yn nodi cyfanswm o £49 miliwn ond ei fod yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau. Nodwyd y prif brosiectau a oedd yn cynnwys

- Bisiau Cyfalaf £2.0m
- Cartrefi Preswyl £1.5m
- Strategaeth Tai £4.2m
- Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain £1.5m

Mynegwyd y bydd angen i bob gwariant cyfalaf gael ei ariannu gan ffynonellau allanol, adnoddau'r Cyngor neu ddyled a tynnwyd sylw at y tabl a oedd yn nodi sut y bydd yn cael ei gyllido. O ran Rheolaeth y Trysorlys mynegwyd nad oes llawer o newid gan nad yw'r Cyngor ym menthyg arian yn hir dymor.

Esboniwyd fod yr adroddiad yn hynod dechnegol a bod cyflwyniad wedi ei dderbyn gan gwmni Arlingclose, Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, a mynegwyd fod y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i'r Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad, nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol a chefnogi'r bwriad i'r Aelod Cabinet i gyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor Llawn.

Rhoddydwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Amlygwyd fod Cynlluniau'r Rhaglen Cyfalaf ar gyfer Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol yn codi dros y blynnyddoedd nesaf a gofynnwyd beth oedd y rheswm dros hyn. Mynegwyd fod cynllun dros gyfnod o 10 mlynedd ac nad yw rhai prosiectau yn cychwyn am ychydig flynyddoedd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogwyd bwriad yr Aelod Cabinet i gyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth.

7. CYLLIDEB REFENIW 2019/20 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2019

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid gan nodi fod rhai arwyddion o drafferthion cyflawni arbedion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad. Mynegwyd fod rhai adrannau yn gorwario a trafodwyd yr adrannau yma yn unigol.

Adran Oedolion Iechyd a Llesiant - mynegwyd fod y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu dros £1.8miliwn o orwariant gan yr adran. Ychwanegwyd fod y gorwariant yn cael ei leddfu yn rhannol i £658k yn dilyn derbyniad grant a defnydd o gyllid un tro.

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd - nodwyd fod lefel y gorwariant yn yr adran wedi dwysau ymhellach i £3.2miliwn gyda £2.6 miliwn yn y maes lleoliadau, gyda chyfran sylweddol o'r gorwariant yn deillio o leoliadau all sirol. Ychwanegwyd fod Tasglu Cyllideb wedi ei sefydlu

er mwyn rhoi sylw i faterion ariannol yr adran a mynegwyd y bydd £1.8miliwn ychwanegol i'r Adran Plant er mwyn cwrdd â'r pwysau ychwanegol.

Adran Priffyrdd - mynegwyd fod gwariant yn parhau yn y maes casglu a gwaredu gwastraff eleni, gan nodi mai costau trosiannol cyn symud i drefniadau newydd sydd wedi arwain at y gorwariant.

Tynnwyd sylw at danwariant ym maes corfforaethol gyda rhagolygon ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol ar Dreth Cyngor a Phremiwm Treth Cyngor. Er hyn, amlygwyd fod parhad yn y tueddiad i ôl-ddyddio trosglwyddiadau o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig. Pwysleisiwyd yn ogystal fod niferoedd sy'n hawlio gostyngiadau Treth Cyngor ar ei lefel isaf am y bedwaredd blwyddyn yn olynol. Nodwyd penderfyniad y Cabinet fel y nodir isod:

Penderfynwyd i:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2019 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni, gan fod angen egluro manylder cymhleth yn y darlun yma yng ngofal Oedolion, mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol a chomisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth a rhaglen glir i ymateb. I geisio cyfarch y gorwariant i'r dyfodol, mae adnodd ychwanegol wedi ei ddyrannu fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer cyllideb 2020/21.
- Nodi fod Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr Adran Plant a Theuluoedd fel bod modd mynd at wraidd gorwariant yr Adran, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad gerbron y Cabinet fydd yn manylu ar y cynllun ymateb. I geisio cyfarch y gorwariant i'r dyfodol, mae adnodd ychwanegol wedi ei ddyrannu fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer cyllideb 2020/21.
- Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:
 - (£198k) o gynnyrch treth ychwanegol ar Bremiwm Treth y Cyngor yn cael ei ychwanegu at y £2.7 miliwn sydd eisoes wedi ei neilltuo yn 2019/20 i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
 - (£75k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
 - (£500k) o danwariant Corfforaethol yn cael ei neilltuo i gyllido diffyg grant yn y maes gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.
 - (£312k) i'w ddefnyddio i gyllido bidiau un-tro sydd wedi eu cyflwyno gan yr Adrannau ar gyfer gwariant yn 2020/21.
 - Ac y gweddill sef (£502k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- O ran Cludiant Plant yn yr Adran addysg holwyd os oedd yr adran yn edrych ar y rhesymau dros y gorwariant. Nododd y Prif Weithredwr fod llawer o resymau dros y gorwariant a oedd yn cynnwys plant ddim yn ymgartrefu mewn ysgolion ac o ganlyniad yn mynychu ysgolion eraill. Pwysleisiwyd fod casgliadau'r adolygiad yn amlygu fod angen i'r adran fod yn fwy heriol ac ystyried os oes ffyrdd gwahanol o gynnig cludiant a mynegwyd fod y Prif Weithredwr wedi gofyn i ddwy adran ystyried dod at ei gilydd i weld os oes modd dod i gasgliad ac i wneud y gwaith yn effeithlon. Holwyd os oes adolygiad wedi ei wneud a mynegwyd fod rhai contractau yn ddrud ond fod yr adran yn edrych ar bob achos yn unigol.
- Wrth edrych ar orwariant yr adran Plant a Chefnogi Teuluoedd holwyd oes trafodaeth yn cael ei gynnal a siroedd eraill gan fod problemau allsirol i'w gweld dros y gogledd. Mynegwyd fod tasglu wedi ei greu yn fewnol oherwydd y diffyg systemau a gorwariant o ganlyniad i ddiffyg cynlluniau arbedion. Ychwanegwyd oherwydd natur y gwasnaeth

mae angen edrych beth sydd yn bosib ac mae atebion rhanbarthol yn rhan o'r cynlluniau ac fod lleoliadau allsirol wedi ysgogoi cyd-weithio.

- Mynegwyd fod y maes gofal yn broblem flynyddol ac nad yw'r ateb yn rhwydd. Ychwanegwyd fod hon yn broblemau i Gynghorau ar draws Cymru ac fod achosion difrifol o fewn cymunedau. Pwysleiswyd nad yw'r materion yn cael ei trafod o ddifrif yn genedlaethol ac fod angen derbyn fod y galw yn y maes gofal yn codi yn flynyddol. Pwysleiswyd nad oes modd torri ar y gwasanaethau hyn ond yn hytrach fod angen sicrhau fod y meysydd yn gweithio yn effeithiol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

8. RHAGLEN GYFALAF 2019-20 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2019

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cabinet ar 21 Ionawr. Mynegwyd fod dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £89 miliwn am y dair blynedd i'w gweld yn yr adroddiad. Ychwanegwyd fod hyn yn dangos cynnydd o oddeutu £1.3miliwn ers yr adolygiad blaenorol. Tynnwyd sylw ar y prif gasgliadau sef fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £31miliwn yn 2019 ar gynlluniau cyfalaf gyda 41% ohono wedi'i ariannu drwy ddenu grantiau. Ategwyd fod £9.2miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi ei ail broffilio o 2019/20 i 2020/21 ond ni achoswyd hyn unrhyw golled ariannu i'r Cyngor.

Nodwyd y grantiau ychwanegol mae'r cyngor wedi ei ddenu a oedd yn cynnwys

- £541k - Ehangu cynlluniau Grant Ysgolion 21 Ganrif
- £286k - Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau Prosiect Tir a Môr, Llŷn
- £128k - Grant Cronfa Datblygu Ranbarthol i ddatblygu Plas Heli
- £120k - Grant o Gronfa Trafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru i amryw gynlluniau
- £58k - Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn
- £29k - Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau Nofio am Ddim.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Mynegwyd fod y rhaglen cyfalaf yn addasu o flwyddyn i flwyddyn.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

9. TROSOLWG ARBEDION:CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid gan nodi fod yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa arbedion yn dilyn trafod yr Adroddiadau Perfformiad yn y Cabinet. Nodwyd fod gwerth £32m o arbedion wedi eu cymeradwyo ers 2015/16 ac fod £28.4m o'r cynlluniau yma wedi ei gwireddu. Amlygwyd risgiau sylweddol i arbedion cynllun Adolygiad Dechrau i'r Diwedd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, ond ychwanegwyd fod y Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu i roi sylw i faterion ariannol yr Adran gan gynnwys y maes hwn.

Amlygwyd dau risg gan yr Adran Oedolion i gyflawni arbedion, a bod yr Adran Addysg wedi cynnig cynlluniau amgen. Mynegwyd fod llithriad yn arbedion yr Adran Tai ac Eiddo a bod angen i'r adran edrych ar gynlluniau amgen.

Nodwyd fod 22 allan o 121 o gynlluniau eleni yn llithro. Mynegwyd fod dod o hyd i arbedion wedi bod yn heriol ac mae trafferthion wedi codi ond fod arbedion yn anorfod.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

10. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio'r adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am gyfnod o Dachwedd 2019 i 31 Ionawr 2020. Ychwanegwyd fod 12 Adroddiad am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol ac un archwiliad grant. Amlygwyd y tabl a oedd yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol.

Tynnwyd sylw at yr archwiliad Grant Ôl-16 gan nodi ei fod yn ofynnol i awdurdodau ddarparu tystiolaeth o wariant priodol o'r dyraniadau ar gyfer chweched dosbarth ac addysg barhaus i oedolion. Mynegwyd fod y wybodaeth wedi ei gyflwyno ynghyd â'r rhestrau gwirio cysylltiedig at Lywodraeth Cymru o fewn y terfyn amser.

Nodwyd fod trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Ar 31 Ionawr 2020, roedd gweithrediad derbyniol ar 64% o'r camau cytunedig a i liniaru risgiau uchel / uchel iawn a 70% o'r camau a gytunwyd i liniaru risgiau canolig / isel.

Tynnwyd sylw at Drefniadau Dychwelyd Cyfarpar ac Offer - lefel sicrwydd "Cyfyngedig". Mynegwyd gan aelod o'r Pwyllgor bod diffyg trefniadau i ddychwelyd cardiau adnabod y Cyngor yn gallu bod yn broblemus. Mynegwyd fod angen rhestr wirro, ond ei fod yn gyfrifoldeb ar unigolion i ddod a'i cardiau adnabod yn ôl. Pwysleisiwyd fod angen cefnogaeth i reolwyr er mwyn cryfhau cysondeb a rheolaeth.

Trafodwyd Penodi a Chostau Athrawon Llanw Uwchradd - Lefel Sicrwydd Digonol. Nodwyd fod nifer o athrawon di-gymwys yn cael eu penodi fel athrawon llanw. Holwyd os yw'r cyfrifoldeb am hyn yn disgyn ar y Cyngor neu'r Ysgolion neu Lywodraethwyr. Gofynnwyd am drafodaeth bellach yn y Pwyllgor Craffu Addysg.

Edrychwyd ar lechyd a Diogelwch Harbyrau oedd â Lefel Sicrwydd "Digonol". Holwyd o ran lefel sicrwydd risg os oedd yn codi neu leihau. Mynegwyd fod cryn amser wedi mynd heibio ers edrych ar rhain ac o ganlyniad nad oes modd cymharu. Nodwyd y bydd y Gwasanaeth Archwilio yn cadw hyn mewn cof yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw at Fesurau Diogelwch Parc Padarn gan nodi fod y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn credu nad yw'r Cynllun Argyfwng yn ymarferol bellach gan ystyried maint y safle a'i fod ar agor 24 awr y dydd. Pwysleisiwyd fod angen cynlluniau argyfwng ymarferol a fydd yn cwmpasu'r holl barciau gwledig.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

11. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Archwilio gan roi crynodeb o waith y cynllun. Nodwyd fod 17 o'r archwiliadau wedi eu gohirio ac o ganlyniad fod addasiadau wedi eu gwneud i'r cynllun presennol. Mynegwyd o'r 51 archwiliad unigol yng nghynllun 2019/20 fod 31 wedi ei rhyddhau yn dderbyniol. Pwysleisiwyd ei bod yn anochel fod addasiadau yn cael eu gwneud i'r cynllun i adlewyrchu salwch hir dymor Uwch Archwiliwr ac amser Uwch Archwiliwr i gynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Amlygwyd yr archwiliadau a phenderfynwyd eu canslo. Roedd y rhain yn cynnwys Trefniadau Diogelu, Cronfeydd Ysgol a Systemau Technoleg Gwybodaeth.

PENDERFYNWYD nodwyd y diweddariad o gynnydd yn erbyn y cynllun archwilio 2019/20.

12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2020/21

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Archwilio a oedd yn nodi cynllun drafft o waith Archwilio Mewnol am 2020/21. Mynegwyd er mwyn sicrhau fod y pethau cywir yn cael eu hadolygu, rhoddwyd ystyriaeth i'r gofrestr Risg Corfforaethol, Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd ac unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sydd ar waith. Esboniwyd drwy wneud hyn roedd modd paratoi cynllun drafft cychwynnol, sydd wedi ei drafod a phob pennaeth.

Mynegwyd fod oddeutu 711 o ddiwrnod o adnoddau archwilio er mwyn cwblhau cynllun archwilio 2020/21.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Nodwyd pwysigrwydd fod Brexit yn cael ei adolygu, gan fod angen edrych ar drefniadau o ran cyflenwyr er enghraifft.
- Pwysleisiwyd fod Meysydd Chwarae Ysgolion yn risg uchel.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer cyfnod 1Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

13. ADOLYGIAD O'R DOSBARTHIADAU PLEIDLEISIO A'R MANNAU PLEIDLEISIO

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol adolygu pob dosbarth pleidleisio a'r mannau pleidleisio bod 5 mlynedd. Ychwanegwyd fod y broses hon yn broses barhaus yn y Cyngor ac ychwanegwyd y bydd adolygiad pellach o'r trefniadau pleidleisio yn cael ei wneud yn sgil adolygiad diweddar Comisiwn Ffiniau Cymru.

Mynegwyd fel bod yr adolygiad wedi dilyn y drefn ac wedi cyhoeddi rhybudd cyhoeddus o'r adolygiad ac anfonwyd copïau i bartïon allai fod â diddordeb. Wrth gysylltu, eglurwyd y byddai o fudd cael awgrymiadau am leoliad arall, pe mynegwyd pryderon ynghylch a gosaf pleidleisio penodol. Mynegwyd fod chwe ymateb a amlygodd pryder am ddwy orsaf gan nad oeddynt yn ddelfrydol o safbwynt mynediad i bobl anabl. Er y pryderon, ychwanegwyd fod ymatebwyr yn cydnabod prinder llefydd amgen priodol ar hyn o bryd. O ran yr adolygiad nodwyd fod rhai newidiadau man - rhai o ran lleoliadau newydd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau fel a ganlyn

- O ran comisiwn Ffiniau holwyd os oes amserlen glir pryd fydd penderfyniad. Mynegwyd nad oedd amserlen glir ond y ddealltwriaeth anffurfiol yw y bydd Gorchymyn yn ei le erbyn yr haf.
- Holwyd pwy oedd yn gyfrifol am asesu lleoliadau gan fod yr adeilad yn anaddas yn Nolgellau. Mynegwyd nad oeddent wedi derbyn gwybodaeth am yr orsaf hon a bydd modd edrych i mewn i'r mater.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r canlyniadau ac argymhell eu bod yn cael ei gynnwys i'w rhoi gerbron y Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12:15pm

CADEIRYDD

Eitem 5

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 GORFFENNAF 2020
TEITL	DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2019/20
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI'R DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2019/20 I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU AM GYMERADWYAETH
AWDUR	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)
GWEITHREDIAD	CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR

1. CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU EI WNEUD?

1.1 Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel “y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu”, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

- **Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.**
- **Herio'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) am sgoriau risg sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.**
- **Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymhell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.**

2. CEFNDIR

2.1 Mae gofyn statudol am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol fel canlyniad i gynnwys:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n datgan:

Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Rhaid i'r corff perthnasol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei systemau rheoli mewnol. Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu hystyried gan aelodau'r corff yn cyfarfod yn ei gyfanrwydd neu gan bwyllgor.

Ar ôl yr adolygiad, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reoli mewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y datganiad yn mynd gydag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n ddyletswydd arno i'w baratoi.

- Côt Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")
- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*.

3. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

3.1 Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu swyddogaeth allweddol i herio dulliau paratoi a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."

3.2 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn crynhoi canlyniad yr hunanasesiad llywodraethu, sydd wedi cael ei ddiweddarau gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystod y flwyddyn, mewn datganiad sydd yn dweud wrth Bobl Gwynedd beth yw ein fframwaith llywodraethu, a pa mor dda mae'n gweithio. Aelodau'r Grŵp yw y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw & Risg), Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol (Cefnogi Teuluoedd), y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

3.3 Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fodloni ei hun fod y naratif sy'n cyfiawnhau'r sgoriau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

4. ADNABOD RISGIAU LLYWODRAETHU

- 4.1 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA/Solace a gyhoeddwyd yn 2016.
- 4.2 Mae'r Fframwaith yma'n adnabod 7 Egwyddor Craidd ar gyfer Llywodraethu Da:

A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a parchu rheol y gyfraith.

Mae sefydliadau Llywodraeth Leol yn atebol nid yn unig am faint maent yn ei wario, ond hefyd am sut maent yn defnyddio'r adnoddau sydd o dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau cadarnhaol a negyddol, ac am y deilliannau y maent wedi eu cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at y gofynion deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth. Mae'n hanfodol y gallant, yn gyffredinol, arddangos priodoldeb eu gweithredoedd ar draws yr holl weithgareddau a bod mecanweithiau ar waith i annog a gorfodi cydymffurfiaeth â gwerthoedd moesegol ac i barchu rheol y gyfraith.

B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae Llywodraeth Leol yn rhedeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio cyfryngau cyfathrebu ac ymgynghori clir, ac a ymddiriedir ynddynt, i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

C. Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau Llywodraeth Leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio deilliannau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas y sefydliad, cyfrannu at y deilliannau a'r buddion a fwriadwyd, ac aros o fewn y terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbyn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwysio galwadau sy'n cystadlu â'u gilydd wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir

Mae Llywodraeth Leol yn cyflawni ei ddeilliannau bwriadedig drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoliadol ac ymarferol (camau gweithredu). Mae penderfynu ar y cymysgedd gywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hanfodol bwysig sydd rhaid i Lywodraeth Leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y deilliannau a fwriedir. Mae angen dulliau gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r deilliannau ddiffiniedig mewn ffordd sy'n darparu'r cyfaddawd gorau rhwng y mathau gwahanol o fewnbynnau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu'r penderfyniadau a wneir yn aml er mwyn sicrhau fod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni.

E. Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo

Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth priodol ar Lywodraeth Leol, yn ogystal â pobl gyda'r sgiliau, cymwysterau addas a'r meddylfryd iawn i weithredu'n effeithiol ac effeithlon ac i gyflawni deilliannau bwriadig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y capasiti gweithredol ar gyfer y sefydliad gyfan. Gan y bydd yr unigolion a'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei gapasiti yn ogystal â sgiliau a phrofiad aelodau staff unigol. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn Llywodraeth Leol gan gyfranogiad pobl â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, sy'n adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

F. Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus

Mae angen i Lywodraeth Leol sicrhau bod y sefydliadau a strwythurau llywodraethu hynny y mae'n eu goruchwyllo wedi sefydlu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso darpariaeth effeithiol ac effeithlon o wasanaethau cynlluniedig. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhan bwysig ac annatod o'r system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni deilliannau. Dylid ystyried risg a rhoi sylw iddo fel rhan o bob gweithgaredd gwneud penderfyniad.

Mae system rheoli ariannol cadarn yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisiau a chyflawni deilliannau arfaethedig, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau mewn modd strategol, darpariaeth gwasanaeth effeithlon ac atebolrwydd.

Mae'n hanfodol hefyd bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau, llunio polisi ac adolygu atebol. Mae diwylliant gweithio positif sy'n derbyn, hyrwyddo ac annog her adeiladol yn hollbwysig i graffu llwyddiannus a darparu gwasanaethau llwyddiannus. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, rhaid wrth ymrwymiad cyhoeddus dro ar ôl tro gan y rhai mewn awdurdod.

G. Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Ystyr atebolrwydd yw sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn gallu ateb amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig gydag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond mae hefyd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio mewnol ac allanol ill dau yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

Ffynhonnell: CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*

4.3 Mae'r Egwyddorion hyn wedi eu rhannu ymhellach i nifer o is-egwyddorion.

4.4 Mewn ymateb i'r Fframwaith newydd yma, mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ystyried yr Egwyddorion Craidd a'r Is-egwyddorion yn y Fframwaith ac wedi llunio Cofrestr Risg Llywodraethu, sy'n rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cofrestr Risg Llywodraethu yn adnabod risgiau mewn 22 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.

4.5 Mae cyfrifoldeb penodol am y risgiau hyn wedi eu rhannu ar draws y Cyngor, fel a ganlyn

Adran	Nifer Risgiau
Amgylchedd	1
Cefnogaeth Gorfforaethol	9
Cyllid	4
Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol	8
Cyfanswm	22

4.6 Yr adran berthnasol sy'n gyfrifol am asesu'r risgiau hyn yn barhaus, gyda'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg ohonynt.

4.7 Fel sy'n gyffredin mewn trefniadau rheoli risg, rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor wrth sgorio maint y risgiau yma, sef

- **Effaith** y digwyddiad petai'r risg cael ei wireddu
- **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu.

4.8 Mae'r Effaith a'r Tebygolrwydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio canlynol.

Effaith

Sgôr	Effaith	Diffiniad
5	Catastroffig	Effaith catastroffig ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith dinistriol ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion
4	Dinistriol	Effaith dinistriol ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu sylweddol iawn ar nifer fawr o drigolion
3	Sylweddol iawn	Effaith sylweddol iawn ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd) neu arwyddocaol ar nifer fawr o drigolion
2	Arwyddocaol	Effaith arwyddocaol ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu gweladwy ar nifer fawr o drigolion
1	Gweladwy	Effaith gweladwy ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu ymylol ar nifer fawr o drigolion.

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

Tebygolrwydd

Sgôr	Tebygolrwydd	Diffiniad
5	Digwydd rŵan	Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd)
4	Tebygol iawn	Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy
3	Tebygol	Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim
2	Annhebygol	Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno
1	Annhebygol iawn	Annhebygol iawn o ddigwydd

4.9 Lluosir y Sgôr Effaith a'r Sgôr Tebygolrwydd gyda'i gilydd i roi **Sgôr Risg Presennol**, sef sgoriau'r risgiau ar sail y rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Diffinnir Sgôr Risg o uchel iawn i isel fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	Risg Uchel iawn
Sgôr 12-16	Risg Uchel
Sgôr 6-10	Risg Canolig
Sgôr 1-5	Risg Isel

4.10 Mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi'r sgôr risg presennol ar gyfer y 22 maes llywodraethu. Mae asesiad adrannau a'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn dod i'r casgliad:

- Nifer risgiau uchel iawn: 0
- Nifer risgiau uchel: 1
- Nifer risgiau canolig: 11
- Nifer risgiau isel: 10

4.11 Lle adnabuwyd fod y sgôr risg presennol yn parhau'n uwch nag y mae'r Cyngor yn fodlon ei dderbyn, mae camau gweithredu pellach wedi eu hadnabod a'u hamlinellu yn y Datganiad. Er hyn, pwysleisir fod mwyafrif y materion sydd wedi eu hamlygu yn y dadansoddiad systematig yma eisoes wedi cael eu hadnabod gan y Cyngor.

5. NEWIDIADAU ERS DATGANIAD 2018/19

5.1 Mae pob un o'r risgiau llywodraethu wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Gwneir hyn gan yr adran gyfrifol fel cam cyntaf, gyda'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd.

5.2 Mae sgôr un o'r risgiau wedi newid yn ystod y flwyddyn:

Risg	Sgôr flaenorol	Sgôr Effaith	Sgôr Tebygol-rwydd	Sgôr gyfredol	Sylwadau
<u>Adolygu deilliannau</u> Methiant i adolygu deilliannau ein gweithredoedd, sy'n golygu nad ydym yn dysgu gwersi gan barhau i wneud yr un pethau yn anghywir	9 (Canolig)	Aros yn 3	Lleihau o 3 i 2	6 (Canolig)	Wrth adolygu'r sgoriau, rodd barn fod mecanweithiau o fewn y Cyngor bellach (e.e. trefniadau cyfarfodydd monitro perfformiad) sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddwn yn dysgu gwersi am ddeilliannau ei gweithredoedd.

6. ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

- Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.
- Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am sgoriau risg sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
- Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.
- Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymhell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i Gyngor Gwynedd wneud trefniadau i sicrhau gwelliant wrth arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côt Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diwedd 31 Mawrth 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A’U HEFFEITHIOLRWYDD

- 3.1 Mae'r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw & Risg), Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- 3.2 Yn sgil cyhoeddi fersiwn newydd o Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government* yn 2016, mae'r Grŵp wedi addasu trefniadau'r Cyngor ar gyfer adnabod ac asesu ei drefniadau llywodraethu er mwyn adlewyrchu'r Fframwaith newydd. Canlyniad hynny oedd gosod allan y fframwaith leol ar ffurf Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan adnabod 22 maes o risg llywodraethu.
- 3.3 Rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu, y risgiau perthnasol a threfniadau'r Cyngor er mwyn ymdrin â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny, yng ngweddill y rhan yma o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 3.4 Ar gyfer pob un o'r Risgiau Llywodraethu, dangosir sgôr risg cyfredol, sef y sgôr ar ôl asesiad gwrthrychol o'r trefniadau rheoli sydd yn eu lle rŵan. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:
- **Effaith** y risg petai'r digwyddiad yn cael ei wireddu
 - **Y Tebygolrwydd** iddo ddigwydd.
- 3.5 Mae'r sgoriau Effaith yn amrywio o 1 (effaith gweladwy) i 5 (effaith catastroffig), a'r sgoriau Tebygolrwydd o 1 (Annhebygol iawn) i 5 (digwydd rŵan). Cyfrifir y sgôr risg drwy luosi'r sgôr effaith a'r sgôr tebygolrwydd gyda'u gilydd.
- 3.6 Asesir lefel gymharol y risgiau fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	Risg Uchel iawn
Sgôr 12-16	Risg Uchel
Sgôr 6-10	Risg Canolig
Sgôr 1-5	Risg Isel

- 3.7 Ers Mawrth 2020, hyd at dyddiad cyhoeddi Datganiad Cyfrifon 2019/20, mae'r Cyngor wedi bod yn ymateb i argyfwng pandemig Covid-19. Lle mae hynny wedi cael effaith arwyddocaol a gweladwy ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor, mae hynny wedi cael ei nodi isod.

Diwylliant

Risg: Fod diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cael diwylliant priodol yn gallu hyrwyddo'r holl agweddau llywodraethu a nodir yn y gofrestr ac yn yr un modd, mae cael diwylliant amhriodol yn gallu llesteirio'r holl agweddau llywodraethu.
- O gael y diwylliant yn iawn, mae modd i hynny oruchafu popeth arall sy'n effeithio ein gallu i gyflawni gan y bydd yr egwyddorion llywodraethu da yn rhan annatod o ymddygiad dydd i ddydd pob unigolyn o fewn y sefydliad. Mae Strategaeth Ffordd Gwynedd bellach yn nodi mai un o brif amcanion y Cyngor yw rhoi Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mewn gwirionedd mae hyn hefyd yn disgrifio gwerthoedd y Cyngor - sef unrhyw beth sy'n gydnaws â'r amcan hwnnw.
- Mae'r rhaglen 6 diwrnod i hyfforddi rheolwyr gwasaneth ar egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) wedi'i chyflwyno ers Haf 2017. Mae pob rheolwr gwasanaeth wedi dilyn yr hyfforddiant hwn erbyn hyn gyda cynllun gweithredu am y flwyddyn 2019/20 yn sicrhau bod yr hyfforddiant hwn wedi bod ar gael i reolwyr newydd yn ogystal a darpar reolwyr i'r dyfodol. Mae'r Rhwydwaith Rheolwyr wedi'i ail-sefydlu ac wedi cynnal ei gyfres cyntaf o gyfarfodydd ym Mawrth 2019. Mae'r arwyddion cynnar yn galonogol gyda'r anogaeth i reolwyr a'u timau ymgymryd ag adolygiadau o fewn eu gwasanaethau eu hunain yn hytrach na'r canolbwyntio blaenorol ar gynnal adolygiadau dwys. Mae cynnydd arwyddocaol yn gyffredinol ond mae tystiolaeth o hyd nad yw'r cynnydd hwnnw yn gyson ar draws y Cyngor.
- Mabwysiadwyd Cynllun a rhaglen waith Ffordd Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2019-2022 gan y Cabinet ar y 23 o Orffennaf, 2019. Mae'r Cynllun yn adnabod naw maes y byddwn yn canolbwyntio arno er mwyn gwreiddio'r "ffordd o weithio" ymhellach. Gyda golwg ar sicrhau fod pawb yn glir pa ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ohonynt cylchredwyd swydd-ddisgrifiad newydd i bob rheolwr/uwch-reolwr sy'n amlinellu'r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt a chytunwyd ar gynnwys generig i swydd-ddisgrifiad newydd ar gyfer penaethiaid a penaethiaid cynorthwyol. Mae ymgynghoriad yn bresennol ar gynnwys generig terfynol swydd-ddisgrifiadau ar gyfer arweinyddion tîm a staff yn gyffredinol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	3	12

Ymddygiad

Risg: Diffyg integriti, moeseg a pharch yn ymddygiad aelodau a swyddogion, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; Y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau intergriti a moeseg. Mae tystiolaeth o weithredu pan mae'n ymddangos fod y codau ymddygiad hyn wedi cael eu torri.
- Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Cyfreithlondeb

Risg: Anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu fod y Cyngor yn agored i heriau yn y llysoedd.

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Rhaid i swyddogion statudol (y Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol, fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Mae protocolau ffurfiol yn eu lle er mwyn gwarchod hawliau'r swyddogion statudol.
- Ni fu newid i'r trefniadau hyn yn ystod cyfnod y pandemig.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	1	3

Bod yn agored

Risg: Cyngor sydd ddim yn agored, sy'n golygu nad oes modd ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Isafswm bosib o adroddiadau Pwyllgor sydd yn eithredig
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i daflenni penderfyniad aelodau unigol, gyda gweithdrefnau sy'n sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Cyhoeddir papurau cefndir gydag adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn.
- Fe we-ddarllidir nifer o gyfarfodydd pwyllgorau sy'n cymryd penderfyniadau.
- Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiadau perfformiad yn rheolaidd fel rhan o'u cyfarfodydd sy'n agored a bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol, Adroddiad Perfformiad Blyneddol a'r Datganiad o'r Cyfrifon i geisio rhoi gymaint o wybodaeth ag y byddai trigolion ei angen i ni fod yn atebol.
- Defnyddir ddulliau amrywiol eraill hefyd megis y wefan, Newyddion Gwynedd a chyfryngau cymdeithasol i geisio sicrhau fod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	1	2

Rhanddeiliad

Risg: Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaid

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd.
- Mae yna waith wedi digwydd i greu Cynllun Llesiant ac mae'r berthynas rhwng y sefydliadau wedi aeddfedu.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Fodd bynnag, mae aelodau wedi codi'r cwestiwn a yw'r Bwrdd wedi darganfod y lle hwnnw lle mae'r gwir werth sydd ar gael yn cael ei uchafu eto.
- Mae Cynllun y Bwrdd yn gyson gyda Chynllun y Cyngor.
- Mae cydweithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol sydd ddim bob tro mor effeithiol ag y gallai fod oherwydd maint yr ôl troed a'r trafferthion o adeiladu perthynas gyda nifer mor fawr o bobl. Mae yna rai engreiffiau o lwyddiant (e.e. Bwrdd Uchelgais).
- Mae yna gydweithio hefyd yn digwydd ar lefel sirol gyda llwyddiant yn amrywiol. Mae ein perthynas gyda'r Trydydd Sector yn parhau i esblygu ac rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn defnyddio'r berthynas honno i uchafu'r budd sy'n gallu deillio o hynny i bobl Gwynedd. Mae'r siwrnai yma yn parhau gyda'r adrannau perthnasol yn parhau i ddatblygu'r berthynas.
- Yn ystod cyfnod y pandemig gwelwyd brwdfrydedd amlwg ymysg gwirfoddolwyr i helpu ein cymunedau a bu'r Cyngor yn weithgar yn ceisio cynorthwyo'r grwpiau hynny i lwyddo.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Ymgysylltu

Risg: Methiant i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion unigol, gan arwain at beidio gwneud pethau yn iawn

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae ymgysylltu'n glir gyda Pobl Gwynedd, er mwyn sefydlu cyfathrebu clir a chael gwir ddealltwriaeth o anghenion, yn un o elfennau pwysicaf trefniadau llywodraethu.
- Bwriad Strategaeth Ymgysylltu'r Cyngor yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill fel bo'n briodol, gyda'r Uned Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cefnogi gwasanaethau i ymgynghori yn y dull addas, a chefnogi wrth ddadansoddi canlyniadau.
- Rhannwyd y Sir i mewn i wyth ardal llesiant ac ymgynghorwyd gyda thrigolion yr ardaloedd hynny wrth lunio'r asesiad llesiant. Defnyddiwyd yr ardaloedd llesiant fel sail i drafodaethau cynnar Cynllun y Cyngor yn Hydref 2017 ac mae modd dadansoddi data ymgynghoriadau ar sail yr ardaloedd hyn hefyd.
- Y Llawlyfr Ymgysylltu wedi cael ei adolygu ym 2018 er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â threfniadau newydd rheoli perfformiad.
- Trefniadau newydd wedi eu sefydlu i ymgysylltu'n benodol efo pobl ifanc Gwynedd yn sgil y gwaith ar adolygu y Gwasanaeth Ieuencid. Cynhaliwyd dau ymarferiad corfforaethol sylweddol ("Blaenoriaethau Pobl Gwynedd" a "Strategaeth Ariannol y Cyngor") yn ystod 2018/19 a chefnogwyd 14 gwasanaeth i ymgysylltu gyda'u defnyddwyr. Defnyddiwyd yr ymarferiadau yma i:
 - Gryfhau gallu'r Cyngor i gynnal sgwrs ddwyffordd efo carfannau "anodd eu cyrraedd" (pobl ifanc, pobl LGBT+, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, oedolion gydag anabledau dysgu ayyb);
 - Adnabod camau i gryfhau a gwella'r Canllawiau a'r adnodd "Bocs Tŵls" Ymgysylltu;

- Cynnal awdit o allu'r adrannau i ymgysylltu a sefydlu trefniadau ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth i sicrhau fod y prosiectau lefel gwasanaeth a gefnogir yn cwrdd ag egwyddorion ymgysylltu'r Cyngor (pwrpas ac allbwn clir, amserlen ymarferol, hygrychedd, ymrwymiad i adrodd yn ôl ar y canlyniadau ayyb.).
- Mae ymgysylltu gydag ardaloedd lleol wedi bod yn allweddol wrth i'r Cyngor gefnogi'r gwaith o adfer cymunedau yn dilyn y pandemig gyda bwriad i ymestyn y cysyniad ymhellach wrth lunio Cynlluniau Adfywio Ardalol i'r dyfodol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cyfeiriad a gweledigaeth

Risg: Cyfeiriad a gweledigaeth sydd heb ei wreiddio mewn canlyniadau i unigolion ac nad yw felly'n gwireddu anghenion Pobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth bennu ei flaenoriaethau a rheoli disgwyliadau oherwydd y diwylliant o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, gyda'r mesurau perfformiad a ddefnyddir i herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau yn deillio o hyn.
- Cymeradwywyd Cynllun y Cyngor 2018-23 (adolygiad 2020/21) gan y Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2020. Mae'r Cynllun yn cynnwys ein Datganiad Llesiant, saith Blaenoriaeth Gwella a phob cynllun adrannol. Canolbwyntwyd ar sicrhau ei fod yn glir a hawdd i bawb i'w ddarllen a'i ddeall.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	2	6

Cynaliadwyedd

Risg: Risg o greu atebion anghynaliadwy sydd ddim yn cydymffurfio gyda 5 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac felly ddim yn edrych ar yr hirdymor

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, ar y cyd â'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi gwneud gwaith cychwynol i adnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu yn unol â'r 5 egwyddor - Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys.
- Mae'r Cyngor eisioes yn cydymffurfio â'r holl egwyddorion ond i raddau gwahanol. Rydym wedi cyflwyno eglurhad o egwyddorion y Ddeddf i'r Grŵp Rheoli sydd wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Cydnabyddir bod angen asesu os yw'r ffordd yma yn llwyddo ai peidio. Mae adroddiadau s'yn dod gerbron y Cabinet yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol er mwyn eu hadolygu i gadw golwg ar leoedd lle efallai nad yw'r egwyddorion wedi eu dilyn cystal ag y gellid. Drwy hyn y gobaith yw y byddwn yn gwreiddio'r egwyddorion yn naturiol yn hytrach na thicio bocsys ond amser a ddengys a fyddwn yn llwyddiannus. Mae'r egwyddorion yn golygu cynnwys pob carfan

o gymdeithas ac mae gan y Cyngor eisoes drefniadau priodol i sicrhau ein bod yn gwella ein darpariaethau ar gyfer rhai nodweddion gwarchoddedig.

- Erbyn hyn roeddem wedi bwriadu asesu i ba raddau y mae'r gwreiddio yma yn digwydd go iawn ond oherwydd y Pandemig nid yw'r gwaith hwnnw wedi cychwyn. Mae Archwilio Cymru hefyd yn gwneud darn o waith er mwyn asesu hynny a byddwn angen ystyried i ba raddau y mae'r adroddiad hwnnw yn rhoddi cyfeiriad i ni wrth symud ymlaen.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Penderfyniadau

Risg: Amharodrwydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Tystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod Cyngor Gwynedd yn fodlon gwneud penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd e.e. maes ysgolion, allanoli ei Dai Cyngor, gweithredu ar ganlyniadau anodd Her Gwynedd; newid y drefn leuenctid a chymryd camau i sicrhau egwyddorion gweithredu ym maes Addysg.
- Bu'n rhaid canslo un o gyfarfodydd y Cabinet, ar 31 Mawrth 2020, oherwydd y pandemig. Ers hynny, mae'r Cabinet wedi cyfarfodydd yn rhithiol trwy dduliau meddalwedd fideogynadleda yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.
- Ni fu modd cynnal Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym Mai 2020 yn unol â'r amserlen wreiddiol. Bydd hyn yn digwydd yn unol â'r Rheoliadau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Cynllunio Gweithrediadau

Risg: Ymyrryd heb gynllunio'n ddigonol, fyddai'n gallu golygu unai gweithredu ar fypw neu gynllunio'n ormodol gan wastraffu amser ac adnoddau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gynnal balans addas rhwng cael gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a gweithio'n effeithlon.
- Ceisir taro cydbwysedd rhwng yr angen am drefn a'r angen i gyflawni cyn gynted ag bod modd drwy wneud cyn lleied o waith papur ag sy'n gyson gyda hynny, gan annog adroddiadau syml a byr yn gosod allan y prif bwyntiau allweddol.
- Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canol, gyda cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar hwnnw. Mae gwaith y Cyngor ar gynllunio ariannol yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan yr archwilwyr allanol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymryd rôl flaenllaw ar graffu ariannol.
- Mae yna elfen o dystioleth fod angen gwella'r cyfathrebu rhwng y Cabinet a'r corff sy'n gyfrifol am gydgordio'r gwaith craffu o hyd.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Adolygu deilliannau

Risg: Methiant i adolygu deilliannau en gweithredoedd, sy'n golygu nad ydym yn dysgu gwersi gan barhau i wneud yr un pethau yn anghywir

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae trefniadau asesu risg, llunio Cynllun Corfforaethol a rheoli prosiect y Cyngor yn sicrhau fod y deilliannau a fwriedir eu cyflawni ar gychwyn unrhyw brosiect yn glir.
- Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ceisio canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae'r deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni. Mae yna engreifftiau lle mae hynny wedi digwydd yn dda ac mae'r sefyllfa yn gwella.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	2	6

Asedau Eiddo

Risg: Asedau Eiddo'r Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2019/20 hyd 2028/29 wedi cael ei ddatblygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 07/03/2019.
- O ran y cerbydau mae yna gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd y Cyngor sydd eisoes wedi cyflwyno rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Asedau Technoleg Gwybodaeth

Risg: Asedau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r gweithgareddau Technoleg Gwybodaeth dros y blynyddoedd a fu wedi canolbwyntio ar sicrhau isadeiledd priodol er mwyn gwarantu cefnogaeth sylfaenol i wasanaethau. Tra bod yna engreifftiau lle 'rydym wedi medru defnyddio technoleg gwybodaeth yn ehangach i wella sut yr ydym yn cyflawni gwasanaethau i drigolion Gwynedd, nid oes yna dystiolaeth fod hyn yn gyson ar draws yr awdurdod a'i fod yn digwydd ar y cyflymder yr hoffem iddo ddigwydd.

- Mae Cynllun Ffordd Gwynedd 2019-2022 yn nodi fod y gefnogaeth Technoleg Gwybodaeth yn allweddol er mwyn atgyfnerthu gallu gwasanaethau i gyflwyno dulliau amgen o weithredu a fydd wedyn yn arwain at ddarpariaeth well ac hwylusach i bobl Gwynedd. Gwelodd ymateb y Cyngor i'r pandemig newid sylweddol yn nulliau gweithredu nifer o adrannau, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn gweithio o adref – na fyddai wedi bod yn bosib heb weithrediad cyflym a phendant gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cynllunio'r Gweithlu

Risg: Gweithlu'r Cyngor ddim yn cael ei ddatblygu, sy'n golygu nad ydym yn gallu darparu gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cynllun Pobl wedi esblygu dros y deuddeg mis diwethaf i weithio ar y cyd hefo Prosiect sy'n ymwneud ag Adnabod a Datblygu Talent h.y. adnabod y bylchau yn y gweithlu presennol ac i'r dyfodol ac yna denu a datblygu'r talent sydd ei angen yn fewnol ac yn allanol.
- Mae'r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, gwella ein trefniadau Cynllunio'r Gweithlu, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Arweinyddiaeth

Risg: Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae Arweinyddiaeth yn gosod y safon y mae disgwyl i bob Aelod a gweithiwr yn y Cyngor ei ddilyn. Mae ei effaith, felly, yn enfawr - gall Arweinyddiaeth dda oresgyn popeth arall, tra gallai Arweinyddiaeth wael ddistrywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Hwn sy'n hwyluso gwreiddio diwylliant y Cyngor.
- Mae rolau y Cyngor, Cabinet, Aelodau Unigol a Prif Swyddogion, ynghyd â chynllun dirprwyo clir, wedi eu gosod allan yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi blaenoriaethu datblygu ei Raglen Arweinyddiaeth ac mae hwnnw yn rhan o'r Cynllun Pobl a fabwysiadwyd gan y Cabinet.
- Tra bod yna ymrwymiad clir i fod yn ceisio gwella arweinyddiaeth yn barhaus, nid ydym bob tro yn y gorffennol wedi bod yn glir beth y mae hynny yn ei olygu na sut i'w wella.
- Mae yna elfen o dystiolaeth (drwy hunan asesiad) fod arweinyddiaeth o fewn y Cyngor yn gwella gyda nifer o enghreifftiau o arweinyddiaeth trawsffurfiol yn cael ei arddangos yn hytrach nag arweinyddiaeth trafodaethol. Mae'r pwyslais cynyddol a roddir ar "arwain" yn hytrach na "rheoli" o fewn diwylliant Ffordd Gwynedd yn arwydd arall cadarn o'r camau breision sy'n cael eu cymryd gydag aelodau'r Cabinet yn cymryd rol blaenllaw i hyrwyddo arweinyddiaeth dda trwy ymrwymo i'w

datblygiad fel arweinwyr. Ymhellach cytunwyd ar yr hyn a ddiffinir fel arweinyddiaeth o fewn Cyngor Gwynedd ac mae'r diffiniad hwnnw yn cael ei adlewyrchu mewn swydd-ddisgrifiadau diwygiedig ar gyfer pob pennaeth a rheolwr yn y Cyngor. Mae'r ymrwymiad ar lefel gwleidyddol a gweithredol yn arddangos bod y camau positif hyn wedi dwyn ffrwyth a bod yr angen a'r gallu i arwain yn gwreiddio fel y norm o fewn y Cyngor. Yn sgil hyn oll, ystyrir y gwaith yma fel rhywbeth sy'n parhau yn allweddol ond gan gydnabod nad yw'n gymaint o risg ag y bu yn y gorffennol.

- Er mwyn adlewyrchu hynny, mae'r gwaith hwn wedi'i ymgorffori o fewn rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd yn hytrach na sefyll fel prosiect ar ei draed ei hun er bod prosiect penodol yn parhau i gael blaenoriaeth gwella uchel yng nghyswllt Merched mewn Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	2	8

Rheoli Risg

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli risg, sy'n cynyddu'r bygythiad o rhywbeth yn mynd o'i le neu fethu cymryd cyfle i wella

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol, megis Iechyd a Diogelwch, Diogelu Plant ac Oedolion a Chynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth. Mae tystiolaeth meintiol fod perfformiad yn y meysydd hyn yn gwella - er fod yna enghreifftiau o le i wella ymhellach.
- Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnbylg y Cyngor.
- Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn parhau i ddatblygu, a byddant yn esblygu ymhellach wrth i ddiwylliant Ffordd Gwynedd dreiddio trwy'r Cyngor. Gwaith diweddar i ddatblygu un Cofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer yr holl awdurdod, ac i wneud hynny law-yn-llaw â threfn ble mae yn unedau busnes yn cofnodi rhwystrau ac yn mynd ati i geisio datrys rheini yn syth, yn dechrau dangos llwyddiant.
- Mae'r Pandemig Covid-19 wedi bod yn brawf sylweddol i Gynllun Pandemig Ffliw ac i gynlluniau parhad gwasanaeth y Cyngor. Yn syth fe welwyd yr hyn sy'n digwydd gydag unrhyw gynllun, sef bod yna bethau yn digwydd nad ydynt wedi eu cyfarch yn y cynllun. Er enghraifft nid oedd y Cynllun Pandemig Ffliw yn rhagweld y byddai cymdeithas ei hun yn cael ei gloi lawr ac y byddai angen dygymod nid yn unig gydag absenoldebau staff ond hefyd gyda staff i gyd yn gweithio o adref.
- Serch hynny llwyddwyd i ymateb ac mae'r nifer cymharol is yn yr achosion na'r hyn a ragwlewyd yn y tafluniadau gwreiddiol; y cyfyngiad yn y nifer marwolaethau a'r ffaith y bu modd i'r Cyngor barhau i ddarparu ei wasanaethau Blaenoriaeth 1 yn dyst i hynny.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
5	2	10

Perfformiad

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol i wireddu ein pwrpas

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cyfundrefn Rheoli Perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau fod unedau busnes yn cyflawni eu pwrpas, a hynny trwy adolygu'n barhaus os ydym yn mesur y pethau cywir.
- Mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Cabinet a rheolwyr i asesu'r perfformiad diweddaraf gydag aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd yn bresennol i roi her. Cyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd gan yr aelodau Cabinet ar eu meysydd cyfrifoldeb hwy i gyfarfodydd y Cabinet. Er hyn, nodir fod y drefn yma wedi cael ei ohirio yn ystod gwanwyn 2020 oherwydd y pandemig.
- Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn arsylwi ar ein perfformiad mewn gwahanol feysydd drwy gyhoeddi amrywiol adroddiadau ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymryd trosolwg fod unrhyw argymhellion yn derbyn sylw.
- Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol newydd yn parhau i ddatblygu'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau. Mae'r Gwasanaeth Cwynion a Gwella Gwasanaethau wedi gallu parhau i weithredu i ddelio â phryderon y cyhoedd ac i gefnogi gwasanaethau trwy gydol cyfnod y pandemig.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Rheolaeth Fewnol

Risg: Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu unai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio yn cadarnhau fod modd rhoi sicrwydd ar y rheolaethau mewnol yn y Cyngor.
- Mae adolygu ac addasu rheolaethau mewnol fel eu bod yn gymesur i'r hyn sydd ei angen yn greiddiol i'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan waredu tasgau or-fiwrocraidd. Mae cael gwared o rwystrau yn ran o waith pawb, gan arwain at lefel addas o reolaeth fewnol.
- Mae effeithlonrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac mae hunanasesiad yn dangos fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl.
- Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gylch gorchwyl cytunedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn effeithiol iawn yn gwireddu ei swyddogaethau. Er hynny, gall fod tueddiad yma a thraw i'r Pwyllgor geisio dyblygu gwaith eraill (e.e. pwyllgorau craffu), yn hytrach na chadw throsolwg o'r trefniadau.
- Nodir fod cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym Mai 2020 a Mehefin 2020 wedi cael eu gohirio oherwydd yn pandemig, ond bydd yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o safbwynt y Datganiad o Gyfrifon trwy gyfarfod yn rhithiol fel bo'r angen yng Ngorffennaf a Medi 2020.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Gwybodaeth

Risg: Methiant i reoli gwybodaeth gan arwain at fethu gwarchod y gwybodaeth sydd gennym, neu beidio gwneud y defnydd gorau ohono.

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r system ERDMS, iGwynedd, bellach wedi ei chyflwyno i bawb yn y Cyngor ac yn sylfaen ar gyfer rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, lleihau dyblygu a galluogi llai o gamau mewn prosesau.
- Mae'r Tim Ymchwil a Gwybodaeth yn cefnogi adrannau wrth ddefnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau uchaf yng Nghynllun y Cyngor.
- Mae angen parhaus i godi ymwybyddiaeth am egwyddorion Diogelu Data, a gwella ymagweddiad yn y maes. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Yn arbennig mae llawer o waith wedi ei wneud i baratoi ar gyfer dyfodiad Deddfwriaeth diogelu data newydd.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cyllid

Risg: Gwendidau wrth rheoli arian cyhoeddus, sy'n golygu nad yw cyllid y Cyngor yn cael ei ddefnyddio ar ei flaenoriaethau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae tystiolaeth glir yn bodoli fod trefniadau'r Cyngor yn gadarn, ac mae adolygiadau gan archwilyr allanol - nid yn unig o'r Datganiadau Blynyddol o'r Cyfrifon ond hefyd adolygiadau o gydnerthedd ariannol - yn cynnig barn annibynnol sy'n cadarnhau hyn.
- Er gwaethaf hyn, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Adroddwyd i gyfarfod y Cabinet ar 19 Mai 2020 fod y sefyllfa yn un fregus gydag incwm wedi lleihau a gwariant yn uwch yn ystod y cyfnod argyfwng. Amcangyfrifir fod colled incwm y Cyngor am 3 mis oddeutu £5m, ac os fydd sefyllfa'r argyfwng yn parhau mi fydd y golled incwm oddeutu £10m dros 6 mis. Bydd y golled yn ddibynnol ar effaith y cyfyngiadau yn ystod y cyfnod.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	1	3

Atebolrwydd

Risg: Adrodd gwael, heb dryloywder ac anaddas i'r gynulleidfa, sydd ddim yn amlygu i'r cyhoedd yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar eu cyfer gan danseilio'r sefyllfa ddemocrataidd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau ar baratoi adroddiadau ac ar wneud penderfyniadau da, er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn eglur.
- Yn ogystal ag adroddiadau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r adroddiadau a gynhyrchir hefyd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, y Cynllun Strategol (fydd yn cwmpasu cynlluniau busnes adrannol) a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gynhyrchir yn unol â fframwaith CIPFA/Solace.

- Mae'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol.
- Fodd bynnag er gwaethaf ymdrechion y Cyngor, ac heblaw am achosion lle mae newid eithaf sylfaenol dan sylw, mae niferoedd sydd yn ymateb i ymgynghoriadau yn awgrymu nad oes yna ddyhead mawr ymysg y cyhoedd i fod yn dal y Cyngor yn atebol.
- Bydd monitro adroddiad Cabinet yn parhau i ddigwydd yn naturiol gyda'r Prif Weithredwr yn taro golwg ar bob un.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Sicrwydd

Risg: Diffyg sicrwydd ac atebolrwydd sy'n codi amheuaeth ymysg y cyhoedd am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae nifer o ffyrdd ar gael o fewn y Cyngor er mwyn darparu sicrwydd annibynnol fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithio fel y dylent. Mae swyddogion statudol yn sicrhau fod materion yn cydymffurfio â'r gyfraith a threfniadau'r cyfansoddiad tra bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn herio yn barhaus a yw adrannau yn gwneud y pethau iawn. Mae aelodau'r Cabinet hefyd yn cwrdd yn aml i herio eu gilydd ar ddatblygiadau.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cadw trosolwg ar y trefniadau llywodraethu yn ogystal ag ar weithrediad argymhellion archwilwyr allanol.
- Yn cefnogi hyn mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau proffesiynol statudol, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus.
- Yn ffurfiol, fodd bynnag, y drefn craffu sydd i fod i ddal y Cabinet i gyfrif. Mae yna graffu a herio penderfyniadau a pholisiau yn dryloyw a gwrthrychol ond mae ansicrwydd ynglŷn a pha mor effeithiol y mae hynny. Adolygwyd y trefniadau cyn etholiad Mai 2017 ac fe benderfynodd y Cyngor fynd yn groes i argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a mabwysiadu trefn wahanol ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r drefn newydd wedi'i rhoi ar waith yn dilyn etholiadau Mai 2017. Gwnaed addewid i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau diwygiedig ac mae Gweithgor Craffu wedi ei sefydlu, sy'n cynnwys aelodau o'r Cabinet, Fforwm Craffu ac uwch swyddogion yn eistedd ar y Gweithgor hwnnw.
- Mae Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau archwilio a chraffu. Bu'n rhaid canslo cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r pwyllgorau craffu ers cychwyn yn argyfwng ym Mawrth 2020. Ni fu modd i Archwilio Mewnol gyflawni llawer o archwiliadau yn ystod y cyfnod hwn chwaith, ond sefyllfa dros dro oedd hyn a cyflwynwyd cynllun Archwilio Mewnol newydd ar gyfer gweddill 2020/21 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 30 Gorffennaf 2020.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	6

Rydym wedi cael ein cyngori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

- 4.1 Dengys y sgoriau uchod na ystyrir fod unrhyw un o'r 22 maes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn, ond mae 1 yn risg uchel ac 11 yn risg canolig.
- 4.2 Mae camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â risg uchel neu ganolig wedi eu nodi isod.

RISG UCHEL

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Diwylliant	<p>Mae'r hyfforddiant 6 diwrnod yn parhau ar gyfer rheolwyr newydd a darpar-reolwyr tra bo hyfforddiant dau ddiwrnod i'w beilota gyda 4 grwp o swyddogion ar draws y Cyngor yn ystod hanner cyntaf 2020. Mae'r Grwp Craidd Ffordd Gwynedd ar hyn o bryd yn ystyried sut orau i arddangos y cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda golwg i gynnwys eitem er mwyn trafod hyn ar raglen cyfarfodydd y Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod 2020/21.</p> <p>Mae gwaith ar y gweill i ystyried dulliau o fesur cynnydd y diwylliant a geisir, trwy gyfuniad o hunan-asesiad gan reolwyr a'u timau ar yr un llaw ac herio gan aelodau'r Tim Rheoli a'r Cabinet ar y llaw arall. Disgwylir hefyd derbyn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2020 fydd yn asesu'r cynnydd trwy lygaid annibynnol. Y bwriad yw y bydd hyn oll yn cyfrannu tuag at ein gallu i fesur, nid yn unig y cynnydd, ond hefyd yr effaith a gaiff y "ffordd o weithio" ar ein gwasanaethau.</p>	Cefnogaeth Gorfforaethol

RISGIAU CANOLIG

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Rhanddeiliad	<p>Mae yna ymdrechion yn mynd ymlaen mewn amryw feysydd i geisio symleiddio perthynas waith sy'n gymhleth. Fodd bynnag rhaid cydnabod mai dim ond hyn a hyn y mae modd i ni ei wneud ac mae yna le i gwestiynu mai'r ateb bellach yw ceisio darganfod ffyrdd o weithio rownd y rhwystrau deddfwriaethol sydd wedi cael eu gosod gan y Llywodraeth arnom. Rydym eisoes yn gwneud hynny yn eithaf llwyddiannus.</p>	<p>Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol</p>
Ymgysylltu	<p>Yn ystod 2020/21 mae bwriad i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • barhau i gyd-weithio gyda'r Gwasanaethau Ieuentid a phartneriaid allanol i ddatblygu ymhellach ein gallu i ymgysylltu gyda pobl ifanc. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Amddiffyn Plant i ddatblygu'r modd mae'r Cyngor yn ymgysylltu gyda phobl ifanc sydd un ai mewn gofal neu wedi gadael gofal y Cyngor; • sefydlu Panel Trigolion newydd fydd yn gwneud llawer mwy o ddefnydd o ddulliau electronig o ymgysylltu a fydd hefyd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a GDPR; • parhau i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i arfogi gwasanaethau i gynnal ymarferiadau ymgysylltu ystyrlon ac effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi a hyrwyddo templedi, enghreifftiau o ymarfer da, canllawiau a "Bocs Tŵls" ymarferol. • asesu a chanfod y cynnydd ar draws y Cyngor o ran deall anghenion y rhai sy'n derbyn gwasanaeth 	<p>Cefnogaeth Gorfforaethol</p>
Cyfeiriad a gweledigaeth	<p>Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.</p>	<p>Cefnogaeth Gorfforaethol</p>
Cynaliadwyedd	<p>Bydd y Grwp Llywodraethu yn ystyried canlyniad gwaith gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fel sail i gynnal asesiad o sut mae'r 5 ffordd o weithio yn gwreiddio o fewn adrannau unigol, cyn dod i gasgliad ynglŷn â pha gamau sydd angen eu cymryd i lawn fabwysiadu egwyddorion llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar draws y Cyngor.</p>	<p>Cefnogaeth Gorfforaethol</p>
Adolygu deilliannau	<p>Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.</p>	<p>Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol</p>

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Asedau Technoleg Gwybodaeth	Gweithredu yn unol â'r rhaglen waith sydd wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth fel bod pobl Gwynedd yn medru cael gafael ar wasanaeth ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy.	Cyllid
Cynllunio'r Gweithlu	Mae'r Grŵp Prosiect a swyddogion y Tim Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agos hefo rheolwyr yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn bresennol ac yn canolbwyntio ar adnabod swyddi a swyddogaethau allweddol yno. Bydd y gwaith hwn yn lledaenu i weddill y Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r angen i ddatblygu unigolion i gyflawni swyddogaethau arbenigol ac allweddol yn cael ei ddiwallu mewn sawl modd gyda'r ffocws yn ystod y flwyddyn i ddod ar brentisiaethau, cynllun arbenigwyr yfory a datblygu sgiliau arwain ymysg y gweithlu presennol.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Arweinyddiaeth	<p>Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo merched mewn arweinyddiaeth mewn ymdrech i gynyddu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio, ac yn cael eu penodi, i ymgymryd ag uwch gyfrifoldebau o fewn y Cyngor. Mae'r prosiect penodol hwn wedi blaenoriaethu cynlluniau i gyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a penodi ar gyfer swyddi rheolaethol a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.</p> <p>Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r ymddygiadau arwain a ddisgwylir o reolwyr yn gyffredinol ac hynny'n bennaf trwy gyfuniad o hyfforddiant yn ymwneud a'r "ffordd o weithio" a thrwy herio'r ymddygiadau fel rhan o'r gwerthuso parhaus sy'n cael ei hyrwyddo fel rhan o sefydlu'r diwylliant.</p>	Cefnogaeth Gorfforaethol
Rheoli Risg	Gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Byd y Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddar'u'n barhaus. Bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach.	Cyllid

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Gwybodaeth	<p>Mae bwriad i'r Tîm Ymchwil a Gwybodaeth ymestyn y gwaith cefnogi gwasanaethau wrth ddefnyddio a dehongli data perfformiad fel rhan o weithgaredd cefnogi Ffordd Gwynedd yr adran.</p> <p>Bydd y tim hefyd yn edrych ar sefydlu a hyrwyddo Safonau Gwybodaeth ar gyfer meysydd lle mae anghysondebau yn bodoli neu wedi codi.</p> <p>Mae'r gwaith o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data newydd yn parhau. Yn sgîl y gwaith o greu cofrestri asedau data, mae gwell ymwybyddiaeth o'r data personol sy'n cael ei gadw gan y Cyngor a pha wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu yn allanol a'r angen i gytundebau masnachol priodol fod mewn lle.</p> <p>Ond erys y pryder am y niferoedd staff isel sy'n manteisio ar hyfforddiant ac yn derbyn polisiau yn y maes. Sefydlwyd grŵp i edrych yn benodol ar hyn ar draws y materion statudol er mwyn adnabod y ffyrdd fwyaf effeithiol ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant.</p>	Cefnogaeth Gorfforaethol
Sicrwydd	<p>Mae'r tim newydd a sefydlwyd ar gyfer cryfhau'r gefnogaeth i drefniadau craffu o fewn y Cyngor, yn gweithio'n agos hefo Cadeiryddion/Is-gadeiryddion y pwyllgorau unigol er mwyn sicrhau eglurder a rhannu arferion gorau. Bydd hyn yn ymestyn i ddatblygu trefniadau craffu rhanbarthol ar y cyd ag awdurdodau eraill ble'n berthnasol yn ystod 2020/21.</p>	Cefnogaeth Gorfforaethol

Rhan 5: BARN

Rydym o'r farn fod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd fod ein trefniadau llywodraethu ar y cyfan yn gweithredu'n dda. Serch hynny, rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion a nodir yn Rhan 4 uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

DILWYN O WILLIAMS

PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD

Cyng. DYFRIG SIENCYN

ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD

DYDDIAD

Eitem 6

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	30 GORFFENNAF 2020
TEITL:	CYFRIFON TERFYNOL 2019/20 – ALLDRO REFENIW
PWRPAS:	EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL 2019/20
GWEITHREDIAD:	Derbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2019/20, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.
SWYDDOG CYSWLLT:	FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID

1. Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2019/20 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma yw sail i'r datganiadau statudol sydd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod yma o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
2. Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 16 Mehefin o'r Cabinet sydd ar y tudalennau dilynol.
3. Nodaf fod rhan 5 ac Atodiad 3 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd a darpariaethau'r Cyngor.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	16 Mehefin 2020
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	1 Gorffennaf 2020

PWNC

Eitem 6: CYFRIFON TERFYNOL 2019/20 - ALLDRO REFENIW

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd:

1.1 Nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r cyngor am 2019/20.

1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario ymlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad sef:

ADRAN	£'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	0
Plant a Theuluoedd	100
Addysg	(96)
Economi a chymuned	67
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	100
Amgylchedd	(100)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(11)
Tai ac Eiddo	83
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	(50)
Cyllid	(70)
Cefnogaeth Gorfforaethol	(100)

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn Atodiad 2) –

- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £3,259k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2020/21.
- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £447k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i 2020/21 i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2020/21.
- Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol, cadw at y drefn arferol i ganiatáu i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£70k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2019/20.
- Ar gyllidebau Corfforaethol, defnyddio (£1,012k) o'r tanwariant net i gynorthwyo'r

adrannau sydd wedi gorwario yn 2019/20.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd a darpariaethau penodol:

- fel amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, cynaeafu (£801k) o gronfeydd a (£24k) o ddarpariaethau gan ddefnyddio'r cyfanswm o (£825k) i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2019/20.
- Cyllido gweddill y gorwariant adrannol o (£1,799k) o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

ADRODDIAD I'R CABINET

16 MEHEFIN 2020

Aelod Cabinet: Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Cyfrifon Terfynol 2019/20 – Alldro Refeniw

Swyddog cyswllt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet:

- 1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2019/20.
- 1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

ADRAN	£'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	0
Plant a Theuluoedd	100
Addysg	(96)
Economi a Chymuned	67
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	100
Amgylchedd	(100)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(11)
Tai ac Eiddo	83
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	(50)
Cyllid	(70)
Cefnogaeth Gorfforaethol	(100)

- 1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2**) –
- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £3,259k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2020/21.

- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £447k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i 2020/21 i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2020/21.
- Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol argymhellir cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£70k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2019/20.
- Ar gyllidebau Corfforaethol, defnyddio (£1,012k) o'r tanwariant net i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2019/20.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd a darpariaethau penodol:

- fel a amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, cynaeafu (£801k) o gronfeydd a (£24k) o ddarpariaethau gan ddefnyddio'r cyfanswm o (£825k) i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2019/20.
- Cyllido gweddill y gorwariant adrannol o (£1,799k) sydd ar ôl i'w gyllido o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.

2. Cyflwyniad / Cefndir

- 2.1 Yr hyn sydd yn amlwg iawn o edrych ar sefyllfa derfynol 2019/20 yw'r pwysau sylweddol sydd yn wynebu'r maes gofal a'r maes gwastraff, gwelir hefyd arwyddion fod rhai trafferthion cyflawni arbedion, gan ein bod yn ceisio isafu'r ardrawiad ar drigolion Gwynedd drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n llawer anoddach na thorri gwasanaethau.

Rydym eisoes yn gwybod fod y flwyddyn ariannol 2020/21 yn mynd i fod yn un heriol yn ariannol, fel sydd sydd eisoes wedi ei egluro yn yr adroddiad effaith Covid-19 ar gyllideb 2020/21 a gyflwynwyd i'r Cabinet 19/05/2020.

- 2.2 Felly, **gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2019/20. Mae'r Adran Gyllid eisoes ers 3 Mehefin wedi cynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol cyn y dyddiad statudol o 15 Mehefin.**

3. Adrannau'r Cyngor

- 3.1 **Ar y cyfan, cadarnhaf fod dros hanner yr adrannau wedi medru cadw o fewn eu cyllidebau eleni.** Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig". Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion rheiny wedi'u hamlygu er ystyriaeth uchod yn 1.3.
- 3.2 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd, rhagwelwyd gorwariant tebygol o £4.6 miliwn ar adrannau'r Cyngor. Ers hynny, bu lleihad o £1.1 miliwn i ffigur cymharol yr adrannau i £3.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, sef gostyngiad o £0.7 miliwn gan yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant a gostyngiad o £0.4 miliwn gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Ymhellach, mae £1 miliwn o danwariant ar gyllidebau Corfforaethol, sydd felly yn lleihau'r bwch i £2.5 miliwn.
- 3.3 Ar ddiwedd y flwyddyn mae sefyllfa ariannol dros hanner yr adrannau yn tanwario, ac wedi'i ragamcanu'n gywir yn ystod 2019/20. Gwelwyd leihad yn lefel y gorwariant gan yr **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**, gyda sefyllfa'r **Adran Addysg** ac **Ymgynghoriaeth Gwynedd** yn well na'r hyn a ragwelwyd. Ond nodaf y bu gwelliant nodedig yn sefyllfa ariannol yr **Adran Oedolion**, yn dilyn derbyniad ac ail gyfeirio grantiau yn hwyr yn y flwyddyn gan y Llywodraeth.
- 3.4 Bu cynnydd yn y tueddiad gorwariant ar wasanaethau gweithredol, lleoliadau, Ôl-16, ac Arbenigol / Derwen gan yr Adran **Plant a Theuluoedd** ac felly adroddir ar orwariant o £3.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, yn gynnydd o £200k o'r £3.2 miliwn a ragwelwyd yn yr adolygiad ddiwedd Tachwedd. Er nad yw'r sefyllfa o orwariant yn y maes plant yn unigryw i Wunedd, ond yn hytrach yn ddarlun a welir ar draws awdurdodau, mae'r sefyllfa'n un pryderus.
- 3.5 Mae bron i £2 miliwn o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r **Adran Plant a Theuluoedd** yn 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol. Ond, fod y methiant i wireddu arbedion yn fater sydd yn parhau i fod angen ei ddatrys, ond mae bwriad i gyfarch hyn mewn adroddiad dilynol i'r Cabinet.
- 3.6 Y maes gwastraff yn parhau i fod yn gorwario yn sylweddol gan yr Adran **Priffyrdd a Bwrdeistrefol**, ond nifer o ffactorau ar draws yr adran yn gyfrifol am ostyngiad yn lefel y gorwariant i £547k erbyn diwedd y flwyddyn.

- 3.7 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae dau gais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol, ac un adran gyda sefyllfa tanwariant sydd uwchlaw'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2019/20, ac felly gyda tanwariant i'w gynaeafu.
- 3.8 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2019/20 yn unig.
- 3.9 Yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gorwariant yn 2019/20, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebu 2020/21, ac mae'r mwyafrif o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2020/21 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

4. Ysgolion

- 4.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi cynyddu o £4m yn 2018/19 i £4.3m yn 2019/20. Gwelwyd cynnydd cyffredinol ym malansau ysgolion y sector uwchradd a chynnydd o £430k ym malansau 43 ysgol gynradd ond gostyngiad o £416k mewn balansau 40 ysgol gynradd. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.
- 4.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).
- 4.3 Mae cyfanswm diffygion ariannol ysgolion wedi cynyddu o £207,106 (4 Cynradd, 2 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2019 i £239,646 (2 Cynradd, 1 Dilynol, 2 Uwchradd) ar 31 Mawrth 2020. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid berthnasol hefyd yn sicrhau y bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda nhw.

5. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

- 5.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un-tro ar nifer o benawdau'r gyllideb Gorfforaethol eleni, fel y nodir yn rhan olaf **Atodiad 2**. Fel yr argymhellir yn rhan 1.3 uchod, bydd (£1,012k) o'r tanwariant net yma ar gael i liniaru'r gorwariant gan yr Adran Plant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
- 5.2 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd a darpariaethau penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynyddoedd yn ôl. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £825k o adnoddau, fel amlinellir yn **Atodiad 3**.
- 5.3 Mae'r cyfan o'r £825k i'w ddefnyddio i gynorthwyo i gyllido'r sefyllfa gorwariant gan yr adrannau.
- 5.4 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant fel yr argymhellir uchod, ynghyd â defnyddio'r £825k o'r cynaeafu cronfeydd a darpariaethau, £1.799 miliwn o gyllid sydd ei angen yn weddill i fantoli'r sefyllfa ariannol 2019/20.
- 5.5 Awgrymir y dylid trosglwyddo £1.799 miliwn o'r gronfa strategaeth ariannol i gyllido'r bwlch. Bydd y Cyngor felly wedi llwyddo i osgoi gwneud unrhyw ddefnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2019/20 (yn unol â'r Strategaeth Ariannol cymeradwyodd y Cyngor ar 5 Mawrth 2020).

6. Camau nesaf ac amserlen

- 6.1 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, a Chod Ymarfer Cyfrifo CIPFA, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2019/20 y Cyngor cyn 15 Mehefin. Mae 2019/20 yn ail flwyddyn drosiannol o ran cwtogiad yn yr amserlen, gyda'r dyddiad statudol yn 15 Mehefin yn hytrach na 30 Mehefin, gyda chwtogiad pellach i 31 Mai o 2020/21 ymlaen. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses i gwblhau'r gwaith yn gynt a hynny dan amgylchiadau heriol iawn eleni yn sgil yr argyfwng Covid-19.
- 6.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol, a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2019/20. Byddwn yn ystyried y wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.
- 6.3 Mae'r Adran Gyllid wedi llwyddo i gynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2019/20 sydd wedi ei ardystio gan y Pennaeth Cyllid cyn y dyddiad statudol eleni o 15 Mehefin.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1 - sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran

Atodiad 2 - prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd a darpariaethau

Cyfrifon Terfynol 2019/20 Alldro Refeniw - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Terfynol				Amcan Sefyllfa Diwedd Tachwedd £ '000
	Cyllideb 2019/20 £'000	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20 £ '000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2019/20 £ '000	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	50,906	0	0	0	658
Plant a Theuluoedd	14,695	3,359	(3,259)	100	3,161
Addysg	85,853	(96)	0	(96)	16
Economi a Chymuned	4,227	67	0	67	14
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	24,464	547	(447)	100	970
Amgylchedd	3,339	(170)	70	(100)	(105)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	102	(11)	0	(11)	87
Tai ac Eiddo	3,040	83	0	83	30
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,632	(50)	0	(50)	(77)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,095	(70)	0	(70)	(75)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,651	(100)	0	(100)	(96)
Cyllidebau Corfforaethol (Gwahaniaethau yn unig)	*	(1,012)	1,012	0	0
Cyfansymiau (net)	202,004	2,547	(2,624)	(77)	4,583

Cyllido o:	
Cynaeafu Cronfeydd a Darpariaeth (Atodiad 3)	825
Cronfa Strategaeth Ariannol	1,799
	0

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	13,447	12,840	(607)	0	(607)	(145)
Gofal Cartref	6,831	5,962	(869)	0	(869)	(725)
Eraill	198	1,330	1,132	0	1,132	1,205
	20,476	20,132	(344)	0	(344)	335
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,350	2,228	(122)	0	(122)	(52)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	18,183	18,627	444	0	444	481
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,462	3,315	(147)	0	(147)	(84)
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	2,980	2,932	(48)	0	(48)	(35)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	47,451	47,234	(217)	0	(217)	645
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	(261)	(328)	(67)	0	(67)	(46)
Gofal Dydd	(23)	316	339	0	339	295
Gofal Cymunedol	(4)	393	397	0	397	328
Eraill	(3)	(46)	(43)	0	(43)	(26)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	(291)	335	626	0	626	551

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Eraill</u>						
Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>)	3,746	3,757	11	0	11	111
Defnydd o gronfa benodol			(420)	0	(420)	(649)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	3,746	3,757	(409)	0	(409)	(538)
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	50,906	51,326	0	0	0	658

Oedolion, lechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - derbyniad grant pwysau'r gaeaf gwerth £450k, cynnydd mewn grantiau eraill o £106k a chynnydd yn y derbyniad incwm preswyl a nyrsio yn dilyn ail-asesu incwm cleientiaid. Bu hefyd leihad pellach yn y galw am becynnau gofal cartref. Methiant i wireddu gwerth £669k o arbedion o fewn y pennawd 'Eraill' a gorwariant o £374k ar Lety Cefnogol, gyda chostau sefydlu cynllun Hafod y Gest yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol.

Gwasanaethau Anabledd Corff - y tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref yn parhau, ond cynnydd yn nifer y lleoliadau Preswyl a Nyrsio.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - effaith y galw cynyddol ar lety cefnogol a gwasanaethau dydd yn cael ei leihau gan danwariant ar breswyl a nyrsio.

Gwasanaethau lechyd Meddwl - achos costus wedi dod i ben ynghyd â throsiant staff a derbyniad grant ychwanegol.

Gwasanaethau Darparu - costau cysylltiedig â staffio uwchlaw lefel y gyllideb yn faterion yn Gofal Dydd a Gofal Cymunedol, gyda cartrefi wedi bod mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb. Lleihad yn yr incwm am fis Mawrth yn deillio o'r argyfwng Covid-19.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - derbyniad grant ac incwm a chwtogi ar wariant yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £247k o gynlluniau arbedion.

Mae'r adran wedi derbyn grant o £0.8 miliwn gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau cynyddol yn deillio o bwysau'r gaeaf a grantiau pellach eraill o £242k, mae'r grantiau yma wedi cynorthwyo i leihau'r gorwariant a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r adran hefyd yn gwneud defnydd o gyllid un-tro o £420k o gronfa benodol sydd yn galluogi'r adran i leddfu'r gorwariant yn llwyr eleni.

Heb y cyfraniadau ychwanegol mi fysa'r adran yn gorwario £1.5miliwn. Fodd bynnag erbyn cyllideb 2020/21 maent wedi derbyn bidiau ychwanegol o dros £1.8m. Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb, fel bod modd cael gwell dealltwriaeth o fanylder cymhleth y darlun yng ngofal oedolion.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	579	561	(18)	0	(18)	33
Gweithredol	2,206	2,359	153	0	153	88
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	2,128	3,752	1,624	0	1,624	1,521
Maethu Drwy Asiant	911	1,412	501	0	501	485
Maethu Mewnol	1,706	2,294	588	0	588	545
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,644	1,757	113	0	113	105
	6,389	9,215	2,826	0	2,826	2,656
Ôl-16	1,034	1,294	260	0	260	120
Arbenigol/Derwen	1,776	2,133	357	0	357	337
Cyfiawnder Ieuenctid	268	190	(78)	0	(78)	(44)
Blynyddoedd Cynnar	144	70	(74)	0	(74)	(73)
Ieuenctid	743	607	(136)	0	(136)	(69)
Eraill	1,556	1,625	69	0	69	113
Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20				(3,259)	(3,259)	0
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	14,695	18,054	3,359	(3,259)	100	3,161

Plant a Theuluoedd

Gweithredol - y gorwariant yn parhau er fod y maes wedi derbyn adnodd ychwanegol o £100k ar gyfer 2019/20 ymlaen, cynnydd sylweddol yn ystod misoedd olaf y flwyddyn ar gostau cefnogi teuluoedd yn ardaloedd Arfon a Dwyfor a gorwariant ar gostau staff sydd uwchlaw lefel y gyllideb.

Lleoliadau - y galw am yr ystod o wasanaethau yn dwysáu ymhellach, rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o 7 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 8 achos a ddechreuodd yn ystod 2018/19. Yn maethu drwy asiant, 12 achos newydd eleni ac effaith blwyddyn lawn 4 achos a gychwynwyd yn 2018/19. Cynnydd pellach hefyd yn y niferoedd lleoliadau maethu mewnol (166 ar 31.3.20, 139 ar 31.3.19). Yn dilyn adolygiad o'r ymrwymadau all-sirol, daeth yn amlwg y bu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig ac yn gydamserol, gwelwyd hefyd gwtogiad yng nghyfraniadau lechyd. Ymhellach i hyn, gwerth £370k o arbedion o fewn Lleoliadau sydd eto i'w gwireddu.

Mae arian ychwanegol o £1.985m wedi ei ddyrannu i'r Adran yn 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol yn y maes Lleoliadau.

Ôl-16 - costau cefnogaeth cychwynol uchel eleni yn deillio o 2 achos newydd sydd wedi trosglwyddo o Leoliadau All-sirol.

Arbenigol/Derwen – gorwariant o £357k yn bennaf ar gynlluniau cefnogol gyda chynnydd yn y galw am wasanaeth ac am gefnogaeth arbenigol.

Cyfiawnder leuenctid - Swyddi gwag a throsiant staff yn gyfrifol am y cynnydd yn y tanwariant.

Blynyddoedd Cynnar – derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yn gyfrifol am y tanwariant.

leuenctid – derbyniad grantiau yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth yn ddiweddar.

Eraill - derbyniad grant ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau'r gorwariant sydd yn deillio o'r gofyn uwch ar yr ymrwymiad i wasanaeth adfocatiaeth Gogledd Cymru, gorwariant ar ffioedd proffesiynol ac ar adolygiadau statudol.

O ystyried tueddiad gorwariant cynyddol yr adran, mae Tasglu Cyllideb Plant, wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr adran.

Argymhellir fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £3,259k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2020/21.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Addysg	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	74,272	74,272	0	0	0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(417)	(823)	(406)	0	(406)	(249)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	4,920	5,078	158	0	158	228
Gwasanaeth Atodol	441	797	356	0	356	259
Eraill	96	(71)	(167)	0	(167)	(347)
	5,457	5,804	347	0	347	140
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,125	2,076	(49)	0	(49)	(25)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,416	4,428	12	0	12	150
Cyfanswm Addysg	85,853	85,757	(96)	0	(96)	16

Addysg

Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o dderbyniad a defnydd o grantiau, trosiant staff a chwotgi ar wariant yn gyfrifol am y tanwariant pellach erbyn diwedd y flwyddyn.

Cludiant - yn dilyn y gorwariant ar y maes yma dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd £400k o gyllid ychwanegol ar gyfer 2019/20 gyda chyllid pellach wedi ei ddyrannu ar gyfer 2020/21. Serch hyn, mae'r gorwariant yn parhau ond yn is na'r hyn a ragwelwyd, gyda gorwariant o £63k ar Fysus Ysgol, £63k ar Gludiant Tacsis Ysgolion a £33k o ddiffyg incwm ar Gludiant Ôl-16 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - gydag ysgolion wedi cau am y saith diwrnod gwaith olaf ym Mawrth oherwydd y Covid-19, diffyg incwm cynyddol ar brydau ysgol a'r elfen gofal o'r cynllun brecwast o ganlyniad. Hyn yn ychwanegol i'r diffyg incwm oedd yn bodoli yn y maes yma'n barod ynghyd â gorwariant ar faterion staffio a salwch yn Arlwyath, Glanhau a Gofalu am ysgolion.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - yn parhau i danwario ond fod galw uwch ar gyllidebau amrywiol gan gynnwys ar integreiddio, na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - y gorwariant sydd yn ymwneud ag amgylchiadau mewn un ganolfan benodol wedi cael ei leddfu yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn o ganlyniad i ddefnydd o grant ynghyd â throsiant staff.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	345	348	3	0	3	0
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	386	396	10	0	10	10
Morwrol a Pharciau Gwledig	(101)	(92)	9	0	9	(36)
Cytundebau Hamdden	1,018	1,097	79	0	79	68
Rhaglenni Chwaraeon	97	37	(60)	0	(60)	(48)
Rhaglenni Datblygu Economiadd	62	36	(26)	0	(26)	(40)
Marchnata a Digwyddiadau	310	310	0	0	0	0
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,385	1,378	(7)	0	(7)	(9)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	725	784	59	0	59	69
Cyfanswm Economi a Chymuned	4,227	4,294	67	0	67	14

Economi a Chymuned

Morwol a Pharciau Gwledig - difrod yn deillio o stormydd y gaeaf wedi arwain at wariant ychwanegol annisgwyl ar y pontynau yn Hafan, Pwllheli ac ar gynnal tiroedd ym Mharc Glynllifon. Trosiant staff ym Mharc Glynllifon a Pharc Padarn yn golygu bod tanwariant o £27k ar y Parciau Gwledig ond bod gorwariant o £36k gan Morwol sydd yn gyfuniad o ddiffyg incwm a gorwariant staffio tymhorol ar y traethau a gwariant uwch yn Hafan, Pwllheli.

Cytundebau Hamdden - trosglwyddwyd y ddarpariaeth Hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor, gwelwyd cynnydd un-tro yng nghostau rhedeg y canolfannau hamdden ac felly yn gorwario £79k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rhaglenni Chwaraeon a Rhaglenni Datblygu Economaidd - swyddi gwag a defnydd o grantiau yn gyfrifol am y sefyllfa tanwariant ond costau angenrheidiol ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau'r tanwariant a adroddir ar Ddatblygu Economaidd.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - problemau yn parhau yn Storiel gyda gorwariant o £69k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staff a diffyg yn yr incwm. Tanwariant ar Archifau a'r Celfyddydau yn cynorthwyo rhywfaint ar y sefyllfa ariannol gan ostwng y gorwariant i £59k.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,767	9,713	(54)	0	(54)	(135)
Gwasanaethau Peirianeg	309	297	(12)	0	(12)	55
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	10,803	11,654	851	0	851	996
Eraill	3,585	3,347	(238)	0	(238)	54
Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20				(447)	(447)	0
Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol	24,464	25,011	547	(447)	100	970

Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - wedi rhagori ar incwm allanol ond gwariant ychwanegol ar gynlluniau yn gyfrifol am leihad yn y tanwariant a adroddir.

Gwasanaethau Peirianeg - llai o wariant mewn nifer o feysydd ar ddiwedd y flwyddyn wedi arwain at sefyllfa o danwariant.

Gwastraff - lleihad yn y gorwariant yn y maes Gwastraff i £851k. Nid oedd costau ymdrin â gwastraff drwy Barc Adfer, sef cyfleuster rhanbarthol 'Troi Gwastraff yn Ynni' sydd wedi ei leoli yng Nglannau Dyfrdwy, mor uchel â'r hyn a ragwelwyd yn yr adolygiad diwethaf a derbyniwyd grant gwastraff clinigol o £123k gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi dod i rym yn Nwyfor ac yn fwy diweddar yn Arfon ond llithriad pellach yn amserlen gweithredu'r drefn newydd ym Meirionnydd, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch yn gyfrifol am £496k o'r gorwariant.

Gorwariant yn parhau ar gostau gweithredol a thrafnidiaeth, diffyg grant ac incwm ar wastraff a deunyddiau ailgylchu.

Er fod rhai camau ar yr ochr Gwastraff eisoes wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb, nodir bu oedi gyda'r gweithrediad eleni.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill - cyfuniad o gynnydd mewn incwm, gwireddu arbedion ymlaen llaw a chwtogi ar wariant wedi arwain at sefyllfa o danwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

Argymhellir fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £447k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i 2020/21 i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2020/21.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Amgylchedd	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	401	343	(58)	0	(58)	(53)
Gwasanaeth Cynllunio	286	305	19	0	19	137
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	590	354	(236)	0	(236)	(50)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,985)	(1,869)	116	0	116	(12)
Cludiant Integredig	1,566	1,537	(29)	0	(29)	(24)
	171	22	(149)	0	(149)	(86)
Cefn Gwlad a Mynediad	740	773	33	0	33	21
Gwarchod y Cyhoedd	1,741	1,726	(15)	0	(15)	(124)
Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20				70	70	0
Cyfanswm Amgylchedd	3,339	3,169	(170)	70	(100)	(105)

Amgylchedd

Rheolaeth - tanwariant cyffredinol ac arbedion ymlaen llaw yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

Gwasanaeth Cynllunio - symudiad yn y sefyllfa ers yr adolygiad diwethaf o ganlyniad i leihad yn y diffyg incwm yn dilyn derbyn ceisiadau mawr ychwanegol ym misoedd olaf y flwyddyn yn y maes Rheolaeth Datblygu. Tanwariant ar wasanaethau, cyflenwadau a chludiant hefyd yn cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y diffyg incwm.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth - darlun cymysg o ran yr incwm perthnasol, gyda'r maes Traffig a Threfniadau Statudol yn gorgyflawni incwm o gau ffyrdd, sydd yn rhan o gynlluniau arbedion yr adran dros y blynyddoedd nesaf. Ond, gostyngiad pellach yn yr incwm parcio gydag effeithiau'r coronafirws wedi cael ardrawiad ar yr incwm parcio yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn ariannol, serch ei fod yn cael ei leddfu gan swyddi gweigion, y gorwariant net yn £116k.

Cludiant Integredig - tanwariant un-tro ar gostau staff a rhagori ar incwm yn lleihau effaith y costau ychwanegol ar gytundebau bysus. Yr adran yn gwneud defnydd o gronfa a neilltuwyd i'r pwrpas tuag at y costau cynyddol. Mae'r adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac eisoes wedi comisiynu ymchwil gan y Brifysgol i adolygu'r ddarpariaeth.

Gwarchod y Cyhoedd - gwariant un-tro ar feddalwedd newydd yw'r prif reswm am ostyngiad yn y tanwariant erbyn diwedd y flwyddyn, ymddengys hefyd fod effeithiau'r coronafirws wedi effeithio'r incwm yn y meysydd Trwyddedu, Tacsis a Marchnadoedd gan nad yw'r incwm mor addawol a'r hyn a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn.

Fel rhan o'r adolygiad diwedd Awst, derbyniodd yr Adran Amgylchedd gymeradwyaeth y Cabinet i neilltuo £220k o'u tanwariant eleni tuag at gostau yn dilyn adolygiad barnwrol yn ymwneud â ffordd fynedfa Llanbedr. O ystyried y sefyllfa bresennol gyda'r argyfwng Coronafirws sydd â oblygiadau ariannol sylweddol ar y Cyngor, mae'r Adran wedi cytuno ei bod yn briodol iddynt ddefnyddio cyfuniad o danwariant adrannol a darpariaeth cyfalaf nad oes ei angen mwyach i'w gyllido.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£70k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2019/20.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(475)	(498)	(23)	0	(23)	25
Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)	44	44	0	0	0	0
Uned Rheoli Risg Llifogydd	485	482	(3)	0	(3)	1
Rheolaeth Adeiladu	48	63	15	0	15	61
<u>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</u>	102	91	(11)	0	(11)	87

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - symudiad ffafriol o (£48k) ers yr adolygiad diwethaf o ganlyniad i danwariant ar gostau staff yn lleddfu'r diffyg a welwyd yn lefel yr incwm gan sefydliadau allanol, megis Cyngorau eraill a Llywodraeth Cymru.

Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) - diffyg incwm yn ystod y cyfnod o sefydlu'r uned newydd wedi cael ei leddfu gan danwariant ar gostau staff.

Rheolaeth Adeiladu - diffyg incwm yn cael ei leihau gan wariant is ar wasanaethau a chyflenwadau.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Tai ac Eiddo	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	(22)	52	74	0	74	103
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	1,062	1,313	251	0	251	160
Tai Sector Breifat	344	257	(87)	0	(87)	(69)
Eraill	212	170	(42)	0	(42)	(58)
	1,618	1,740	122	0	122	33
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	1,420	1,331	(89)	0	(89)	(107)
Gofalu, Arlwy a Glanhau	24	0	(24)	0	(24)	1
	1,444	1,331	(113)	0	(113)	(106)
Cyfanswm Tai ac Eiddo	3,040	3,123	83	0	83	30

Tud. 62

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - Cynllun Arbedion sydd eto i'w wireddu sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant. Mae'r Adran yn edrych ar gynllun amgen i ddisodli'r cynllun presennol.

Gwasanaethau Tai - pwysau ar y gyllideb Llety Dros Dro, Digartrefedd o ganlyniad i gyfuniad o gynnydd mewn pris ac arhosiad hirach, mae bidiau digonol wedi eu cymeradwyo i gyfarch hyn yn 2020/21. Tai Sector Breifat yn rhagori ar incwm a Thai Eraill yn tanwario ar gostau staff, felly yn cynorthwyo i leddfu'r gorwariant a adroddir ar gyfer y Gwasanaeth Tai.

Gwasanaethau Eiddo - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adrannau Canolog	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,632	1,582	(50)	0	(50)	(77)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,095	6,025	(70)	0	(70)	(75)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,651	7,551	(100)	0	(100)	(96)
Cyfanswm Adrannau Canolog	15,378	15,158	(220)	0	(220)	(248)

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - gostyngaid yn y tanwariant a adroddir gan fod cyfran o danwariant swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cael ei ddargyfeirio i gyllido gwell darpariaeth lles yn swyddfeydd y Cyngor. Derbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol ond yn cael ei leihau o ganlyniad i gostau staffio uwch.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd trosiant staff, secondiadau, a derbyniad incwm a grantiau ychwanegol mewn nifer o feysydd. Incwm ychwanegol o wahanol ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru am y maes gweinyddu rhyddhad trethi annomestig a grant ychwanegol cyfnod trosiannol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn y maes Budd-daliadau. Ymhellach, mae'r adran wedi llwyddo i gyflawni arbedion ymlaen llaw eleni ac wedi eu dargyfeirio i bwrpas Corfforaethol.

Cefnogaeth Gorfforaethol - y tanwariant yn bennaf ar dderbyniad incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb mewn nifer o feysydd ar draws yr adran, gan gynnwys Cyfieithu, Cofrestru a'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol. Swyddi gwag a secondiadau hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol, mewn paratoad ar gyfer arbedion y blynyddoedd nesaf, gan nad oes galwad ar yr arbedion eleni mae'r adran eisoes wedi trosglwyddo rhan o'i arbedion ymlaen llaw i bwrpas Corfforaethol.

CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CYFRIFON TERFYNOL						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb 2019/20	Sefyllfa Terfynol 2019/20	Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2019
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor	*	*	(495)		(495)	0
Premiwm Treth Cyngor	*	*	0		0	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(183)		(183)	0
Eraill	*	*	(334)		(334)	0
Addasiad Cau Cyfrifon 2019/20				1,012	1,012	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	(1,012)	1,012	0	0

Corfforaethol

Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor - sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol ar Dreth Cyngor, serch fod Swyddfa'r Prisiwr eisoes wedi caniatáu trosglwyddo 397 eiddo o'r rhestr Treth Cyngor i Drethi Annomestig yn ystod 2019/20 (453 yn 2018/19, 282 yn 2017/18, a 199 yn 2016/17). Yn ystod y flwyddyn £2.9m o Bremiwm Treth Cyngor wedi ei gasglu a'i neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

Gostyngiadau Treth Cyngor - tanwariant o (£183k) gan fod niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth Cyngor (Budd-daliadau) yn gyffredinol ar ei lefel isaf am y bedwaredd blynedd yn olynol ar hyd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn 2019/20, ond gwelwyd cynnydd yn gynnar yn 2020/21 yn deillio o'r argyfwng Covid-19.

Eraill - y pwysau ar draws nifer sylweddol o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd ac felly'n tanwario.

Argymhellir y dylid cynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2019/20 gan ei gyllido o'r ffynonellau canlynol:

- tanwariant net o (£1,012k) ar gyllidebau Corfforaethol
- tanwariant o (£70k) gan yr Adran Amgylchedd, sydd uwchlaw y trothwy tanwariant o (£100k) sydd yn cael ei ganiatau i'r Adrannau.
- defnydd o'r (£825,044) o'r ymarferiad cynaeafu cronfeydd a darpariaethau a fanylir yn **Atodiad 3**
- y gweddill sydd ar ôl i'w gyllido sef (£1,799k) yn cael ei ryddhau o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.

Adnoddau wedi'u Cynaeafu o Adolygu Cronfeydd a Darpariaethau

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol o'r cronfeydd a darpariaethau isod:

Cronfa	Swm i'w ryddhau £
Tanwariant Cefnogaeth Gorfforaethol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	60,842
Tanwariant yr Adran Cyllid (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	58,984
Prosiectau Hanesyddol Amrywiol Gorffenedig	308,464
Amrywiol Gronfeydd ar Gyfer Systemau Gorffenedig	151,184
Gofynion Maes Diwygio Lles (dim ymrwymiad ar ei gyfer)	121,570
Rheoli Risg (dim ymrwymiad ar ei gyfer)	100,000
Cyfanswm	801,044

Darpariaeth	Swm i'w ryddhau £
Hawliadau Trydydd Parti (wedi cwblhau)	24,000
Cyfanswm	24,000

gan eu defnyddio i:

Cronfeydd a Darpariaeth a gynaeafwyd	Swm £
Cyllido gorwariant Adrannau sydd yn gorwario yn 2019/20	825,044
Cyfanswm	825,044

Eitem 7

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	30 GORFFENNAF 2020
TEITL:	DATGANIAD O GYFRIFON 2019/20
PWRPAS / ARGYMHELLIAD:	DERBYN Y DATGANIAD O GYFRIFON STATUDOL (DRAFFT CYN ARCHWILIAD) ER GWYBODAETH
AWDUR:	DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD IOAN THOMAS

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.
- 1.2 Y Datganiad o Gyfrifon drafft ar ei ffurf safonol yw'r ddogfen ddilynol, 91 tudalen o hyd mewn un iaith. Mae linc i'r Datganiad eisoes wedi'i anfon at holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor ar 5 Mehefin 2020.
- 1.3 Roedd bwriad eleni i'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 30 Gorffennaf 2020, ond mae'r trefniadau cloi yn sgil Covid-19 wedi achosi oediad trwy Gymru gyda hawliau'r etholwyr i archwilio'r cyfrifon, ac felly, mae cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bellach i'w gynnal 14 Medi 2020.
- 1.4 Mae'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wrthi'n cael eu harchwilio, felly efallai bydd angen rhai newidiadau iddynt cyn cyflwynir y fersiwn derfynol er cymeradwyaeth yng nghyfarfod 14 Medi 2020 o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 1.5 Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae nifer o ofynion o dan y SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) sydd yn seiliedig ar God Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2019/20. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau yn dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w ddeall.
- 1.6 Cyflwynwyd adroddiad "alldro" syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2019/20 i gyfarfod y Cabinet ar 16 Mehefin 2020. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL

- 2.1 Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor, a cyn 2009/10 bu'r pwyllgor yn cymeradwyo'r datganiad drafft (amodol ar archwiliad) o'r cyfrifon. Fodd bynnag, yn dilyn addasiadau 2010 i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, rhoddwyd y cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft cyn y dyddiad statudol (15 Mehefin ar gyfer cyfrifon 2019/20) i'r Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yn Cyngor Gwynedd).
- 2.2 Erbyn hyn, nid oes raid i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor, ond fel "arfer dda" y'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ER GWYBODAETH.
- 2.3 Diau y bydd aelodau'r pwyllgor awydd ystyried a deall y cynnwys rwan, fel paratoad ar gyfer cymeradwyo'r fersiwn terfynol ym Medi, ac i arfogi eu hunain gyda'r wybodaeth ar gyfer ystyried risgiau perthnasol a materion eraill a archwilir yn eu cyd-destun.

3. CAMAU DILYNOL

- 3.1 Ymhellach i ardystiad gan y Pennaeth Cyllid ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mae Datganiad o Gyfrifon 2019/20, ynghyd â phob datganiad perthnasol arall, yn destun y broses archwilio blynyddol gan gwmni Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a gafodd eu apwyntio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 3.2 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, mae'r Cyngor wedi hysbysu'r cyhoedd ar wefan y Cyngor, y bydd y cyfrifon ar gael i'w harolygu am gyfnod o 20 diwrnod, yn dechrau ar 3 Awst 2020. Fel rhan o'r broses archwilio, mae gan etholwyr llywodraeth leol gyfle i holi'r archwiliwr allanol ynghylch cyfrifon y Cyngor.
- 3.3 Fel nodwyd ym mharagraff 1.4 (uchod), cyflwynir y fersiwn terfynol (wedi'i archwilio) o Ddatganiad o Gyfrifon 2019/20 y Cyngor i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 14 Medi 2020 AM GYMERADWYAETH, ynghyd ag adroddiad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 3.4 Wedi hynny, bwriad yr Adran Cyllid yw i ddarparu linc i'r Datganiad terfynol i holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor, yn ogystal ag eraill sydd â diddordeb.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2019/20.

Cyngor Gwynedd

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2019/20

Amodol ar Archwiliad

Adran Cyllid
www.gwynedd.llyw.cymru



MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 - 7
Datganiad Cyfrifoldebau	8
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	9
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	10
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	11
Y Fantolen	12
Datganiad Llif Arian	13
Nodiadau i'r Cyfrifon	14 – 87
Atodiad A – Y Gronfa Degwm	88
Atodiad B – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan	89
Geirfa	90 - 91

ADRODDIAD NARATIF

Rhagarweiniad

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2019/20 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 9 i 91.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a trethi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw'r Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dangosir y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2020.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2019/20 at ddibenion refeniw a chyfalaf.
- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Gweledigaeth a Blaenoriaethau Gwynedd

Mae gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor wedi eu cynnwys yng Nghynllun Cyngor Gwynedd cafodd ei adolygu ym mis Mawrth 2020. Mae'r Cynllun yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor, sef, gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn :-

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel,
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud,
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'n teuluoedd,
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau,
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg,
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl,
- Cael manteisio ar harddwch naturiol y Sir.

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r uchod fel ein Amcanion Llesiant.

Mae yna sawl elfen i Gynllun y Cyngor, gan gynnwys Cynllun Cryno sy'n amlinellu ein Blaenoriaethau Gwella ac ein saith Amcan Llesiant, a Chynlluniau Adrannau sy'n disgrifio holl waith dydd i ddydd y Cyngor. Mae'r cynllun ar gael yn:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%3%afau/Cynlluniau-corrforaethol-a-strategaethau/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-23.aspx>

Ar ddiwedd Mawrth 2020 gwelwyd argyfwng COVID-19 sydd wedi cael effeithiau pellgyrhaeddol. O ran Cyngor Gwynedd, mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar y gweithgareddau isod:

- Darparu gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol,
- Cefnogi plant a phobl fregus,
- Casglu sbwriel o dai,
- Chwarae ein rhan i gefnogi busnesau,
- Unrhyw beth arall sy'n diogelu neu achub bywydau.

Yn ogystal, yn unol ag arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn trefnu ail agor ei wasanaethau'n ofalus.

Strategaeth Ariannol

Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor a Chyllideb 2019/20 a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru cyflawni'r blaenoriaethau gwella, tra'n ceisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynol ar y blaenoriaethau. Mae'r strategaeth ar gael yn:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cyllid/Strategaeth-ariannol.aspx>

Sefydli'r y gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig, er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig. Mae'r cynllunio tymor canolig hyn wedi talu ar ei ganfed i'r Cyngor, gan ei alluogi i gynllunio arbedion angenrheidiol yn rhesymegol, heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog/amhriodol o ran y buddion i'r dinasyddion, ac wedi sefydlu cyfundrefn ar gyfer adnabod arbedion a thoriadau cyllidol.

Mae'r toriadau yn yr arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn golygu fod angen i ni ddygymod efo derbyn llai o arian i gynnal ein gwasanaethau. Serch hynny, rydym wedi bod yn lled lwyddiannus yn cadw'r effaith ar drigolion Gwynedd i'r lleiafswm posibl, ond bellach mae'r toriadau wedi cychwyn brathu. Nid oes unrhyw argoel fod y toriadau parhaus yn y cyllid a gawn gan Lywodraeth Cymru i dalu am y gwasanaethau allweddol yr ydym yn eu darparu yn dod i ben yn y dyfodol agos; byddwn felly yn parhau efo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion hynny sydd wedi eu cymeradwyo eisoes a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer darganfod arbedion y dyfodol.

Bydd newidiadau yn sgil pandemig COVID-19 hefyd yn effeithio ar sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyngor. Mae'r Cyngor fel cynghorau eraill Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi gyda'r sefyllfa gorau y gellir, gyda'r Cyngor wedi prosesu grantiau Cefnogi Busnes sylweddol o ran gwerth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod arian ychwanegol ar gael i gwrdd â rhai costau yn deillio o effaith Covid-19, gyda'r rhagolygon o ran digolledu incwm yn fwy addawol erbyn hyn.

Tybir na fydd effaith cyfredol y pandemig yn effeithio'n sylweddol ar werth asedau ac ymrwymadau'r Cyngor. Mi fydd angen adolygu'r dybiaeth yn rheolaidd.

Mesur Perfformiad

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn gylch sy'n cefnogi cynllunio, rheoli ac adrodd ar berfformiad ein gwasanaethau, er mwyn sicrhau y gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd yn adrodd ar ein llwyddiant i gyflawni ein blaenoriaethau gwella ac hefyd darparu gwybodaeth ar berfformiad adrannau'r Cyngor a sut maent yn cynorthwyo pobl Gwynedd. Mae'r adroddiad ar gael ar:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Perfformiad-y-Cyngor/Mesur-Perfformiad.aspx>

Perfformiad Ariannol 2019/20

- Er gwaethaf gofynion parhaus i gyflawni arbedion heriol, mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2019/20 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol. Adroddir ar sefyllfa alldro ariannol 2019/20 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2020. Gofynnir i'r aelodau Cabinet gymeradwyo cario drosodd tanwariant net gwasanaethau o £77k am y flwyddyn.
- Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20, roedd dros hanner o'r adrannau a nifer o benawdau corfforaethol wedi medru cadw o fewn eu cyllidebau, bu gwelliant yn sefyllfa ariannol yr Adrannau Addysg, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth ac Oedolion Tueddi wedi y flwyddyn. Ond bu cynnydd yn nhueddiad

gorwariant gan yr Adran Plant a Theuluoedd.

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 10 fod gwariant reffeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £404m yn ystod 2019/20, gyda'r sefyllfa net yn £267m.
- Bu i sefyllfa ariannol 2019/20 gael ei chymryd i ystyriaeth yn y broses o sefydlu cyllideb 2020/21.

TABL I - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae cyllideb net y Cyngor yn cael ei gyllido gan dreth y cyngor, grantiau cyffredinol y llywodraeth a threthi annomestig cenedlaethol yn bennaf ac yn £265m ar gyfer 2019/20.

Mae Tabl I yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb	Gwir	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000
Gwariant Net ar Weithgareddau	265,420	265,336	(84)
Swm Adrannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn	0	77	77
	265,420	265,413	(7)
Ariannwyd gan -			
Incwm y Dreth Cyngor	(88,869)	(89,364)	(495)
Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol	(40,502)	(40,502)	0
Grantiau Llywodraeth Cyffredinol	(136,049)	(136,049)	0
Cyfraniad i Falans y Gronfa Gyffredinol	0	502	502
	0	0	0

- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 10 a 11 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 2 - Symudiad Trawsddodiad rhwng 'Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant sydd yn adlewyrchu'r Strwythur Rheolaethol Adrannol.

Adran	Adroddiad Perfformiad (Alldro)	Addasiad Trawsddodiad	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo	Datganiad Incwm a Gwariant
	£'000				
Addysg	85,757	(445)	85,312	0	85,312
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,551	(63)	7,488	0	7,488
Cyllid	6,025	85	6,110	0	6,110
Economi a Chymuned	4,294	(213)	4,081	0	4,081
Oedolion, Iechyd a Llesiant	51,326	182	51,508	(65)	51,443
Plant a Chefnogi Teuluoedd	18,053	(85)	17,968	0	17,968
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	24,980	(488)	24,492	0	24,492
Amgylchedd	3,160	534	3,694	0	3,694
Tai ac Eiddo	3,223	(19)	3,204	0	3,204
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,641	11	1,652	0	1,652
Ymgynghoriaeth Gwynedd	90	(24)	66	0	66
Corfforaethol	66,357	(51,876)	14,481	46,542	61,023
Cost Gwasanaethau	272,457	(52,401)	220,056	46,477	266,533
Eraill (Yn cynnwys Addasiad Canolog a Chorfforaethol)	(7,044)	52,401	45,357	(46,477)	(1,120)
Cyfanswm	265,413	0	265,413	0	265,413

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.

• Eitemau Materol o Incwm a Gwariant

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £92m yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r asedau buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23).
- Yn dilyn ailbrizio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net o £4m ar ailbrizio asedau eiddo, offer a chyfarpar (Nodyn 15 a 23).

• Materion Eraill

- Mae risgiau ariannol gyda sefyllfa byd-eang. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, bu'n angenrheidiol i'r Awdurdod gymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan hefyd gadw lefel darbodus o reserfau.
- Ers y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, bu cryn ansicrwydd economaidd. Disgwylir i hyn barhau am gyfnod a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan yr Awdurdod.
- Mae dyfodiad yr argyfwng COVID-19 yn her ariannol pellach i'r Cyngor yn y tymor byr a chanolig.

Gwariant Cyfalaf yn 2019/20

Yn 2019/20 gwariodd y Cyngor £29.1m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â'r modd y cafodd ei ariannu.

TABL 3 - CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU

2018/19 £'000		2019/20 £'000
3,481	Addysg	8,757
1,399	Amgylchedd	1,926
6	Cefnogaeth Gorfforaethol	0
1,049	Cyllid	926
656	Economi a Chymuned	1,037
780	Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,926
93	Plant a Chefnogi Teuluoedd	303
6,971	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	8,229
6,993	Tai ac Eiddo	5,328
1,380	Ymgynghoriaeth Gwynedd	637
22,808		29,069
	ARIANNWYD GAN -	
7,918	Benthyciadau	5,979
10,538	Grantiau a Chyfraniadau	20,083
162	Derbyniadau Cyfalaf	423
4,190	Refeniw a Chronfeydd Eraill	2,584
22,808		29,069

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £4.9m yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm gwariant ar Asedau Anghyfredol ac Asedau ar Gael i'w Gwerthu oedd £26.2m fel y dangosir yn Nodyn 15 a 20.
- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2020 yn £125.5m – cynnydd o £16.8m (o £108.7m) yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd ad-daliadau o £2.2m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol heb ei glustnodi o £7.6m, roedd gan y Cyngor ddarpariaethau o £8.2m, reserfau eraill a glustnodwyd o £59.2m a balansau ysgolion o £4.3m. Cyfanswm y rhain oedd £79.3m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 22.

Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol a darpariaethau'r Cyngor gan y Pennaeth Cyllid wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd. Llwyddodd yr adolygiad i gynaeafu £825k o adnoddau, gan argymhell i'r Cabinet (yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2020) i'w ddefnyddio i gynorthwyo i gyllido'r sefyllfa gorwariant gan yr adrannau.

Hefyd gofynnwyd am gefnogaeth y Cabinet, i drosglwyddo £1.799m o'r gronfa strategaeth ariannol i gyllido'r bwloch, ac felly osgoi gwneud defnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2019/20.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyngor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyngor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi gostwng £61m i £238m yn 2019/20. Gweler Nodyn 38 am wybodaeth bellach.

Tud. 74

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal ar 31 Mawrth 2019, gyda'r nesaf i'w gynnal 31 Mawrth 2022.

Llywodraethu

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

Polisiau Cyfrifo

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Còd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20.

Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Mae polisiau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Sian Pugh
Prif Gyfrifydd
01286 679134

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

CYNGOR GWYNEDD

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYNGOR

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyngor hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2020, ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

3 Mehefin 2020

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu i bwrpas gwneud penderfyniadau rhwng adrannau y Cyngor. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU						
2018/19				2019/20		
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 9) £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr £'000		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 9) £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr £'000
83,432	0	83,432	Addysg	85,312	0	85,312
7,801	0	7,801	Cefnogaeth Gorfforaethol	7,488	0	7,488
5,915	0	5,915	Cyllid	6,110	0	6,110
4,273	0	4,273	Economi a Chymuned	4,081	0	4,081
49,406	(63)	49,343	Oedolion, Iechyd a Llesiant	51,508	(65)	51,443
15,792	0	15,792	Plant a Chefnogi Teuluoedd	17,968	0	17,968
24,309	0	24,309	Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	24,492	0	24,492
1,488	0	1,488	Amgylchedd	3,694	0	3,694
3,210	0	3,210	Tai ac Eiddo	3,204	0	3,204
1,686	0	1,686	Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,652	0	1,652
432	0	432	Ymgynghoriaeth Gwynedd	66	0	66
9,297	35,901	45,198	Corfforaethol	14,481	46,542	61,023
207,041	35,838	242,879	Cost Gwasanaethau	220,056	46,477	266,533
22,578	174	22,752	Gwariant Gweithredol Arall	24,083	(171)	23,912
17,502	(5,262)	12,240	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	15,572	(2,440)	13,132
(259,617)	(13,581)	(273,198)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(265,916)	(18,252)	(284,168)
(12,496)	17,169	4,673	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(6,205)	25,614	19,409
(52,389)			Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol	(64,885)		
(12,496)			(Gwarged)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	(6,205)		
(64,885)			Balans Cau y Gronfa Gyffredinol	(71,090)		

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu ac yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

2018/19			Nodyn	2019/20		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
105,225	(21,793)	83,432	Addysg	109,034	(23,722)	85,312
9,339	(1,538)	7,801	Cefnogaeth Gorfforaethol	8,963	(1,475)	7,488
8,298	(2,383)	5,915	Cyllid	8,644	(2,534)	6,110
12,787	(8,514)	4,273	Economi a Chymuned	9,522	(5,441)	4,081
73,083	(23,740)	49,343	Oedolion, Iechyd a Llesiant	78,797	(27,354)	51,443
25,835	(10,043)	15,792	Plant a Chefnogi Teuluoedd	30,734	(12,766)	17,968
41,701	(17,392)	24,309	Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	41,400	(16,908)	24,492
9,835	(8,347)	1,488	Amgylchedd	11,763	(8,069)	3,694
4,933	(1,723)	3,210	Tai ac Eiddo	5,910	(2,706)	3,204
2,342	(656)	1,686	Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,539	(887)	1,652
5,862	(5,430)	432	Ymgynghoriaeth Gwynedd	5,468	(5,402)	66
78,289	(33,091)	45,198	Corfforaethol	91,352	(30,329)	61,023
377,529	(134,650)	242,879	Cost Gwasanaethau	404,126	(137,593)	266,533
22,752	0	22,752	Gwariant Gweithredol Arall	24,083	(171)	23,912
12,547	(307)	12,240	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	13,677	(545)	13,132
0	(273,198)	(273,198)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	(284,168)	(284,168)
412,828	(408,155)	4,673	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	441,886	(422,477)	19,409
		(10,326)	(Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbriso Asedau Sefydlog	23.1		(4,371)
		448	(Gwarged)/Diffyg yn deillio o Ailbriso Offerynnau Ariannol	23.3		1,293
		0	(Gweddill)/Diffyg yn deillio o Ailbriso Offerynnau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	23.3		(171)
		48,870	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau)	23.5		(91,705)
		38,992	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			(94,954)
		43,665	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			(75,545)

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Awdurdod yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm godir ar y dreth cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

		<i>Gwybodaeth ychwanegol</i>			Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau						
	Nodyn	<i>Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi</i>	<i>Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd</i>	<i>Cyfanswm Balansau Ysgolion</i>	<i>Balans Cronfa Gyffredinol</i>		<i>Reserf Derbyniadau Cyfalaf</i>	<i>Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio</i>	<i>Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy</i>	<i>Reserfau na ellir eu defnyddio</i>	<i>Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod</i>
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans 31 Mawrth 2018 a ddygwyd ymlaen		(5,895)	(42,476)	(4,018)	(52,389)	(1,729)	(2,102)	(56,220)	(32,646)	(88,866)	
Trawsnewid i SAARh 9 a SAARh15	17	4	0	0	4	0	0	4	0	4	
<i>Symudiad mewn reserfau yn 2018/19</i>		-									
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		4,669	0	0	4,669	0	0	4,669	38,992	43,661	
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	9	(17,169)	0	0	(17,169)	(411)	(3,918)	(21,498)	21,498	0	
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2018/19		(12,496)	0	0	(12,496)	(411)	(3,918)	(16,825)	60,490	43,665	
<i>Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd</i>	10	11,321	(11,339)	18	0	0	0	0	0	0	
<i>(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2018/19 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)</i>		(1,175)	(11,339)	18	(12,496)	(411)	(3,918)	(16,825)	60,490	43,665	
Balans 31 Mawrth 2019 a ddygwyd ymlaen		(7,070)	(53,815)	(4,000)	(64,885)	(2,140)	(6,020)	(73,045)	27,844	(45,201)	
<i>Symudiad mewn reserfau yn 2019/20</i>		-									
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		19,409	0	0	19,409	0	0	19,409	(94,954)	(75,545)	
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	9	(25,614)	0	0	(25,614)	(71)	1,295	(24,390)	24,390	0	
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2019/20		(6,205)	0	0	(6,205)	(71)	1,295	(4,981)	(70,564)	(75,545)	
<i>Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd</i>	10	5,703	(5,370)	(333)	0	0	0	0	0	0	
<i>(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2019/20 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)</i>		(502)	(5,370)	(333)	(6,205)	(71)	1,295	(4,981)	(70,564)	(75,545)	
Balans 31 Mawrth 2020 a ddygwyd ymlaen		(7,572)	(59,185)	(4,333)	(71,090)	(2,211)	(4,725)	(78,026)	(42,720)	(120,746)	

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan yr Awdurdod. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbriso), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2019 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2020 £'000
450,548	Eiddo, Offer a Chyfarpar	15	461,634
60	Asedau Treftadaeth		60
705	Eiddo Buddsoddi	16	165
2,225	Asedau Gweddilliol	15	1,960
17	Buddsoddiadau Tymor Hir	17	17
4,139	Dyledwyr Tymor Hir	17	3,948
457,694	Asedau Tymor Hir		467,784
19,567	Buddsoddiadau Tymor Byr	17	11,259
73	Asedau ar gael i'w Gwerthu	20	73
1,251	Stoc		1,367
55,834	Dyledwyr Tymor Byr	18	76,415
14,686	Arian a Chyfwertioedd Arian	19	14,900
91,411	Asedau Cyfredol		104,014
(30,573)	Gorddrafft Banc	19	(22,338)
(2,770)	Benthyciadau Tymor Byr	17	(21,112)
(53,280)	Credydwyr Tymor Byr	21	(53,149)
(278)	Darpariaethau Tymor Byr	22	(304)
(1,618)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw	32	(1,443)
(88,519)	Ymrwymiadau Cyfredol		(98,346)
(7,685)	Darpariaethau Tymor Hir	22	(7,850)
(105,924)	Benthyciadau Tymor Hir	17	(104,346)
(298,514)	Ymrwymiad Pensiwn	38	(237,519)
(1,700)	Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol	35	(1,540)
(1,562)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw	32	(1,451)
(415,385)	Ymrwymiadau Tymor Hir		(352,706)
45,201	Asedau Net		120,746
(73,045)	Reserfau Defnyddiadwy		(78,026)
27,844	Reserfau na ellir eu defnyddio	23	(42,720)
(45,201)	Cyfanswm Reserfau		(120,746)

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian a chyferthoedd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyferthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o Weithgareddau Ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol.

2018/19 £'000		Nodyn	2019/20 £'000
4,673	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau		19,409
(40,347)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	24a	(34,088)
699	Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu	24b	548
(34,975)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		(14,131)
7,604	Gweithgareddau Buddsoddi	25	22,295
10,123	Gweithgareddau Ariannu	26	(16,613)
(17,248)	(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyferthoedd arian		(8,449)
33,135	Arian a chyferthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	19	15,887
15,887	Arian a chyferthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd	19	7,438

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I - POLISIÂU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol 2019/20 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2020. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud a chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y referniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnwyd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwllch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau a'r llog sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol yn hytrach nag i'r llif arian sydd wedi ei bennu gan y cytundeb.
- Ble mae referniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y Cyfrif referniw am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

I.3 Arian a Chyferthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, a gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categorio fel cyferthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chyferthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y Fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

I.4 Asedau Dibynnol / Ymrwymadau Dibynnol

Ceir ased dibynnol pan fo digwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Awdurdod ble bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

NODYN I - POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

Nid yw asedau ac ymrwymadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach o fewn y nodyn Ymrwymadau Dibynnol ac Asedau Dibynnol yn y cyfrifon.

1.5 Corfforaethol

Mae'r pennawd Corfforaethol yn cynnwys eitemau yn ymwneud â ffurfio polisiau corfforaethol a gweithgareddau aelodau, a chostau sydd yn gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod.

1.6 Buddiannau Gweithwyr

1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn gwasanaethu'r Awdurdod. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y cronriad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronriad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, i'r llinell Gwasanaethau Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all yr Awdurdod dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Awdurdod yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi'r debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymadau'r buddion hynny yn cael eu hadnabod i'r Awdurdod. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen. Mae'r llinellau Addysg a Plant a Chefnogi Teuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion Tud. 83

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.3% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynnwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg Perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh 19.

1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.9 Offerynnau Ariannol

Ymrwymadau Ariannol

Cydnabyddir ymrwymadau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Mae'r llog taladwy blynyddol sydd yn cael ei gynnwys ar y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar werth cario yr ymrwymiad, wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Y chyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sydd yn disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau sydd gan yr awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sydd yn weddill (ynghyd â llog cronodig); a'r llog a gaiff ei ddatgan yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Mewn achosion lle codwyd premiymau a disgownts ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei rannu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o rannu'r enillion neu golledion dros y tymor sydd yn weddill ar y benthyciad ble'r oedd y premiwm yn daladwy neu'r gostyngiad yn dderbyniadwy pan fyddai'n cael ei ad-dalu. Mae cysoni'r swm a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r tâl net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad mewn Reserfau.

Asedau Ariannol

Dosbarthir asedau ariannol yn unol â dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r awdurdod yn dal asedau ariannol wedi eu mesur ar:

- gost amorteiddiedig, a
- gwerth teg drwy elw a cholled, a
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Mae angen polisi ar wahân ble mae Cyngor yn dal asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant arall.

Tud. 85

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Model busnes y Cyngor yw i ddal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Mae offerynnau ariannol felly yn cael eu dosbarthu fel cost amorteiddiedig, ag eithrio rheiny nad yw eu taliadau cytundebol yn daliad o brifswm a llog yn unig (h.y ble nad yw llif arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost Amorteiddiedig

Cydnabyddir asedau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd credyd blynyddol i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y llog a dderbynnir yn seiliedig ar werth cario yr ased wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau sydd gan yr awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sydd yn weddill (yn ogystal â'r llog cronedig) gyda'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Model Colled Credyd Disgwyliedig

Mae'r awdurdod yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gostau wedi'u hamorteiddio, unai ar sail 12 mis neu oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig hefyd yn gymwys i symiau derbyniadwy ar brydles ac asedau contract. Dim ond colledion oes a gydnabyddir ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a ddelir gan yr awdurdod. Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r posibilrwydd na fydd y llif arian yn digwydd yn y dyfodol o ganlyniad i'r benthyciwr yn diffyg dalu ei ymrwymiad.

Asedau Ariannol a Fesurir ar Werth Teg Drwy Incwm Cynhwysfawr Arall

Caiff asedau ariannol a fesurir ar WTICA eu cydnabod ar y fantolen pan ddaw'r awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offerynnau ariannol ac yn cael eu mesur yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion gwerth teg wrth iddynt godi mewn incwm cynhwysfawr arall.

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Werth Teg Drwy Elw a Cholled

Cydnabyddir asedau ariannol sydd wedi eu mesur ar werth teg drwy elw a cholled ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt gyrraedd y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

Mesuriad Gwerth Teg o Asedau Ariannol

Gwerth teg ased yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae mesuriad gwerth teg asedau ariannol yr awdurdod yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- Offerynnau sydd â phris marchnad wedi ei ddyfynnu – pris y farchnad
- Offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a phendant – dadansoddiad llif arian gostyngol

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi eu categorio yn unol â'r tri lefel isod;

- Mewnbwn Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif am asedau yr un fath y gall yr awdurdod gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbwn Lefel 2 – mewnbwn heblaw am brisiau a ddyfynnwyd sy'n gynwysiedig o fewn Mewnbwn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbwn Lefel 3 – mewnbwn anweladwy i'r ased.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae mesuriad ein hasedau a ddelir ar WTICA yn bris caid uned ar y dyddiad mesur.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.10 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniodol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r awdurdod wedi ei fodloni.

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Awdurdod yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o flaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.11 Asedau Treftadaeth

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddelir gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Lluniau a Phaentiadau
- Teyrndylsau Dinesig
- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Oriolau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

Defnyddiodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrndylsau dinesig a'i luniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy de minimis i ddibenion prisio Asedau Treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi 1.17.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad – gweler polisi 1.17.

1.12 Stoc a Chontractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y Fantolen ar sail yr isaf o gost a gwir werth, yn unol â darpariaethau'r Côt Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost gyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

1.13 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu. Caiff yr eiddo yma eu prisio ar sail gwerth teg. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thair lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau yr Awdurdod (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o natur unigryw yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.14 Prydlesau

Caiff prydlesau eu hystyried yn brydlesi cyllidol pan fo telerau trosglwyddiad y brydles a'r holl risgiau a buddion sy'n deillio o berchnogaeth o'r eiddo, offer neu gyfarpar yn trosglwyddo i'r prydlesai. Caiff bob prydles arall eu hystyried yn brydlesau gweithredol.

Yr Awdurdod fel Prydlesai:

Caiff symiau a ddelir dan brydlesi cyllidol eu hadnabod yn wreiddiol, ar ddechrau'r brydles, ar werth teg (neu, os yn is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles), gydag ymrwymiad cyfatebol am rwymedigaeth y brydles i'r prydleswr. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng cost ariannol (i'w gynnwys yn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a chost a roir yn erbyn ymrwymiad y brydles i'w leihau. Caiff yr ased perthnasol ei drin yn unol â'r polisiau arferol, a chaiff ei ddibrisio fel sy'n briodol.

Caiff taliadau prydlesau gweithredol eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaeth perthnasol ar sail dibrisiad llinol dros gyfnod y brydles.

Yr Awdurdod fel Prydleswr:

Ble mae'r Awdurdod yn caniatáu prydles gyllidol ar eiddo, mae'r ased perthnasol yn cael ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad, sydd i'w gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw gwerth y gwarediad a ysgrifennir allan yn gost a roir yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau tymor hir yn cael eu darparu o dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae'r symiau felly yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o'r Balans Cronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles weithredol ei gydnabod ar sail linol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a chaiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

1.15 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol yr Awdurdod eu dangos ar wahân ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar werth y farchnad. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categorio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Awdurdod (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

1.16 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae rhai costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu dosrannu i'r gwasanaethau priodol yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

1.17 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fas data'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob pum mlynedd. Ers y flwyddyn ariannol 2015/16, mae'r Awdurdod wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbriso gwahanol gategoriâu o'r asedau yma yn flynyddol, gydag ailbrisiad fel arfer yn effeithiol ar 31 Mawrth pob blwyddyn. Mae hyn yn unol â'r Côd a'r Datganiadau Egyddorion Priso Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (CAD) ar gyfer eiddo arbenigol.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd.

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisiau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion priso o £20,000 ar gyfer Tir ac Adeiladau Gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer asedau megis Tir ac Adeiladau, ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Rheolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

Mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch oblygiadau tymor canolig yr effeithiau cyfredol y pandemig Covid-19 a ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Tybir na fydd hyn yn effeithio yn sylweddol ar werth asedau'r Cyngor. Bydd angen adolygu'r dybiaeth yn rheolaidd.

Amhariad a Dibrisiant

Amhariad

Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu ei asedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu hadnabod, maent yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd ailbriso ar gyfer ased o fewn y Reserf Ailbriso, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronodig).
- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbriso ar gyfer ased neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Prif elfen SCRh 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwmpas cydrannu. Trothwy ar gyfer 2019/20 yw 1% o werth yr holl adeiladau. Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de minimis ydi:

- a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianeg, ac
- b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (CAD), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol fyrrach; e.e. boeleri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianeg sydd angen eu cydrannu ar wahân.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y Fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

- (i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifedig (3–15 mlynedd)
- (ii) Dibrisir Is adeiladwaith dros 40 mlynedd
- (iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
- (iv) Ni ddibrisir Tir
- (v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd defnyddiol gweddilliol amcangyfrifedig (5–80 mlynedd)
- (vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Lleiafswm Darpariaeth Refeniw

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (LIDR) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn LIDR sydd ar gael:

- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull Gofyn Cyllido Cyfalaf
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.

LIDR yn 2019/20: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Dim-CRT) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynwyd y Datganiad LIDR i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2019/20. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad LIDR gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Defnyddiodd y Cyngor Opsiwn 1 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Roedd yr LIDR yng nghyswllt lesau a chynlluniau Menter Cyllid Preifat (MCP) a brynwyd ar y Fantolen dan y Côt Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar y SAARh yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Côt Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddsbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

1.18 Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol

Mae incwm Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol am y flwyddyn yn cael eu trin fel incwm cronedig, ac yn cael eu cynnwys ar linell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae Cyngor Gwynedd yn awdurdod bilio Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol. Mae'n casglu Treth y Cyngor ar ran ei hun ac ar ran awdurdodau eraill, ac yn casglu Trethi Annomestig fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru.

1.19 Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y gwasanaeth perthnasol. Mae'r Cyngor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.20 Reserfau (a Balansau)

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1992, mae'r Cyngor yn cynnal –

- Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn ("balansau") yr Awdurdod, sef balans gweithredol i helpu lliniaru effaith llif arian anwastad ag i'w gadw wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.
- Nifer o Reserfau Penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau arbennig, sef arian wedi'i adeiladu i gwrdd ag ymrwymadau a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o ddigonolrwydd a defnydd o reserfau penodol.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

- Mae'r Cyngor yn cymryd agwedd asesu'r risg tuag at gynnal lefelau digonol o falansau a reserfau er mwyn cwrdd ag anghenion gwario'r dyfodol. Wrth ystyried y gyllideb flynyddol a'r strategaeth ariannol tymor canol, bydd y Cyngor yn gosod allan ei fwriad ynghylch lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd, yng nghyd-destun yr holl

risgiau perthnasol. Gweler cymeradwyaeth o'r polisi llawn ar gyfer cronfeydd gan Gabinet y Cyngor ar 23 Mehefin 2015.

- Cedwir rhai reserfau eraill, sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy yr Awdurdod.

1.21 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae deddfwriaeth yn caniatáu categoraiddio peth gwariant fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw'n creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

1.22 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

1.23 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côt Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, a hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.24 Dyrannu Llog Derbyniadwy

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at 13 mis (ac eithrio buddsoddiadau mewn eiddo) a thelir y llog i'r Gronfa Gyffredinol, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau a chyd-bwyllgorau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir.

1.25 Costau Benthycia

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthycia sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Côt.

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

1.26 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Yng nghyfrifon yr Awdurdod, caiff buddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill eu hadrodd fel asedau ariannol ar gost gwreiddiol, llai unrhyw ddarpariaeth am golledion.

1.27 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w gwerthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w gwerthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth ailddosbarthu. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoraiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl mewnbynnau'r Awdurdod (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

1.28 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

gollod wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi ei gronni ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbrisió yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

1.29 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir asedau gan yr Awdurdod mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

1.30 Trefniant Consesiwn Gwasanaeth

Mae Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Menter Cyllid Preifat (MCP), yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar i ddarparu'r gwasanaeth dan gyfrifoldeb y contractwr MCP am gyfnod y cytundeb ond yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd y cyfnod heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r Awdurdod yn rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ac yn medru rheoli pwy arall sy'n medru defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r gost am ddefnydd o'r ddarpariaeth yn cael ei gytuno gyda'r Contractwr cyn gosod y cytundeb drwy broses o ddeialog cystadleuol.

1.31 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partiön sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Awdurdod fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymadau, refeniw a gwariant.

1.32 Ysgolion

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cadarnhau bod cydbwysedd rheolaeth ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (h.y. yr ysgolion hynny sy'n cael eu hadnabod yn y Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd), yn gorwedd efo'r awdurdod lleol. Mae'r Côt hefyd yn datgan bod asedau, ymrwymadau, reserfau a llif arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon yr awdurdod lleol (ac nid mewn Cyfrifon Grŵp). O ganlyniad, mae trafodion, llif arian a balansau yr ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod fel petaent yn drafodion, llif arian a balansau yr Awdurdod.

1.33 Mesuriad Gwerth Teg o Asedion An-Ariannol

Mae polisi'r Awdurdod ar fesuriad gwerth teg ased ariannol wedi ei osod allan yn nodyn 1.9. Mae'r Awdurdod hefyd yn rhoi mesuriad gwerth teg ar rai o asedau an-ariannol yr Awdurdod megis asedau gweddilliol, eiddo buddsoddi a rhai o offerynnau ariannol ar bob cyfnod adrodd. Gwerth teg yw'r pris gwerthu a dderbynnir ar gyfer yr ased mewn modd trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad y mesuriad. Mae'r mesuriad gwerth teg yn tybio bod y trefniant o werthu'r ased neu drosglwyddo'r ymrwymiad yn cymeryd lle unai:

- a. yn y brif farchnad i'r ased, neu
- b. yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad sydd fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased.

Wrth fesur gwerth teg ased neu ymrwymiad, defnyddia'r Awdurdod ragdybiaethau y byddai cyfranogwyr y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu ymrwymiad, gan gymeryd bod cyfranogwyr y farchnad yn gweithredu er eu budd economaidd mwyaf.

Wrth fesur gwerth teg ased an-ariannol, mae'r Awdurdod yn ystyried gallu cyfranogwyr y farchnad i gynhyrchu buddiannau economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn y modd gorau bosib, neu drwy ei werthu i gyfranogwr arall y farchnad fyddai'n defnyddio'r ased yn y modd gorau bosib.

Defnyddia'r Awdurdod dechnegau prisio sydd yn addas i'r amgylchiadau ac sydd â data digonol ar eu cyfer, gan uchafu'r defnydd o fewnbwn gweladwy perthnasol ac isafu'r defnydd o fewnbwn anweladwy.

Mae'r mewnbyn i'r technegau prisio sy'n berthnasol i'r asedau hynny ble mesurir neu ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer yn natganiadau ariannol yr Awdurdod yn cael eu categoreiddio yn hierarchaeth gwerth teg fel a ganlyn:

- Lefel I – prisiau a ddyfynnir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ymrwymadau unfath y gall yr Awdurdod eu cyrchu ar ddyddiad y mesuriad;

NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

- Lefel 2 – mewnbwn ar wahân i'r prisiau a ddyfynnir yn Lefel 1, sydd yn weladwy ar gyfer yr ased, unai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; neu
- Lefel 3 – mewnbwn anweladwy ar gyfer ased

I.34 Polisiâu Eraill

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisiau ar gyfer y canlynol, ond nid ydynt yn cael eu hystyried i fod yn faterol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20:

- Asedau Anniriaethol
- Trosi Arian Tramor.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisiâu cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20.

NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Mae'r eitemau canlynol wedi cael eu haddasu yn 19/20 ar gyfer y cyfnod blaenorol gan i'r adran Tai ac Eiddo newydd gael ei ffurfio, a dechrau gweithredu ym mis Medi 2019.

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

	Fel ddatganwyd yn flaenorol 2018-19			Addasiad			Ailddatgan 2018-19		
	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr £'000	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr £'000	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo £'000	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr £'000
Addysg	83,432	0	83,432	0	0	0	83,432	0	83,432
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,801	0	7,801	0	0	0	7,801	0	7,801
Cyllid	5,915	0	5,915	0	0	0	5,915	0	5,915
Economi a Chymuned	4,273	0	4,273	0	0	0	4,273	0	4,273
Gedolion, Iechyd a Llesiant	51,135	(63)	51,072	(1,729)	0	(1,729)	49,406	(63)	49,343
Plant a Chefnogi Teuluoedd	15,792	0	15,792	0	0	0	15,792	0	15,792
Pwyfyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	24,309	0	24,309	0	0	0	24,309	0	24,309
Adgyllchedd	2,969	0	2,969	(1,481)	0	(1,481)	1,488	0	1,488
Tai ac Eiddo	0	0	0	3,210	0	3,210	3,210	0	3,210
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,686	0	1,686	0	0	0	1,686	0	1,686
Ymgynghoriaeth Gwynedd	432	0	432	0	0	0	432	0	432
Corfforaethol	9,297	35,901	45,198	0	0	0	9,297	35,901	45,198
Cost Gwasanaethau	207,041	35,838	242,879	0	0	0	207,041	35,838	242,879
Gwariant Gweithredol Arall	22,578	174	22,752	0	0	0	22,578	174	22,752
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	17,502	(5,262)	12,240	0	0	0	17,502	(5,262)	12,240
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(259,617)	(13,581)	(273,198)	0	0	0	(259,617)	(13,581)	(273,198)
(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(12,496)	17,169	4,673	0	0	0	(12,496)	17,169	4,673
Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol	(52,389)			0			(52,389)		
Llai (Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	(12,496)			0			(12,496)		
Balans Cau y Gronfa Gyffredinol	(64,885)			0			(64,885)		

* Cefnffyrdd = Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Nodyn	Fel ddatganwyd yn flaenorol 2018-19			Addasiad			Ailddatgan 2018-19		
	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg	105,225	(21,793)	83,432	0	0	0	105,225	(21,793)	83,432
Cefnogaeth Gorfforaethol	9,339	(1,538)	7,801	0	0	0	9,339	(1,538)	7,801
Cyllid	8,298	(2,383)	5,915	0	0	0	8,298	(2,383)	5,915
Economi a Chymuned	12,787	(8,514)	4,273	0	0	0	12,787	(8,514)	4,273
Oedolion, Iechyd a Llesiant	75,914	(24,842)	51,072	(2,831)	1,102	(1,729)	73,083	(23,740)	49,343
Plant a Chefnogi Teuluoedd	25,835	(10,043)	15,792	0	0	0	25,835	(10,043)	15,792
Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	41,701	(17,392)	24,309	0	0	0	41,701	(17,392)	24,309
Amgylchedd	11,937	(8,968)	2,969	(2,102)	621	(1,481)	9,835	(8,347)	1,488
Tai ac Eiddo	0	0	0	4,933	(1,723)	3,210	4,933	(1,723)	3,210
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,342	(656)	1,686	0	0	0	2,342	(656)	1,686
Ymgynghoriaeth Gwynedd	5,862	(5,430)	432	0	0	0	5,862	(5,430)	432
Corfforaethol	78,289	(33,091)	45,198	0	0	0	78,289	(33,091)	45,198
Cost Gwasanaethau	377,529	(134,650)	242,879	0	0	0	377,529	(134,650)	242,879
Gwariant Gweithredol Arall	22,752	0	22,752	0	0	0	22,752	0	22,752
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	12,547	(307)	12,240	0	0	0	12,547	(307)	12,240
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	(273,198)	(273,198)	0	0	0	0	(273,198)	(273,198)
(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	412,828	(408,155)	4,673	0	0	0	412,828	(408,155)	4,673
(Gweddill)/Diffyg yn deillio o Ailbrisió Asedau Sefydlog			(10,326)			0			(10,326)
(Gweddill)/Diffyg yn deillio o Ailbrisió Offerynnau Ariannol			448			0			448
Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau)			48,870			0			48,870
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			38,992			0			38,992
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			43,665			0			43,665

*Cefnffyrdd = Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwylidig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côt 2020/21:-

Addasiadau i SCRh 28 *Buddsoddiadau mewn Endidau Cyswllt a Chyd-fentrau: Buddiannau Hirdymor mewn Partneriaethau Cyswllt a Chyd-fentrau*

Gwelliannau Blynyddol i Safonau SAARh Cylchred 2015-17.

Addasiadau i SCRh 19 *Buddiannau Gweithwyr: Newid Cynllun, Cwtogi neu Setliad.*

Mae'n ofynnol fod y Côt yn weithredol o 1 Ebrill 2020 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2019/20, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Côt Ymarfer 2020/21 gael effaith materol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

NODYN 5 – BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymadau i'w cario nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafuniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyngor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae effaith penderfyniad Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn aneglur. Mae effaith yr argyfwng COVID-19 ar ddiwedd Mawrth 2020 yn ffactor arall i'w ystyried. Er hynny, mae'r Cyngor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyngor.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis ailbriso, dibrisiant ac amhariad asedau, prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiw, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigurau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2020 yn rhai a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifeg a chysylltiedig. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn creu ansicrwydd ymysg cynhorau am eu gallu i gynnal y gwariant angenrheidiol ar gynnal a chadw. Bydd goblygiadau o hyn ar fywyd ased. Mae Tir ac Adeiladau yn cael eu hailbriso o leiaf bob pum mlynedd, ac ers 2015/16 cyflwynwyd rhaglen dreigl ailbriso. Mae angen dod i farn yn aml fel rhan o'r broses asesiad ailbriso ac amhariad. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd, a'r angen am dybiaethau ac ymateb yn briodol iddynt. Lle bo angen, bydd unrhyw

NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR (parhad)

oblygiadau tymor hir yn cael eu hymgorffori yn ein strategaeth ariannol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15.

- **Darpariaethau** - Mae nifer o ddarpariaethau gwahanol, ble mae'r sail unigol wedi cael eu hasesu yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, yn gynnwysedig yn y cyfrifon. Gweler Nodyn 22 am y manylion, gan gynnwys darpariaeth am eitemau megis Saffleoedd Gwastraff. Nid oes modd cadarnhau cywirdeb y ddarpariaeth hyd nes bod y materion wedi diweddu.
- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion disgwylidig ar asedau'r Gronfa Bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari'r Gronfa Bensiwn. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 37 a 38.
- **Amhariad Dyledion Drwg** – Mae lefel o amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon sydd yn seiliedig ar bolisi penodol. Mae lefel yr amhariad yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn gallu ymateb i unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd, ac unrhyw addasiad i ymateb i'r sefyllfa yn cael ei weithredu'n briodol yn y cyfrifon. Mae'r ffigwr amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 18a.

NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:

- £92m yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r asedau buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23.5).
- Yn dilyn ailbrisió rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net o £4m ar ailbrisió asedau eiddo, offer a chyfarpar (Nodyn 15 a 23.1).

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2019/20	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU					
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i) £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii) £'000	Gwahaniaethau Eraill (iii) £'000	Cyfanswm Addasiadau Statudol £'000	Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr						
Addysg	0	0	0	0	0	0
Cefnogaeth Gorfforaethol	0	0	0	0	0	0
Cyllid	0	0	0	0	0	0
Economi a Chymuned	0	0	0	0	0	0
Oedolion, Iechyd a Llesiant	0	0	0	0	(65)	(65)
Plant a Chefnogi Teuluoedd	0	0	0	0	0	0
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	0	0	0	0	0	0
Amgylchedd	0	0	0	0	0	0
Tai ac Eiddo	0	0	0	0	0	0
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	0	0	0	0	0	0
Ymgynghoriaeth Gwynedd	0	0	0	0	0	0
Corfforaethol	22,729	23,269	700	46,698	(156)	46,542
Cost Gwasanaethau	22,729	23,269	700	46,698	(221)	46,477
Gwariant Gweithredol Arall	(171)	0	0	(171)	0	(171)
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(10,005)	7,441	(97)	(2,661)	221	(2,440)
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(18,252)	0	0	(18,252)	0	(18,252)
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(5,699)	30,710	603	25,614	0	25,614

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

<u>2018/19</u>	<u>ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU</u>					
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i) £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii) £'000	Gwahaniaethau Eraill (iii) £'000	Cyfanswm Addasiadau Statudol £'000	Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addysg	0	0	0	0	0	0
Cefnogaeth Gorfforaethol	0	0	0	0	0	0
Cyllid	0	0	0	0	0	0
Economi a Chymuned	0	0	0	0	0	0
Oedolion, Iechyd a Llesiant	0	0	0	0	(63)	(63)
Plant a Chefnogi Teuluoedd	0	0	0	0	0	0
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	0	0	0	0	0	0
Amgylchedd	0	0	0	0	0	0
Tai ac Eiddo	0	0	0	0	0	0
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	0	0	0	0	0	0
Ymgynghoriaeth Gwynedd	0	0	0	0	0	0
Corfforaethol	19,110	16,300	516	35,926	(25)	35,901
Cost Gwasanaethau	19,110	16,300	516	35,926	(88)	35,838
Gwariant Gweithredol Arall	174	0	0	174	0	174
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(11,635)	6,363	(78)	(5,350)	88	(5,262)
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(13,581)	0	0	(13,581)	0	(13,581)
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(5,932)	22,663	438	17,169	0	17,169

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

(i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu dibrisiant, amhariad ac elw a cholledion ailbrisiad.
- **Gwariant gweithredol arall** – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad o incwm ar waredu asedau a'r symiau â ddileuwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – mae'r costau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf, h.y. darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a chyfraniadau refeniw arall yn cael eu tynnu allan o incwm a gwariant arall gan na ellir codi amdanynt o dan ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig.
- **Treth ac incwm grant amhenodol** - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano dan ymarferion cyfrifo. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i rai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu lle mae amodau wedi eu bodloni trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn cael ei chredydu gyda grantiau cyfalaf derbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu lle mae'r amodau wedi eu bodloni yn y flwyddyn.

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan yr Awdurdod fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi**, y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(iii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am Groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi**, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am breimymau a disgownt.

(iv) Addasiadau (Anstatudol) Eraill

- **Gwasanaethau** - mae'r lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol wedi'i ddiwynnu ac wedi trosglwyddo i wariant ac incwm ariannu a buddsoddi.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – wedi'i addasu i drosglwyddo lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol o wasanaethau.

NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i gwrdd â gwariant cyfalaf a referniw yn y dyfodol.

2019/20 ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserfau Defnyddiadwy			
	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Reserf Derbyniadau Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio £'000
Addasiadau i Adnoddau Refeniw				
<i>Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r referniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol</i>				
Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau)	(30,710)	0	0	30,710
Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol)	50	0	0	(50)
Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig)	(599)	0	0	599
Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	(4,305)	0	0	4,305
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(35,564)	0	0	35,564
Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf				
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(54)	(494)	0	548
Darpariaeth referniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,465	0	0	(5,465)
Darpariaeth referniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	1,954	0	0	(1,954)
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau referniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	2,585	0	0	(2,585)
Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf	9,950	(494)	0	(9,456)
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf				
Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	423	0	(423)
Defnyddio'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	0	1,295	(1,295)
Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig	0	0	0	0
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	423	1,295	(1,718)
CYFANSWM ADDASIADAU	(25,614)	(71)	1,295	24,390

2018/19
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL
ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Reserfau Defnyddiadwy

	Balans Cronfa Gyffredinol	Reserf Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau i Adnoddau Refeniw				
<i>Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol</i>				
Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau)	(22,663)	0	0	22,663
Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol)	56	0	0	(56)
Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig)	(484)	0	0	484
Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	(5,703)	0	0	5,703
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(28,794)	0	0	28,794
Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf				
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(10)	(572)	0	582
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,505	0	0	(5,505)
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	1,939	0	0	(1,939)
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	4,191	0	0	(4,191)
Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf	11,625	(572)	0	(11,053)
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf				
Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	161	0	(161)
Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	0	(3,918)	3,918
Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig	0	0	0	0
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	161	(3,918)	3,757
CYFANSWM ADDASIADAU	(17,169)	(411)	(3,918)	21,498

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD

Balansau Ysgolion

Cynrychiolai'r swm yma'r elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac sydd yn gynydd net o £333k o'i gymharu â'r balans ar 31 Mawrth 2019:

2019-20	Balans 31 Mawrth 2019 £'000	Trosglwyddiadau			Balans 31 Mawrth 2020 £'000
		rhwng cronfeydd £'000	mewn £'000	allan £'000	
Balansau Ysgolion	4,000	0	944	(611)	4,333
Cyfanswm	4,000	0	944	(611)	4,333

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

Reserfau a Glustnodwyd

Mae'r nodyn isod yn amllygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2019/20, gyda cynnydd net o £5m ers sefyllfa 31 Mawrth 2019.

2019-20	Balans	Trosglwyddiadau			Balans
		31	rhwng		
Nodyn	Mawrth	cronfeydd	mewn	allan	Mawrth
	2019				2020
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
10.1 Reserfau Adnewyddu	5,849	0	2,606	(638)	7,817
10.2 Reserfau Cyfalaf	10,740	790	611	(144)	11,997
10.3 Reserfau Yswiriant	1,990	(100)	975	(478)	2,387
10.4 Cronfa Gwasanaethau	3,835	(236)	832	(1,058)	3,373
10.5 Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu	1,279	0	0	(147)	1,132
10.6 Arbedion	3,568	0	0	(332)	3,236
10.7 Hyfforddiant Canolog	384	0	0	(164)	220
10.8 Reserfau Gwasanaethau Addysg	894	0	760	(734)	920
10.9 Reserfau Economi a Chymuned	328	0	13	(170)	171
10.10 Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol	343	0	33	0	376
10.11 Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd	185	0	0	0	185
10.12 Reserfau Amgylchedd	2,665	(612)	106	(645)	1,514
10.13 Reserfau Tai ac Eiddo	0	938	1,153	(167)	1,924
10.14 Reserfau Gofal	1,024	(141)	296	(151)	1,028
10.15 Cronfa Ffordd Gwynedd Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli	450	0	0	0	450
10.16 Carbon	635	0	0	(6)	629
10.17 Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu	10,426	(710)	217	(884)	9,049
10.18 hymrwymo Cronfa Gwasanaethau Dŵr a	605	0	221	(16)	810
10.19 Charthffosiaeth Tai	397	0	0	(69)	328
10.20 Gwarant Amgylcheddol Tai	480	0	0	0	480
10.21 Reserfau Technoleg Gwybodaeth	543	(145)	222	0	620
10.22 Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol	2,286	790	2,271	(2,691)	2,656
10.23 Cronfa Maes Lles	222	(122)	0	0	100
10.24 Trefniadau Partneriaethu	336	(32)	10	(8)	306
10.25 Cronfa Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru Ymrwymadau yn Berthnasol i'r Gronfa	336	0	161	0	497
10.26 Bensiwn	40	(262)	4,250	(3,000)	1,028
10.27 Cronfa Trosglwyddiadau Eiddo Treth Cyngor	490	0	0	0	490
10.28 Cronfa Premiwm Treth Cyngor	2,749	0	2,899	(644)	5,004
10.29 Amrywiol Reserfau Eraill	736	(158)	21	(141)	458
Cyfanswm	53,815	0	17,657	(12,287)	59,185

Nid yw sefyllfa balans terfynol reserfau a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2020 yn adlewyrchu'r lefel o ymrwymadau a wnaethpwyd yn eu herbyn. Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

- 10.1 Mae'r Reserfau Adnewyddu yn cael eu defnyddio gan adrannau amrywiol o'r Cyngor i adnewyddu cerbydau ac offer.
- 10.2 Mae'r Reserfau Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes i gynorthwyo ariannu'r Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a gofynion eraill.
- 10.3 Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserfau Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant sy'n berthnasol i'r cyn Gyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996) ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.
- 10.4 Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i adrannau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.
- 10.5 Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.
- 10.6 Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.
- 10.7 Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi gweithwyr y Cyngor.
- 10.8 Reserfau Gwasanaethau Addysg – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol cysylltiedig â gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.
- 10.9 Mae Reserfau Economi a Chymuned yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân.
- 10.10 Mae Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn bennaf yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant ac incwm anwastad (equalisation accounts) ynghyd â gofynion tebygol contractau.
- 10.11 Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd – cynhwysir symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant anwastad efo rhai meysydd gwaith ynghyd â gofynion cyflogaeth ychwanegol posib yn dilyn newidiadau i raglen waith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.
- 10.12 Reserfau Amgylchedd - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i Drafnidiaeth, cynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau cynlluniau ar wahân, ynghyd â gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol, a symiau ar gyfer sefyllfaoedd gwariant anwastad.
- 10.13 Reserfau Tai ac Eiddo – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib ynghyd â chronfeydd amrywiol ar gyfer anghenion tai ac eiddo'r Cyngor.
- 10.14 Reserfau Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib o ganlyniad i ofynion contractau.
- 10.15 Cronfa Ffordd Gwynedd - i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes, gwireddu arbedion a chynorthwyo cyflawni nod ac amcanion "Ffordd Gwynedd".
- 10.16 Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – rhannol ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd â chynhyrchu arbedion refeniw ariannol i'r Cyngor.

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

- 10.17 Cronfa Trawsfurfio / Cynllun y Cyngor – ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor ac ar gyfer newid trefniadau mewnol i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ac ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol.
- 10.18 Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo - cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.
- 10.19 Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai - swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dŵr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn tai cyngor, na fabwysiadwyd gan Dŵr Cymru.
- 10.20 Gwarant Amgylcheddol Tai - neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Adra, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud â chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn tai cyngor.
- 10.21 Reserfau Technoleg Gwybodaeth - ar gyfer ymateb i ofynion yn y maes technoleg gwybodaeth gan gynnwys cronfa adnewyddu berthnasol ac i allu ymateb i batrymau gwariant anwastad.
- 10.22 Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol - cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo a chefnogi'r strategaeth ariannol y Cyngor.
- 10.23 Cronfa Maes Lles - darpariaeth ar gyfer ymdrin â phatrymau anwastad yn y gofynion perthnasol.
- 10.24 Trefniadau Partneriaethu - yn cynnwys symiau a neilltuwyd mewn perthynas â gofynion gwahanol drefniadau partneriaethu a chydweithio.
- 10.25 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - ar gyfer gofynion ac ymrwymadau'r cynllun hybu economaidd perthnasol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- 10.26 Ymrwymadau yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn - ar gyfer gofynion ac ymrwymadau perthnasol i ddyfodol y Cynllun Pensiwn.
- 10.27 Cronfa Trosglwyddiadau Eiddo Treth Cyngor - darpariaeth gysylltiedig â'r colledion yn deillio o drosglwyddiadau eiddo o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig Cenedlaethol.
- 10.28 Cronfa Premiwm Treth Cyngor – darpariaeth yn deillio o Bremiwm Treth y Cyngor ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Dai.
- 10.29 Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymadau eraill.

NODYN 11 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

2018/19		2019/20
£'000		£'000
2,206	Praeseptau Cyngorau Cymuned	2,344
	Lefiau	
13,444	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	14,441
5,914	Awdurdod Tân Gogledd Cymru	6,227
912	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	962
102	Byrddau Draenio Lleol	109
20,372		21,739
174	(Enillion)/colledion ar waredu a dad-gydnabod asedau anghyfredol	(171)
22,752	Cyfanswm	23,912

NODYN 12 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2018/19		2019/20
£'000		£'000
6,092	Llog taladwy a thaliadau tebyg	6,010
	Llog net ar yr ymrwymadau (asedau) buddion pensiwn	
6,363	diffiniedig net	7,441
(307)	Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(546)
92	Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol	227
12,240	Cyfanswm	13,132

NODYN 13 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

2018/19		Nodyn	2019/20
£'000			£'000
(84,490)	Incwm Y Dreth Cyngor	13a	(89,364)
(40,191)	Trethi Annomestig	13b	(40,502)
(134,936)	Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi	32	(136,049)
(13,581)	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf	32	(18,253)
(273,198)	Cyfanswm		(284,168)

NODYN 13a - Y DRETH CYNGOR

Mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd Sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2019/20 fel a ganlyn:-

CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2019/20			
Band	Nifer Eiddo	Lluosogydd	Nifer cyfatebol
Prisio	Cyfatebol yn	Statudol	Eiddo Band D
	dilyn gostyngiadau		
A*	6	5/9	3.19
A	7,602	6/9	5,068.14
B	13,675	7/9	10,635.77
C	10,952	8/9	9,735.36
D	9,504	1	9,504.46
E	7,688	11/9	9,396.64
F	3,828	13/9	5,528.75
G	1,227	15/9	2,044.58
H	190	18/9	380.00
I	66	21/9	154.00
			52,450.89
		Cyfanswm	52,450.89
		Sylfaen y Dreth Gyngor ar ôl lwfans colledion casglu	51,926.38

Rhoddir dadansoddiad o'r incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:-

2018/19		2019/20
£'000		£'000
(84,956)	Treth Cyngor a godwyd	(89,964)
466	Llai Cynnydd yn y lwfans amhariad ar gyfer diffyg casgliad	600
(84,490)		(89,364)

NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol ("Treth Busnes") gan y Llywodraeth ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ei gasglu a'i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o'r gronfa yma i awdurdodau lleol ar sail poblogaeth.

NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (parhad)

Mae'r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth Annomestig Genedlaethol am y flwyddyn (52.6c yn 2019/20) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20 roedd yna 8,699 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £112,887,953.

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r incwm net cronedig i'r Cyngor o'r Trethi Annomestig:-

2018/19		2019/20
£'000		£'000
(41,525)	Trethi Annomestig a godwyd	(41,974)
409	Lwfans Costau Casglu	424
501	Darpariaeth Dyledion Drwg	680
40,615	Swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol	40,870
0		0
(40,191)	Derbyniadau o'r Gronfa Genedlaethol	(40,502)
(40,191)	Incwm net o'r Trethi Annomestig	(40,502)

NODYN 14 – CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU

Mae'r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i'r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwylio, ac yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwylir i'r cyfrif adennill y costau dros raglen dreigl tair blynedd, ac mae'r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Bu colled yn 2019/20, a cholled cronedig dros gyfnod o dair blynedd.

2019/20	£'000
Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ag eithrio TAW)	(412)
Cyfanswm gwariant	434
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2019/20	22
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2018/19	24
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2017/18	20
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y tair mlynedd diwethaf	66

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Symudiadau ar Falansau Eiddo, Offer a Chyfarpar

Symudiadau yn 2019/20:

	Tir ac Adeiladau £'000	Isadeiladwaith £'000	Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000	Asedau Cymunedol £'000	Asedau Gweddilliol £'000	Asedau heb eu Cwblhau £'000	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar £'000
Gwerth							
Balans ar 1.04.19	306,537	208,377	44,231	1,144	2,263	9,615	572,167
Ychwanegiadau	7,417	7,166	6,622	4	24	4,940	26,173
Gwerthiannau	(6)	0	(1,548)	0	(330)	0	(1,884)
Trosglwyddiadau	10,893	0	0	0	275	(10,628)	540
Ailbriso - i'r Reserf Ailbriso	467	0	0	(132)	(175)	0	160
Ailbriso - i'r Gwasanaethau	(374)	0	0	(329)	(68)	0	(771)
Balans ar 31.03.20	324,934	215,543	49,305	687	1,989	3,927	596,385
Dibrisiant							
Balans ar 1.04.19	7,205	49,983	27,500	2	(1)	0	84,689
Dibrisiant yn y flwyddyn	5,834	5,585	4,223	2	9	0	15,653
Gwerthiannau	0	0	(1,477)	0	0	0	(1,477)
Trosglwyddiadau	0	0	0	0	0	0	0
Ailbriso	(3,900)	0	0	0	(5)	0	(3,905)
Balans ar 31.03.20	9,139	55,568	30,246	4	3	0	94,960
Amhariad							
Balans ar 1.04.19	34,306	63	68	229	39	0	34,705
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbriso	3,352	0	0	0	0	0	3,352
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau	3,438	0	0	0	24	0	3,462
Gwerthiannau	0	0	0	0	(30)	0	(30)
Trosglwyddiadau	0	0	0	0	0	0	0
Ailbriso	(3,519)	0	0	(132)	(7)	0	(3,658)
Balans ar 31.03.20	37,577	63	68	97	26	0	37,831
Gwerth Net 31 Mawrth 2020	278,218	159,912	18,991	586	1,960	3,927	463,594
Gwerth Net 31 Mawrth 2019	265,026	158,331	16,663	913	2,225	9,615	452,773

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Symudiadau Cymharol yn 2018/19:

	Tir ac Adeiladau £'000	Isadeiladwaith £'000	Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000	Asedau Cymunedol £'000	Asedau Gweddilliol £'000	Asedau heb eu Cwblhau £'000	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar £'000
Gwerth							
Balans ar 1.04.18	294,688	202,527	40,588	1,128	2,267	8,414	549,612
Ychwanegiadau	7,531	5,850	5,189	16	40	1,201	19,827
Gwerthiannau	(901)	0	(1,546)	0	0	0	(2,447)
Trosglwyddiadau	(576)	0	0	0	76	0	(500)
Ailbriso - i'r Reserf Ailbriso	4,270	0	0	0	(141)	0	4,129
Ailbriso - i'r Gwasanaethau	1,525	0	0	0	21	0	1,546
Balans ar 31.03.19	306,537	208,377	44,231	1,144	2,263	9,615	572,167
Dibrisiant							
Balans ar 1.04.18	6,397	44,545	25,242	0	(1)	0	76,183
Dibrisiant yn y flwyddyn	5,634	5,438	3,702	2	0	0	14,776
Gwerthiannau	(95)	0	(1,444)	0	0	0	(1,539)
Trosglwyddiadau	0	0	0	0	0	0	0
Ailbriso	(4,731)	0	0	0	0	0	(4,731)
Balans ar 31.03.19	7,205	49,983	27,500	2	(1)	0	84,689
Amhariad							
Balans ar 1.04.18	32,381	63	68	229	9	0	32,750
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbriso	3,596	0	0	0	7	0	3,603
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau	3,377	0	0	0	33	0	3,410
Gwerthiannau	(30)	0	0	0	0	0	(30)
Trosglwyddiadau	0	0	0	0	0	0	0
Ailbriso	(5,018)	0	0	0	(10)	0	(5,028)
Balans ar 31.03.19	34,306	63	68	229	39	0	34,705
Gwerth Net 31 Mawrth 2019	265,026	158,331	16,663	913	2,225	9,615	452,773
Gwerth Net 31 Mawrth 2018	255,910	157,919	15,278	899	2,259	8,414	440,679

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Reolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) y Cyngor yn unol â'r polisiau a nodwyd yn rhan 1.17 o Nodyn 1 o'r Polisiau Cyfrifo. Noder bod lefel uchel o ansicrwydd ynghylch oblygiadau tymor canolig yr effeithiau cyfredol y pandemig Covid-19 a ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Tybir na fydd hyn yn effeithio yn sylweddol ar werth asedau'r Cyngor. Bydd angen adolygu'r dybiaeth yn rheolaidd. Noder hefyd fod yr Awdurdod wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisiu gwahanol gategoriâu o'r asedau yma yn flynyddol. Gweler y nodyn hwn hefyd ar gyfer sail dibrisio'r gwahanol gategoriâu o asedau.

Defnyddir 11 ysgol sydd o dan lywodraethiant eglwysig gan yr Adran Addysg, gyda 10 o'r adeiladau heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol. Mae Ysgol Cae Top ym Mangor yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel ased y Cyngor yn ein cyfrifon, ac nid fel ysgol eglwysig. Mae statws cyfreithiol yr ased yn destun adolygiad cyfreithiol a all effeithio'r driniaeth yn y cyfrifon yn y dyfodol.

Dangosir y ffyrdd o gyllido'r asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn yr adroddiad naratif.

Ymrwymadau Cyfalaf

Roedd yr ymrwymadau o sylwedd ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn:

	Swm	Taliadau hyd yma	Balans
	£'000	£'000	£'000
Ysgol y Garnedd - estyniad ac ailwampio	8,104	4,344	3,760

NODYN 16 – EIDDO BUDDSODDI

Mae'r eitemau canlynol o incwm a chostau wedi eu cymryd i ystyriaeth yn y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2018/19	2019/20
	£'000	£'000
Incwm rhent o eiddo buddsoddi	91	7
Enillion/(colledion) net	<u>91</u>	<u>7</u>

Nid oes cyfyngiadau ar allu'r Awdurdod i adnabod gwerth ei eiddo buddsoddi, nac ychwaith ar hawl yr Awdurdod i'r incwm a'r elw sy'n deillio o'r gwerthiant. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiad cytundebol i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi na'i atgyweirio, cynnal na'i wella.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

	2018/19	2019/20
	£'000	£'000
Balans 1 Ebrill	116	705
Gwarediadau	0	0
Elw/(colled) net o addasiadau gwerth teg	89	0
<u>Trosglwyddiadau:</u>		
(i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar	500	(540)
Balans 31 Mawrth	705	165

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL

(i) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn gyfystyr ag offerynnau ariannol.

Ymrwymadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn ddyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a all gynrychioli dyletswydd gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae ymrwymadau ariannol y Cyngor nad ydynt yn ddeiliadol yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- Trefniant Consesiwn Gwasanaeth (cytundebau Menter Cyllid Preifat (MCP)) a fanylir yn Nodyn 41
- gorddrafft gyda Banc Barclays ccc
- benthyciadau tymor byr gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai
- prydlesau cyllidol a fanylir yn Nodyn 35
- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall, neu hawl i gyfnewid asedau ac ymrwymadau ariannol gyda endid arall sydd yn ffafriol i'r Cyngor. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo o fewn y tri dosbarth a ganlyn:

Cost wedi'i amorteiddio (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny) yn cynnwys:

- arian parod
- cyfrifon banc a chyfrifon adnau
- adneuron cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- benthyciadau i gwmnïoedd bach
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny yn ogystal â gwerthu'r offeryn; a buddsoddiadau ecwiti mae'r Cyngor wedi eu rhoi'n y categori hwn) yn cynnwys:

- bond cyfun, ecwiti a chronfeydd eiddo a ddelir fel buddsoddiadau strategol

Gwerth teg trwy elw a cholled (asedau ariannol eraill) yn cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd arian

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(ii) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymïadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Ymrwymïadau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020
	£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Benthycïadau ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prifswm a fenthycwyd	105,924	104,346	2,236	20,578
Llog cronedig	0	0	534	534
Cyfanswm Benthycïadau*	105,924	104,346	2,770	21,112
<i>Benthycïadau ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Gorddrafft banc	0	0	30,573	22,338
Cyfanswm Arian a Ordynnwyd	0	0	30,573	22,338
<i>Ymrwymïadau ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prydlesau Cyllidol	1,700	1,540	0	0
Cyfanswm Ymrwymïadau Tymor Hir	1,700	1,540	0	0
<i>Ymrwymïadau ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Dyledion Masnachol	0	0	31,904	33,972
Prydlesau Cyllidol	0	0	151	160
Cynhwyswyd o fewn Credydwyr**	0	0	32,055	34,132
Cyfanswm yr Ymrwymïadau Ariannol	107,624	105,886	65,398	77,582

* Mae cyfanswm y benthycïadau tymor byr yn cynnwys £1,848,000 (2019: £2,770,000) sy'n cynnwys y llog cronedig a'r ad-daliadau prifswm sy'n ddyledus o fewn 12 mis ar y benthycïadau tymor hir.

** Mae llinell credydwyr tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £19,017,000 (£21,225,000 ar 31 Mawrth 2019) o gredydwyr (Nodyn 21) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymïad ariannol.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Asedau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2019	2020	2019	2020
	£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prifswm	17	17	10,000	3,000
Llog cronedig	0	0	19	3
Lwfans colled	0	0	(4)	(4)
<i>Ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall:</i>				
Prifswm wedi'i amorteiddio	0	0	10,000	9,552
Lwfans colled	0	0	0	0
Addasiad gwerth teg	0	0	(448)	(1,292)
Cyfanswm Buddsoddiadau	17	17	19,567	11,259
<i>Ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Prifswm	0	0	5,243	5,770
Llog cronedig	0	0	3	1
Lwfans colled	0	0	0	(6)
<i>Ar werth teg drwy elw a cholled:</i>				
Gwerth teg	0	0	9,440	9,135
Cyfanswm Arian a Chyferthoedd Arian	0	0	14,686	14,900
<i>Ar gost wedi'i amorteiddio:</i>				
Derbyniadau Masnachol	4,139	3,948	12,133	16,723
Cynhwyswyd o fewn Dyledwyr*	4,139	3,948	12,133	16,723
Cyfanswm Asedau Ariannol	4,156	3,965	46,386	42,882

* Mae llinell tymor byr dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £59,692,000 (£43,701,000 ar 31 Mawrth 2019) o ddyledwyr (Nodyn 18) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol.

Benthyciadau Meddal Materol

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel "Benthyciadau Meddal".

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthycwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol holl dderbyniadau arian y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd llog y farchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Mae Côt Ymarfer 2019/20 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2019/20 fe adnabu Cyngor Gwynedd y "benthyciadau meddal" canlynol:

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

- Taliadau Gohiriedig am daliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.20 £1,834,265)
- Benthyciadau Ceir a Beiciau i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.20 £1,090,816)

Daethpwyd i benderfyniad nad yw'r ychydig o "fenthyciadau meddal" sydd gan y Cyngor yn ymofyn datgeliad ar wahân gan eu bod yn de minimis.

Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Mae'r Cyngor wedi dewis i gyfrifo am y buddsoddiadau canlynol mewn offerynnau ecwiti ar sail gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall oherwydd eu bod yn fuddsoddiad strategol tymor hir gyda'r newidiadau yn eu gwerth teg ddim yn cael ei gynnwys fel rhan o berfformiad ariannol blyneddol y Cyngor.

	Gwerth Teg		Difidendau	
	31 Mawrth	31 Mawrth	2018/19	2019/20
	2019	2020	2018/19	2019/20
	£'000	£'000	£'000	£'000
CCLA LAMIT Property Fund	4,603	4,438	17	199
Investec Diversified Income Fund	1,246	1,130	4	51
Schroder Income Maximiser Fund	2,445	1,633	38	62
Kames Diversified Monthly Income Fund	1,258	1,059	11	187
CYFANSWM	9,552	8,260	70	499

Gwrthbwysio Asedau ac Ymrwymadau Ariannol

Mae asedau ac ymrwymadau ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ble mae gan y Cyngor hawl gorfodol cyfreithiol i wrthbwysio ac yn bwriadu setlo ar sail net, neu i wireddu'r asedau a setlo'r ymrwymadau yn gydamserol. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ar Y Fantolen. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymadau ariannol eraill oedd yn destun i drefniant gorfodol neu drefniant tebyg.

	31 Mawrth 2019			31 Mawrth 2020		
	Asedau gros (ymrwym iadau)	(Ymrwymadau) asedau wedi eu gwrthbwysio	Sefyllfa net Y Fantolen	Asedau gros (ymrwym iadau)	(Ymrwymadau) asedau wedi eu gwrthbwysio	Sefyllfa net Y Fantolen
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfrifon banc mewn credyd	19,656	(19,656)	0	23,115	(23,115)	0
Cyfanswm Asedau Ariannol	19,656	(19,656)	0	23,115	(23,115)	0
Gorddrafft banc	(50,229)	19,656	(30,573)	(45,453)	23,115	(22,338)
Cyfanswm Ymrwymiad au Ariannol	(50,229)	19,656	(30,573)	(45,453)	23,115	(22,338)

Tud. 117

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

(iii) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

	Ymrwymadau Ariannol	Asedau Ariannol			2019/20 Cyfanswm	2018/19 Cyfanswm
	Cost wedi'i Amorteiddio	Cost wedi'i Amorteiddio	Wedi ethol Gwerth Teg drwy ICA	Gwerth Teg drwy Elw a Cholled		
			£'000	£'000		
Costau llog	6,010	0	0	0	6,010	6,092
Llog taladwy a ffioedd tebyg	6,010	0	0	0	6,010	6,092
Incwm llog	0	(123)	0	0	(123)	(138)
Incwm difidendau	0	0	(326)	(97)	(423)	(169)
Incwm y llog a'r buddsoddiad	0	(123)	(326)	(97)	(546)	(307)
Colled credyd disgwylidig	0	6	0	0	6	4
Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol	0	6	0	0	6	4
Effaith net ar (Gwarged)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	6,010	(117)	(326)	(97)	5,470	5,789
Enillion wrth ailbriso	0	0	0	0	0	7
Colledion wrth ailbriso	0	0	(1,292)	0	(1,292)	(455)
Effaith ar incwm cynhwysfawr arall	0	0	(1,292)	0	(1,292)	(448)
(Enillion)/colledion net y flwyddyn	6,010	(117)	(1,618)	(97)	4,178	5,341

(iv) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Mae offerynnau ariannol, ar wahân i'r rhai gyda chost wedi ei amorteiddio, wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Ar gyfer y mwyafrif o asedion, yn cynnwys cronfeydd eiddo a chyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnadoedd arian, mae'r gwerth teg yn deillio o bris y farchnad.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae offerynnau ariannol, ar wahân i'r rhai gyda chost wedi ei amorteiddio, wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Ar gyfer y mwyafrif o asedion, yn cynnwys cronfeydd eiddo a chyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnadoedd arian, mae'r gwerth teg yn deillio o bris y farchnad.

Mae offerynnau ariannol gyda chost wedi ei amorteiddio wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail cost wedi'i amorteiddio. Amcangyfrifir eu gwerth teg trwy gyfrifo'r gwerth net presennol o'r llifau arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2020, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau'r Cyngor wedi eu prasio trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol dros fywyd yr offeryn ar gyfradd y farchnad sydd yn addas i fenthyciadau awdurdodau lleol.
- Mae gwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi eu disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb sydd â chyfnod ad-dalu cyffelyb yn weddill ar 31 Mawrth.
- Mae gwerth teg gwarantau ariannol wedi eu amcanu yn seiliedig ar y tebygolrwydd y caiff y gwarantau eu galw a'r taliadau tebygol.
- Mae gwerth teg asedau ac ymrwymadau pryddlesau cyllidol ac ymrwymadau Menter Cyllid Preifat (MCP) wedi eu cyfrifo trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol (ag eithrio'r elfen tâl am wasanaeth) ar gynnyrch priodol bondiau corfforaethol o radd AA.
- Ni chydabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau ar gyfer offerynnau ariannol.
- Rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion a derbyniadau masnachol, yn cyfateb yn agos i'r swm cario, o ystyried y sefyllfa llog isel a sefydlog sydd ohoni.

Dengys y gwerthoedd teg yn y tabl isod, wedi eu rhannu yn unol â'u lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – gwerth teg sydd yn deillio o brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol am asedau neu ymrwymadau yr un fath, e.e. prisiau bondiau.
- Lefel 2 – gwerth teg sydd wedi ei gyfrifo yn seiliedig ar fewnbynau yn hytrach na prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer yr ased neu ymrwymiad, e.e. cyfraddau llog neu gynnyrch am offerynnau tebyg.
- Lefel 3 – gwerth teg sydd wedi'i bennu trwy ddefnyddio mewnbynau na ellir eu harsylwi, e.e. data nad yw'n y farchnad fel rhagolwg llif arian neu amcan teilyngdod credyd.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

	Lefel	Mantolen	Gwerth Teg	Mantolen	Gwerth Teg
	Gwerth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	Teg	2019	2019	2020	2020
		£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Ymrwymadau Ariannol ar gost wedi'i amorteiddio:</i>					
Benthyciadau tymor hir gan PWLB	2	(90,609)	(142,222)	(88,652)	(141,125)
Benthyciadau tymor hir arall	2	(18,085)	(28,264)	(17,806)	(29,462)
Prydlesau cyllidol	2	(1,851)	(1,851)	(1,700)	(1,700)
<i>Ymrwymadau Arall:</i>					
Benthyciadau	2	0	0	(19,000)	(19,000)
CYFANSWM		(110,545)	(172,337)	(127,158)	(191,287)
Ymrwymadau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos		(31,904)		(33,972)	
CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL		(142,449)		(161,130)	
<i>Wedi ei gofnodi ar y Fantolen fel:</i>					
Credydwyr tymor byr		(31,904)		(33,972)	
Benthyciadau tymor byr		(2,770)		(21,112)	
Prydlesau cyllidol tymor byr		(151)		(160)	
Benthyciadau tymor hir		(105,924)		(104,346)	
Prydlesau cyllidol tymor hir		(1,700)		(1,540)	
CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL		(142,449)		(161,130)	

Rhagdybir bod gwerth teg ymrwymadau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys dyledion masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae gwerth teg yr ymrwymadau tymor hir yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen.

	Lefel	Mantolen	Gwerth Teg	Mantolen	Gwerth Teg
	Gwerth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	Teg	2019	2019	2020	2020
		£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Gwerth teg offerynnau ariannol:</i>					
Cronfeydd marchnadoedd arian	1	9,440	9,440	9,135	9,135
Cronfeydd Eiddo	2	9,552	9,552	8,260	8,260
<i>Asedau ariannol ar gost wedi'i amorteiddio:</i>					
Adneuon banc	2	15,261	15,261	8,764	8,764
Stoc trysorlys	1	17	17	17	17
CYFANSWM		34,270	34,270	26,176	26,176
Asedau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos		16,272		20,671	
CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL		50,542		46,847	
<i>Wedi ei gofnodi ar y mantolen fel:</i>					
Dyledwyr tymor hir		4,139		3,948	
Buddsoddiadau tymor hir		17		17	
Dyledwyr tymor byr		12,133		16,723	
Buddsoddiadau tymor byr		19,567		11,259	
Arian a chyfwerthoedd arian		14,686		14,900	
CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL		50,542		46,847	

Rhagdybir bod gwerth teg asedau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys derbyniadau masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

Mae cronfeydd eiddo gwerth cyfanswm o £8.26m wedi cael eu symud o lefel 1 i lefel 2 yr hierarchaeth ar gyfer 2019/20 gan adlewyrchu nad oes marchnad weithredol yn yr offerynnau hyn bellach. Mae reolwyr cronfeydd wedi gohirio adbryniadau sy'n adlewyrchu'r farchnad ar gyfer eiddo sylfaenol a achosir gan ganlyniadau economaidd pandemig COVID-19.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Côt Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys CIPFA â'r Côt Darbodus Ariannu Cyfalaf Awdurdodau Lleol, y ddau wedi ei ddiwygio Rhagfyr 2017.

Yn unol â'r Côt Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys, sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y gyfradd adennill uchaf posib sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ei ymrwymadau cytundebol, gan beri colled i'r Cyngor.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd o golled ariannol oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

Risg Credyd: Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd hirdymor o A-, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd y mae'r Cyngor wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol arnynt. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffygddal, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffygddal credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Yn ystod 2019/20 gosodwyd uchafswm o 5% o swm yr holl bortffolio y gellid ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol (wedi ei ostwng i £1m ar gyfer rhai cymdeithasau adeiladau). Mae'r Cyngor hefyd wedi gosod uchafswm cyfanswm buddsoddiad grŵp o 5% ar gyfer sefydliadau sy'n rhan o'r un grŵp bancio Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £30m am gyfnod hwy na blwyddyn.

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o £3,938,407, sef 98% gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2020. Mae'r weinyddiaeth yn parhau, ond disgwylir i'r holl swm gael ei adennill maes o law.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Ceir crynodeb yn y tabl isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

Tymor Byr		
Cyfradd Credyd	31 Mawrth 2019 £'000	31 Mawrth 2020 £'000
AAA	0	0
AA+	0	0
AA	0	0
AA-	2,005	0
A+	2,004	0
A	4,002	2,999
A-	2,004	0
Cymdeithasau Adeiladu heb eu graddio	0	0
Awdurdodau lleol heb eu graddio	0	0
Cyfanswm	10,015	2,999
Cronfeydd wedi'u cyfuno*	9,552	8,260
Cyfanswm Buddsoddiadau	19,567	11,259

* Nid yw risg credyd yn berthnasol i gyfranddaliad a chronfeydd wedi'u cyfuno lle nad oes gan y Cyngor hawl gytundebol i gal unrhyw swm o arian.

Mae lwfansau colled ar fuddsoddiadau'r trysorlys ac arian a chyfwerthoedd arian wedi eu cyfrifo trwy gyfeirio at ddata rhagosodiad hanesyddol gyhoeddwyd gan asiantaethau statws credyd, wedi ei luosi gyda 365% i ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol ac i'r dyfodol. Rhagdybir y bydd oediad o ddwy flynedd yn y llifau arian mewn achos o ddiffyg dalu. Mae buddsoddiadau wedi dioddef cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac wedi eu israddio gan dri neu mwy o hiciau statws credyd, neu gyfatebol, ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, onibai eu bod yn dal sgôr credyd gradd buddsoddi. Ystyrir hwy â nam ar eu credyd os wedi eu dyfarnu â sgôr credyd "D" neu gyfatebol. Ar 31 Mawrth 2020, roedd £9,764 (2019: £4,181) o lwfansau colled yn perthyn i fuddsoddiadau'r trysorlys.

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Risg Credyd: Derbyniadau Masnachol

Mae proffil oedran y balans masnachol yn ein system dyledwyr ar 31 Mawrth wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:-

31 Mawrth 2019		31 Mawrth 2020
£'000		£'000
5,162	Llai na blwyddyn	5,592
1,913	Dros flwyddyn	2,176
7,075		7,768

Mae profiad hanesyddol o ddiffyg talu ac amodau economaidd presennol ac a ragwelir wedi eu hystyried wrth gyfrifo'r lwfans colled amhariad.

Risg Credyd: Benthyciadau, Gwarantau Ariannol ac Ymrwymadau Benthyciadau

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg credyd sydd yn gynhenid yn eu benthyciadau i bwrpas gwasanaeth, gwarantau ariannol ac ymrwymadau benthyciadau, yn unol â'r Strategaeth Fuddsoddi sydd wedi ei chyhoeddi.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd y prif fenthyciadau fel â ganlyn:

Amser tan aeddfedrwydd (blynnyddoedd)	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Llai na blwyddyn	2,236	20,577
Dros 1 ond dim dros 2	1,577	1,561
Dros 2 ond dim dros 5	4,195	9,415
Dros 5 ond dim dros 10	16,244	10,788
Dros 10 ond dim dros 20	34,612	35,055
Dros 20 ond dim dros 30	5,744	3,976
Dros 30 ond dim dros 40	27,352	27,352
Dros 40	16,200	16,200
Cyfanswm	108,160	124,924

NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY’N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad) **Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog**

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar yr Awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- Benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog yn cynyddu.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymadau benthycia yn disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu yn cynyddu.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau ar gost wedi ei amorteiddio na benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i'w gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog eu hadlewyrchu yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall neu yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, fel sy'n briodol.

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau'r risgiau hyn drwy osod uchafswm ar y symiau net sy'n agored i gyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol. Ar 31 Mawrth 2020 roedd 100% (2019: 100%) o'r prif symiau net a fenthycwyd (h.y. dyled net o fuddsoddiad) yn agored i gyfraddau sefydlog a 0% i gyfraddau cyfnewidiol.

Petai'r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch (gyda'r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

	31	31
	Mawrth	Mawrth
	2019	2020
	£'000	£'000
Cynnydd yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfradd newidiol	0	0
Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol	20	44
Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	20	44
Newid yn ngwerth teg yr asedau buddsoddiad cyfradd sefydlog	(9)	(31)
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	(9)	(31)
Newid yng ngwerth teg benthyciadau / ymrwymadau cyfradd sefydlog *	(24,192)	(24,483)

*Dim effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Byddai effaith tebygol cwmp o 1% mewn cyfraddau llog fel uchod, ond gyda'r symudiadau wedi eu gwrthdroi.

Risg y Farchnad : Risg Pris

Mae prisiau marchnad buddsoddiadau'r Cyngor mewn bondiau cyfradd sefydlog a'i unedau mewn cynlluniau buddsoddi cyfunol yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol, a rheolir y risg marchnad sy'n gysylltiedig â'r offerynnau hyn ar y cyd â'r risg cyfraddau llog.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfa eiddo cyfun yn ddarostyngedig i risg o gwmp mewn prisiau eiddo masnachol. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau eiddo wedi'i pwlio o £20m. Canlyniad cwmp o 5% ym mhrisiau eiddo masnachol ar 31 Mawrth 2020 fyddai cost o £0.11m (2019: £0.5m) i'r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymadau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw'n agored i gollodion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

NODYN 18a – DYLEDWYR TYMOR BYR

31 Mawrth 2019		31 Mawrth 2020
£'000		£'000
11,754	Symiau dyledus masnach	15,689
569	Blaendaliadau	1,308
43,511	Symiau dyledus eraill	59,418
55,834	Cyfanswm	76,415

NODYN 18b - DYLEDWYR TRETH CYNGOR

Gellir dadansoddi Treth y Cyngor dyledus sydd heb ei amharu yn ôl oedran fel a ganlyn:

31 Mawrth 2019		31 Mawrth 2020
£'000		£'000
1,682	Llai na blwyddyn	1,907
584	Dros flwyddyn	500
2,266	Cyfanswm	2,407

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos y balansau hynny lle mae asesiad wedi dangos drwy eithriad nad oes angen unrhyw amhariad.

NODYN 19 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Arian mewn Llaw	15	17
Cyfrifon Banc Cyfredol	47	36
Cyfrifon Galw	14,624	14,847
Arian a Chyfwertioedd Arian	14,686	14,900
Gorddrafft Banc	(30,573)	(22,338)
Cyfanswm	(15,887)	(7,438)

Er mwyn uchafu'r adenillion o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuron Banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn ei gyfrifon banc ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc Cronfa Bensiwn Gwynedd. Telir rhaniad priodol o'r llog a neillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion ar fuddsoddiadau gyda'r Gronfa Bensiwn yn yr un modd. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw'r arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor ac felly mae rhan o'r Buddsoddiadau Tymor Byr (Nodyn 17) a'r Cyfrif Galw a Chronfeydd Marchnad Arian a ddangosir uchod yn cynrychioli arian sydd wedi ei fuddsoddi ar ran y Gronfa Bensiwn ar ddyddiad Y Fantolen. Oherwydd y ffaith fod y Buddsoddiadau Tymor Byr yn enw Cyngor Gwynedd, maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen. £8.2m (£22.6m ar 31 Mawrth 2019) oedd elfen Buddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuron Banc y Gronfa Bensiwn.

NODYN 20 – ASEDAU AR GAEL I'W GWERTHU

	2018/19	2019/20
	£'000	£'000
Balans 1 Ebrill	73	73
<u>Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:</u>		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	0
Gwariant yn y flwyddyn	0	0
Colledion Ailbriso	0	0
Colledion Amharu	0	0
<u>Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu:</u>		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	0
Asedau wedi eu gwerthu	0	0
Balans 31 Mawrth	73	73

NODYN 21 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Symiau taladwy masnach	32,055	34,132
Symiau taladwy eraill	21,225	19,017
Cyfanswm	53,280	53,149

NODYN 22 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

	Balans ar 31 Mawrth 2019 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2020 £'000
<u>Darpariaethau Tymor Byr</u>				
Darpariaeth Safleoedd Gwastraff	(278)	(347)	321	(304)
	(278)	(347)	321	(304)
<u>Darpariaethau Tymor Hir</u>				
Darpariaeth Safleoedd Gwastraff	(7,570)	(280)	0	(7,850)
Darpariaeth Hawliadau Trydydd Parti	(24)	24	0	0
Darpariaeth Yswiriant MMI	(91)	91	0	0
	(7,685)	(165)	0	(7,850)
Cyfanswm	(7,963)	(512)	321	(8,154)

Darpariaeth Safleoedd Gwastraff – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofalaeth holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

Darpariaeth Hawliadau Trydydd Parti – mewn perthynas ag achosion a hawliadau trydydd parti yn erbyn y Cyngor yn y maes Ymgynghoriaeth.

Darpariaeth MMI (Yswiriant Municipal Mutual) – darpariaeth gan fod yr Awdurdod yn agored i ymrwymadau yswiriant a etifeddwyd ac yn ymwneud â threfniadau yswiriant ei Awdurdodau blaenorol ac Yswiriant Municipal Mutual.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2019 £'000		31 Mawrth 2020 £'000
84,835	Reserf Ailbrisió	87,144
191,010	Cyfrif Addasu Cyfalaf	199,941
(618)	Reserf Ailbrisió Offerynnau Ariannol	(1,740)
(687)	Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(637)
(298,514)	Reserf Pensiynau	(237,519)
(3,870)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(4,469)
(27,844)	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	42,720

23.1 Reserf Ailbrisió

Mae'r Reserf Ailbrisió yn cynnwys enillion a wnaed gan yr Awdurdod yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- Ailbrisió i lawr neu eu hamharu a bod yr enillion yn cael eu colli.
- Defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant, neu
- Gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Dim ond enillion ailbrisió sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2018/19 £'000		2019/20 £'000
76,405	Balans 1 Ebrill	84,835
14,951	Ailbrisió asedau i fyny	8,711
(4,625)	Ailbrisió asedau i lawr a cholledion amharu	(4,340)
10,326	Gwarged/(diffyg) wrth ailbrisió asedau	4,371
(1,411)	Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant hanesyddol	(1,838)
(485)	Elw cronedig ar asedau a werthwyd	(224)
(1,896)	Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(2,062)
84,835	Balans 31 Mawrth	87,144

23.2 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbrisió i drawsnewid y ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan yr Awdurdod fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhodd sydd heb eu treulio eto gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisió wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Reserf Ailbrisió i gofnodi enillion o'r fath.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ail-brisio.

2018/19		2019/20
£'000		£'000
187,522	Balans 1 Ebrill	191,010
	<u>Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>	
(16,591)	Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	(19,886)
(3,540)	Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(4,880)
(394)	Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu	(153)
1,411	Trosglwyddo o'r Reserf Ailbrisio Cyfalaf	1,838
	<u>Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn:</u>	
161	Derbyniadau Cyfalaf	423
10,684	Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf	21,585
5,505	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,465
4,191	Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol	2,585
2,061	Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	1,954
191,010	Balans 31 Mawrth	199,941

23.3 Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol

Mae'r Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau gaiff ei mesur ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronedig yn cael eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a'r elw'n cael ei golli.
- Gwerthu a'r elw yn cael ei wireddu

2018/19		2019/20
£'000		£'000
(170)	Balans 1 Ebrill	(618)
(448)	Addasiadau Gwerth Teg	(1,293)
0	Ailbrisio buddsoddiadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gweddill/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau i lawr	171
(618)	Balans 31 Mawrth	(1,740)

23.4 Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli'r swm y dylai fod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Côt Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu'n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae'n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiddymu benthyciadau ymlaen gael eu codi'n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo'r trafodion yn cwrdd â'r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw breimiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario'r benthyciad, ac yn cael ei amortio i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau'r ddyled newydd yn "sylweddol wahanol" i rai'r hen ddyled.

Gall premiymau sydd wedi'u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, p'run bynnag yw'r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, p'run bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae'r trafodion a adlewyrchir yn yr Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol fel a ganlyn:

2018/19		2019/20
£'000		£'000
(743)	Balans 1 Ebrill	(687)
46	Cyfran o breimiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gymwysiedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol	61
10	Credyd gohiriedig am dderbyniad taiadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal	(11)
(687)	Balans 31 Mawrth	(637)

23.5 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd cael eu hariannu fel y mae'r Cyngor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn-weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyngor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2018/19		2019/20
£'000		£'000
(226,981)	Balans 1 Ebrill	(298,514)
(48,870)	Ailfesuriad o'r (ymrwymadau) / asedau buddion pensiwn diffiniedig net	91,705
(43,015)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(54,752)
20,352	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	24,042
(298,514)	Balans 31 Mawrth	(237,519)

23.6 Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

2018/19		2019/20
£'000		£'000
(3,387)	Balans 1 Ebrill	(3,870)
(483)	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(599)
(3,870)	Balans 31 Mawrth	(4,469)

NODYN 24a – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2018/19	2019/20
£'000	£'000
(14,776) Dibrisiant	(15,653)
(1,815) Amhariad ac ailbriso i lawr	(4,233)
4,514 (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr	1,471
(1,252) Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr	20,565
186 Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc	116
(22,663) Ymrwymiad pensiwn	(30,710)
(878) Gwerth i'w gario ar asedau anghyfredol sydd wedi eu gwerthu neu dad-gydnabod	(377)
(3,663) Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	(5,267)
(40,347)	(34,088)

NODYN 24b – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASU AM EITEMAU CYNWYSEDIG YN Y GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU SYDD YN WEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU

2018/19	2019/20
£'000	£'000
(5) Pryniant buddsoddiadau tymor byr a thymor hir	0
704 Derbyniad o werthiant eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	548
699	548

NODYN 24c – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2018/19	2019/20
£'000	£'000
(325) Llog a dderbyniwyd	(549)
5,286 Llog a dalwyd	5,212

NODYN 25 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

2018/19		2019/20
£'000		£'000
19,717	Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	25,100
80,000	Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir	45,555
3,571	Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi	4,689
(694)	Derbyniadau o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(494)
(94,990)	Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	(52,555)
7,604	Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	22,295

NODYN 26a – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

2018/19		2019/20
£'000		£'000
142	Taliadau ariannol i leihau'r ymrwymiad sy'n ddyledus yn ymwneud â Phrydlesau Cyllidol	151
9,981	Ad-daliadau benthyciadau tymor byr a thymor hir	(16,764)
10,123	Llif arian net o weithgareddau ariannu	(16,613)

NODYN 26b – DATGANIAD LLIF ARIAN – CYSONIAD YMRWYMIADAU YN DEILLIO O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

	1 Ebrill 2019	Ariannu llif arian	Eitemau anariannol	31 Mawrth 2020
	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyciadau tymor hir	(105,924)	1,578	0	(104,346)
Benthyciadau tymor byr	(2,770)	(18,342)	0	(21,112)
Ymrwymadau MCP ar y fantolen	(1,851)	151	0	(1,700)
Cyfanswm ymrwymadau yn deillio o weithgareddau cyllido	(110,545)	(16,613)	0	(127,158)

NODYN 27 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm y Cyngor wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

2018/19		2019/20
£'000	<u>Gwariant / Incwm</u>	£'000
	Gwariant	
176,143	Gwariant buddion gweithwyr	183,719
180,378	Gwariant arall Gwasanaethau	192,323
944	Ad-daliadau cefnogaeth ganolog	3,287
20,152	Dibrisiant, amorteiddiad, amhariad	24,797
12,459	Taliadau llog	13,677
22,578	Praeseptau a Lefiau	24,083
174	Colledion ar waredu asedau	0
412,828	Cyfanswm Gwariant	441,886
	Incwm	
(60,048)	Ffioedd ac incwm arall gwasanaethau	(56,102)
(307)	Incwm llog a buddsoddi	(546)
(124,681)	Incwm o'r dreth cyngor a trethi annomestig	(129,866)
(223,119)	Grantiau a chyfraniadau llywodraeth	(235,792)
0	(Enillion) ar waredu asedau	(171)
(408,155)	Cyfanswm Incwm	(422,477)
4,673	(Gweddill) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	19,409

NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i sawl cynllun ar ran Llywodraeth Cymru:

- Troi Tai'n Gartrefi – balans cau £240k (£380k yn 2018/19)
- Troi Tai'n Gartrefi 2 – balans cau £450k (£415k yn 2018/19)
- Benthyciadau i Wireddu Gwelliannau – balans cau £315k (£315k yn 2018/19)
- Cronfa Cefnogi Canol Tref Caernarfon – balans cau £94k (£153k yn 2018/19)
- Cronfa Canol Tref Caernarfon a Bangor – balans cau £765k (£745k yn 2018/19)
- Cronfa Canol Tref Bangor a Bethesda – balans cau £482k (£475k yn 2018/19).

Mae'r Cyngor hefyd yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Y prif weithgaredd yw cynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ardal Partneriaeth Cyngorau Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n ymestyn i 1,100 cilomedr. Cyfanswm y trafodion incwm a gafodd eu hadennill yn ystod 2019/20 oedd £74.4m (£55.5m yn 2018/19)

NODYN 29 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd y lwfansau a threuliau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

2018/19		2019/20
£'000		£'000
1,281	Lwfansau	1,309
67	Treuliau	50
1,348		1,359

NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION

30a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.

2018-19				Uwch Swyddogion	2019-20		
Cyflogau	Cyfraniadau	Costau	Cyfanswm		Cyflogau	Cyfraniadau	Cyfanswm
	Pensiwn Cyflogwr	Eraill Cyflogwr				Pensiwn Cyflogwr	
£	£	£	£		£	£	£
112,168	25,126		137,294	Prif Weithredwr ¹	114,466	25,640	140,106
94,013	21,059		115,072	Cyfarwyddwr Corfforaethol	95,939	21,490	117,429
94,013	21,059		115,072	Cyfarwyddwr Corfforaethol ²	53,444	10,685	64,129
81,369	18,227		99,596	Pennaeth Addysg	85,277	19,102	104,379
79,800	17,875		97,675	Pennaeth Cyllid	81,434	18,241	99,675
42,414	9,501		51,915	Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ³	75,171	16,804	91,975
33,577	7,521	98,477	139,575	Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ⁴			
74,563	16,702		91,265	Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant	75,775	16,974	92,749
74,254	16,633		90,887	Pennaeth Economi a Chymuned	75,775	16,974	92,749
74,254	13,985		88,239	Pennaeth Plant a Theuluoedd	75,775	15,880	91,655
72,398	16,217		88,615	Pennaeth Amgylchedd	75,775	16,974	92,749
72,398	16,217		88,615	Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol	75,775	16,974	92,749
				Pennaeth Tai ac Eiddo ⁵	39,783	8,911	48,694
62,725	14,050		76,775	Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd	64,010	14,338	78,348

"Costau Eraill Cyflogwr" - Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir y costau perthnasol cyflogwr i'r Cyngor.

1. Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys unrhyw daliad i'r Prif Weithredwr yn ei rôl fel Swyddog Canlyniadau. Talwyd £2,050 yn 2019/20 ar sail y raddfa a ddiffinnir gan y cyrff etholiadol perthnasol.
2. Deilydd yn y swydd hyd at Medi 2019.
3. Deilydd wedi ei gadarnhau yn barhaol yn y swydd ers Awst 2019 (ar sail dros dro cyn hyn).
4. Deilydd yn y swydd hyd at Awst 2018
5. Adran newydd – Deilydd yn y swydd ers Medi 2019.

NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

30b. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gofyn i'r Cyngor gyfrifo cymhareb tâl. Cymhareb tâl y Prif Weithredwr i'r tâl canolrif o holl weithwyr yr Awdurdod ar gyfer 2019/20 yw 6.24:1 (6.37:1 yn 2018/19).

30c. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn dau achos yn 2019/20 a dau achos yn 2018/19. Ni fyddai'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo a dalwyd yn y flwyddyn unigol.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:						
Nifer yn 2018-19				Nifer yn 2019-20		
Ysgolion	Eraill	Cyfanswm		Ysgolion	Eraill	Cyfanswm
11	2	13	£60,000 - 64,999	11	5	16
2	0	2	£65,000 - 69,999	10	0	10
6	0	6	£70,000 - 74,999	5	0	5
3	1	4	£75,000 - 79,999	4	0	4
0	0	0	£80,000 - 84,999	0	0	0
1	0	1	£85,000 - 89,999	0	0	0
0	0	0	£90,000 - 94,999	0	0	0
1	0	1	£95,000 - 99,999	0	0	0
0	0	0	£100,000 - 104,999	1	0	1

NODYN 31 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Awdurdod wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol:

2018/19		2019/20
£'000		£'000
182	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	183
100	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwiliadau statudol	99
38	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn	47
320		329
(1)	Llai: Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â Chyfrifon y Cyd-bwyllgorau a'r Harbyrau	(3)
319	Ffioedd Net Cyngor Gwynedd	326

Mae Cwmni Deloitte wedi eu penodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel archwilydd allanol i Gyngor Gwynedd.

NODYN 32 – INCWM GRANT

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	Nodyn	2018/19 £'000	2019/20 £'000
Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Grant Amhenodol			
Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi)	13	134,936	136,049
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw gan y Llywodraeth - Eraill		176	1,543
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gan y Llywodraeth -			
Ysgolion 2 Iain Ganrif		2,288	7,122
Grant Cyfalaf Cyffredinol		4,855	3,887
Grant Cyfalaf Adnewyddu Priffyrdd		1,325	1,325
Asedau gan Lywodraeth Cymru - Offer TG HwB i Ysgolion		0	1,357
Arall		4,201	3,479
	13	12,669	17,170
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf arall	13	912	1,083
Cyfanswm		148,693	155,845
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau			
Llywodraeth Cymru -			
Grant Cefnogi Pobl (SPPG)		5,075	5,041
Grantiau Gwella ac Amddifadedd (Addysg)		7,305	7,302
Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy		1,142	1,270
Grant Ôl-16 (Addysg)		3,180	3,422
Arall		15,799	21,856
		32,501	38,891
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall			
Adran Gwaith a Phensiynau		29,800	27,451
Arall		13,213	16,231
		43,013	43,682
Grantiau a Chyfraniadau eraill		4,040	4,273
Cyfanswm		79,554	86,846

NODYN 32 – INCWM GRANT (parhad)

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2019 £'000	31 Mawrth 2020 £'000
Derbyniadau Grant Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Hir</u>		
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw	0	0
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf		
Cyfraniadau Cyfalaf Priffyrdd a Bwrdeistrefol	1,227	1,081
Grantiau Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	335	370
	<hr/> 1,562	<hr/> 1,451
Cyfanswm Tymor Hir	1,562	1,451
<u>Tymor Byr</u>		
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw		
Grantiau Economi a Chymuned	309	181
Grantiau Oedolion, Iechyd a Llesiant	702	782
Grantiau Eraill	76	48
	<hr/> 1,087	<hr/> 1,011
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf	531	432
Cyfanswm Tymor Byr	1,618	1,443
Cyfanswm	3,180	2,894

NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyngor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddogion gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghôd ymarfer CIPFA.

Llywodraeth Cymru a Chanolog

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor. Mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol, mae'n darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau ac yn pennu termau nifer o'r trafodaethau sydd gan y Cyngor o fewn partïon eraill (e.e. treth y cyngor, budd-daliadau tai). Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth yn Nodyn 27 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 32.

Aelodau

Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyngor. Ceir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn ystod 2019/20 yn Nodyn 29.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol neu wirfoddol neu maent wedi datgan cysylltiad â mudiadau, cyrff ac awdurdodau cyhoeddus. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2019/20 a'r balansau ar 31 Mawrth 2020 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
14,124	923	(4,684)

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2019/20 a'r balansau ar 31 Mawrth 2020 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
3,112	185	(317)

Swyddogion

Mae Uwch Swyddogion (fel y diffinir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, diddordeb neu berthynas (fel a ddiffinir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2019/20 a'r balansau ar 31 Mawrth 2020 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
2,145	86	(145)

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae'r Cyngor yn gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Ceir manylion o'r trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 38.

Mae gan yr awdurdod drefniant cyllideb gyfun gyda holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn cael ei letya gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn. Mae'r trafodion a'r balansau perthnasol yn cael eu manylu yn Nodyn 43 o'r cyfrifon.

NODYN 33 – PARTIÖN CYSYLLTIEDIG (parhad)

Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
698	0	0

Endidau a Reolir neu Ddylanwadir yn Sylweddol arnynt gan yr Awdurdod

Sefydlwyd Cwmni Cynnal Cyf. yn 1996 i ddarparu gwasanaethau cefnogi addysg dan gytundeb i ysgolion unigol ac i awdurdodau addysg leol yn ogystal â gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warrant ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Dim ond tuag at hyrwyddo ei amcanion gellid defnyddio incwm y cwmni. Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN. Mae'r taliadau i Gwmni Cynnal ar gyfer gwasanaethau i ysgolion yn ystod 2019/20 a'r balansau ar 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
947	0	(14)

Is-Gwmni

Sefydlwyd Cwmni Byw'n Iach Cyf ar y 27 Fehefin 2018 i ddarparu gwasanaeth hamdden i drigolion Gwynedd. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warrant, gyda Cyngor Gwynedd yn unig berchennog. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau rheoli i'r cwmni Hamdden ar y 1af o Ebrill 2019 gyda chontract gwasanaeth ar waith sy'n nodi'r union wasanaethau a chanlyniadau y mae'n ofynnol i'r cwmni eu cyflawni am eu ffi. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cynnwys 7 cyfarwyddwr sy'n aelodau etholedig Cyngor Gwynedd. Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol wedi eu archwilio am y flwyddyn ariannol 2019/20 ar wefan Byw'n Iach. Mae'r taliadau i Gwmni Byw'n Iach Cyf ar gyfer gwasanaethau Hamdden yn ystod 2019/20 a'r balansau ar 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
923	170	(250)

NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn referniw fel defnyddir asedau gan y Cyngor, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyngor sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

31 Mawrth 2019		31 Mawrth 2020
£'000		£'000
453,611	Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu	463,892
(84,835)	Reserf Ailbrisio	(87,144)
(191,010)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(199,941)
177,766	Gofyn Cyllido Cyfalaf	176,807

NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF (parhad)

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

2018/19		2019/20
£'000		£'000
177,001	Gofyn Cyllido Cyfalaf I Ebrill	177,766
7,531	Tir ac Adeiladau	7,417
5,850	Is adeiladwaith	7,166
5,189	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	6,622
16	Asedau Cymunedol	4
40	Asedau Gweddilliol	24
1,201	Asedau heb eu cwblhau	4,940
3,540	Wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud	4,880
(161)	Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd	(423)
(10,684)	Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(21,585)
(4,191)	Gwariant cyfalaf yn erbyn refeniw	(2,585)
(5,505)	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth Symiau gwirfoddol ychwanegol a neilltuwyd:	(5,465)
(2,061)	Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	(1,954)
177,766	Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth	176,807

NODYN 35 – PRYDLESAU

Yr Awdurdod fel Prydlesai

Prydlesau Cyllidol

Mae gan y Cyngor eiddo drwy brydlesau cyllidol sydd yn cael eu dangos fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen. Cynhwysir yma Drefniant Consesiwn Gwasanaeth GwryAD (Nodyn 41) gyda'r gwerth net canlynol:

31 Mawrth		31 Mawrth
2019		2020
£'000		£'000
3,489	Eiddo, Offer a Chyfarpar	3,240
3,489		3,240

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r ymrwymiad tymor hir am y budd yn yr eiddo gaffaelwyd gan y Cyngor a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan y Cyngor yn y dyfodol tra mae'r ymrwymiad yn parhau'n ddyledus. Mae'r lleiafswm taliadau prydles fel a ganlyn:

NODYN 35 – PRYDLESAU (parhad)

31 Mawrth	31 Mawrth
2019	2020
£'000	£'000
Ymrwymadau Prydles Gyllidol	
(gwerth presennol net o'r lleiafswm taliadau prydles):	
151 cyfredol	160
1,700 ddim yn gyfredol	1,540
1,851 Lleiafswm taliadau prydles	1,700

Mae'r gweddill o'r ased a ddangosir uchod wedi ei gyllido drwy gredyd gohiriedig (gweler Nodyn 41).

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

	Lleiafswm Taliadau Prydles		Ymrwymadau Prydlesau Cyllidol	
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2019	2020	2019	2020
	£'000	£'000	£'000	£'000
Dim mwy na blwyddyn	151	160	151	160
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	703	746	703	746
Mwy na pum mlynedd	997	794	997	794
	1,851	1,700	1,851	1,700

Yn 2019/20, gwnaethpwyd lleiafswm taliadau prydles o £150,973 (2018/19 - £142,205) gan yr awdurdod mewn perthynas â'r asedau hynny a ddelir fel prydlesau cyllidol.

Prydlesau Gweithredol

	31 Mawrth	31 Mawrth
	2019	2020
	£'000	£'000
Dim mwy na blwyddyn	435	507
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	540	404
Mwy na pum mlynedd	287	249
	1,262	1,160

Y gwariant a godwyd ar y gwasanaethau o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r prydlesau yma oedd:

	2018/19	2019/20
	£'000	£'000
Lleiafswm taliadau prydles	591	564
	591	564

35 – PRYDLESAU (parhad)

Yr Awdurdod fel Prydleswr

Prydlesau Cyllidol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu eiddo ar brydles gyllidol, gan gynnwys:

- Yr Academi Hwyllo ym Mhwllheli,
- Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu

Mae'r prydlesau yma ar sail rhent enwol ac am gyfnod sydd yn cyfateb i fywyd economaidd yr asedau. Nid oes premiwm wedi ei dderbyn ar gyfer y prydlesau yma.

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo o dan brydlesau gweithredol i'r dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymuned
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	31 Mawrth 2019 £'000	31 Mawrth 2020 £'000
Dim mwy na blwyddyn	392	419
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	1074	909
Mwy na pum mlynedd	4,102	3,419
	5,568	4,747

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar ddigwyddiad gymryd lle ar ôl i'r brydles ddechrau, er enghraifft, addasiadau yn dilyn adolygiad rhent. Yn 2019/20 £1,517,857 oedd y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy gan yr awdurdod Cyngor (£956,540 yn 2018/19).

NODYN 36 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu cost y pecynnau perthnasol i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion. Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymadau perthnasol i'r Cyngor fel a wybyddir ar 31 o Fawrth 2020. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i'r Cyngor, ble'n briodol.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band	
	2018/19	2019/20	2018/19	2019/20	2018/19	2019/20	2018/19 £'000	2019/20 £'000
£								
0 - 20,000	84	43	5	36	89	79	214	521
20,001 - 40,000	6	2	2	13	8	15	229	442
40,001 - 60,000	2	0	1	1	3	1	150	40
60,001 - 80,000	0	1	0	1	0	2	0	129
80,001 - 100,000	0	1	4	3	4	4	359	386
Addasiad i amcangyfrif y flwyddyn flaenorol							(1)	19
Cyfanswm	92	47	12	54	104	101	951	1,537

NODYN 37 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensynadwy aelodau.

Mewn egwyddor, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Awdurdod yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2019/20 talodd y Cyngor £8.54m (£6.75m yn 2018/19) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 19.99% (16.10% yn 2018/19) o dâl pensynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Yn 2019/20 roedd hyn yn £1.41m (£1.26m yn 2018/19), ac yn cynrychioli 3.29% (3.01% yn 2018/19). Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 38.

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfu o 1 Ebrill 2014. Mae'r Awdurdod a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Pensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Pensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Awdurdod o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Awdurdod yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2019			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2020		
	Asedau	Ymrwym- iadau	(Ymrwym- iadau) /asedau net	Asedau	Ymrwym- iadau	(Ymrwym- iadau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	682,876	0	682,876	741,995	0	741,995
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu Hariannu	0	(882,416)	(882,416)	0	(1,012,703)	(1,012,703)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu Hariannu	0	(27,441)	(27,441)	0	(27,806)	(27,806)
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	682,876	(909,857)	(226,981)	741,995	(1,040,509)	(298,514)
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(36,511)	(36,511)	0	(44,814)	(44,814)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	(141)	(141)	0	(2,497)	(2,497)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(36,652)	(36,652)	0	(47,311)	(47,311)
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	18,464	0	18,464	17,940	0	17,940
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinir Ymrwymiad	0	(24,827)	(24,827)	0	(25,381)	(25,381)
Cyfanswm Llog Net	18,464	(24,827)	(6,363)	17,940	(25,381)	(7,441)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	18,464	(61,479)	(43,015)	17,940	(72,692)	(54,752)
Llif Arian						
Cyfraniadau aelodau'r cynllun	5,701	(5,701)	0	6,092	(6,092)	0
Cyfraniadau'r cyflogwr	17,158	0	17,158	21,363	0	21,363
Amcangyfrif cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu	1,703	0	1,703	1,722	0	1,722
Amcangyfrif buddion a dalwyd	(19,939)	19,939	0	(19,507)	19,507	0
Amcangyfrif buddion heb eu hariannu a dalwyd	(1,703)	1,703	0	(1,722)	1,722	0
Sefyllfa Cau a Ddisgwyllir	704,260	(955,395)	(251,135)	767,883	(1,098,064)	(330,181)
Ail Fesuriadau						
Newid mewn tybiaethau demograffig	0	0	0	0	36,166	36,166
Newid mewn tybiaethau ariannol	0	(84,177)	(84,177)	0	88,827	88,827
Profiadau eraill	0	(937)	(937)	0	43,248	43,248
Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a gynhwysir yn y llog net	37,735	0	37,735	(75,579)	0	(75,579)
Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	37,735	(85,114)	(47,379)	(75,579)	168,241	92,662
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	741,995	0	741,995	692,304	0	692,304
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(1,012,703)	(1,012,703)	0	(905,466)	(905,466)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu**	0	(27,806)	(27,806)	0	(24,357)	(24,357)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	741,995	(1,040,509)	(298,514)	692,304	(929,823)	(237,519)

* Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Mae'r ymrwymiad yn cynnwys tua £9,287,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido y CPLIL a £15,070,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido Athrawon.

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2019. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £1,947m ar 31 Mawrth 2020, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2019				Ar 31 Mawrth 2020			
	Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Cyfanswm £'000	%	Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Cyfanswm £'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	18,465	0	18,465	3	0	0	0	0
Cynhyrchu	22,213	0	22,213	3	0	0	0	0
Ynni a Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau Ariannol	8,659	0	8,659	1	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	47,442	0	47,442	6	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	12,980	0	12,980	2	0	0	0	0
Eraill	25,194	0	25,194	3	0	0	0	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	40,280	40,280	5	0	43,319	43,319	6
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	107,817	107,817	15	0	0	0	0
Eiddo Diriaethol								
Eiddo'r DU	23,594	44,250	67,844	9	0	67,905	67,905	10
Eiddo Tramor	0	393	393	0	0	80	80	0
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol								
Ecwiti	144,365	212,650	357,015	48	0	462,023	462,023	67
Bondiau	0	0	0	0	0	0	0	0
Is-adeiladwaith	0	14,607	14,607	2	0	15,719	15,719	2
Eraill	0	0	0	0	0	99,631	99,631	14
Arian a Chyferthoedd Arian								
Y cyfan	19,086		19,086	3	3,627	0	3,627	1
Cyfanswm	321,998	419,997	741,995	100	3,627	688,677	692,304	100

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:-

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Cynnydd Pensiwnau	2.5	1.9
Cyfradd Cynnydd Cyflogau*	2.5	2.2
Cyfradd Chwyddiant	2.5	1.9
Cyfradd Ddisgownt	2.4	2.3
Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau	2.4	2.3
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol		
Dynion	22.0	21.3
Merched	24.2	23.4
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	24.0	22.2
Merched	26.4	25.1

*Ar gyfer ymrwymadau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2020, tybir bod yr holl bensiwnau heb eu hariannu yn daladwy am weddill oes yr aelod. Tybir hefyd y bydd 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) ar farwolaeth ac y bydd eu priod (cydbreswlydd) yn derbyn pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2020 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyngor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oeddrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun

Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig	Brasamcan swm ariannol
	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2020
	%	£'000
0.5% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	10	96,831
0.5% o gynnydd i'r gyfradd codiad cyflog	1	12,393
0.5% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn	9	83,421

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gwir gost o flwyddyn o gynnydd yn nisgwylid oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

Effaith ar Lif Arian y Cyngor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel gyllido o 100% dros y 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyngor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad bob tair blynedd (y diweddaraf oedd 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2021 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod y cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyngor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraid 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2020		Cyfnod Cyfartaledd Cymhwysol
	£'000	%	
Aelodau Gweithredol	465,827	51.4	28
Aelodau Gohiriedig	150,094	16.6	28
Aelodau Pensiynwyr	289,545	32.0	11
Cyfanswm	905,466	100.0	22

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2019.

Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor fod yn £19.985m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2021.

Yn Ebrill 2017, gwnaeth Cyngor Gwynedd daliad o £8.627m i gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer yr elfen sefydlog o gyfraniad y cyflogwr am y cyfnod 2017/18 i 2019/20. Drwy wneud y taliad yma, roedd y Cyngor yn elwa o raddfa cyfraniad is na'r hyn y byddai wedi ei gyfrifo fel arall.

Gan fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amseru, gwnaed addasiad o £956,982 yn 2019/20 (£1,490,826 yn 2018/19) i ddod a'r diffyg yn y Gronfa yn seiliedig ar y ffigyrau Actiwaraid yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraid ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad sy'n berthnasol i gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a diffinnir ar y Fantolen.

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Dyfarniad Cyfreithiol McCloud a Sargeant

Roedd rhagdybiaeth twf cyflog Cronfa Gwynedd ym mhriadiad 2016 yn hafal i'r Mynegai Pris Defnyddwyr (MPD) ac felly, yn 2018/19, ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer dyfarniadau McCloud/Sargeant. Ond yn y prisiad 2019, cynyddwyd y dybiaeth cynnydd cyflog uwchlaw MPD, felly mae Cyngor Gwynedd bellach wedi cydnabod rhwymedigaeth am ddyfarniadau McCloud/Sargeant am y tro cyntaf yng nghyfrifon 2019/20. Mae effaith bras y dyfarniad hwn wedi'i gynnwys o fewn y ffigur cost gwasanaeth blaenorol a adroddir o fewn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

NODYN 39 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Mae'r sefyllfa isod yn berthnasol i amgylchiadau'n ymwneud â dau ymrwymiad dibynnol penodol:

- Gofynion capio ac ôl-ofalaeth safleoedd tirlenwi yr Awdurdod - mae'r ddarpariaeth sydd yn gynnwysedig yn y cyfrifon yn seiliedig ar amgylchiadau presennol a gwybyddus, yn ychwanegol i ragolygon perthnasol. Er hynny, mae'n bosib y bydd y gwir gost derfynol yn wahanol i'r amcangyfrif cyfredol o gostau'r dyfodol..
- Mae'r Awdurdod yn agored i ymrwymiad yswiriant posib sy'n berthnasol i drefniadau yswiriant ei gyn-awdurdodau, sef Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Cyngor Dosbarth Meirionnydd, a therfyniad Cronfa Municipal Mutual Insurance (MMI) ar 30 Medi 1992.

Gwnaeth MMI gynllun o drefniant gyda'i gredydwyr, ble, os oedd cyllid MMI yn annigonol i gyfarfod hawliadau yn y dyfodol, yna byddai cymal adfachu'n cael ei sbarduno (sef Cynllun o Drefniant) a allai effeithio hawliadau a dalwyd ers 1992/93. Ar 13 Tachwedd 2012, daeth cyfarwyddwyr y Cwmni i'r casgliad y dylid gweithredu amodau'r Cynllun o Drefniant a rhoddwyd rhybudd i'r perwyl hwn i Weinyddwr y Cynllun a'r Cwmni. Mae'r penderfyniad yn derfynol. Talwyd ardoll gwreiddiol o 15% o'r taliadau a wnaethpwyd ers 30 Medi 1992 yn ystod 2013/14, a talwyd 10% pellach yn 2016/17.

Fodd bynnag, yn unol â'r cynllun, bydd modd codi ardoll pellach os na fydd y lefi gwreiddiol yma yn ddigonol ar gyfer ymrwymadau MMI yn y tymor hwy. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y byddai'n ddarbodus i gynnal cronfa yn y disgwyliad y bydd yr ardoll gwreiddiol yn annigonol. Uchafswm amcangyfrif cyfredol yr ymrwymiad sy'n berthnasol i'r awdurdod hwn yw hyd at £850,000.

NODYN 40 – YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 172 o gymroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion, a chronfeydd cysuron a gwelliannau i nifer o Sefydliadau'r Cyngor. Mae gan y Gronfa Fwyaf, y Gronfa Degwm, gyfriflyfr cyfrifo sy'n hollol ar wahân, tra bo'r Cyngor yn dal eiddo 171 o'r cymynroddion hyn ond nid yw'n gwneud penderfyniadau ar ddefnydd y cronfeydd. Ymhob achos, nid yw'r cronfeydd yn cynrychioli asedion y Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

Cyfanswm balans y 171 o gymynroddion nad ydynt yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2020 oedd £1,097,086 (£972,101 ar 31 Mawrth 19). Buddsoddir y cronfeydd yn llawn er mwyn creu incwm.

Manylir ar y cymynroddion mwyaf, Y Gronfa Degwm ac Ymddiriedolaeth FMG Morgan, yn atodiadau A a B i'r cyfrifon hyn.

NODYN 41 – TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH

Mae GwryAD yn gynllun Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel cynllun 'Menter Cyllid Preifat' (MCP). Dechreuwyd ar y dasg o'i adeiladau yn 2012/13 a'r gwaith yn dod yn weithredol ym Medi 2013. Gwaith yw gogyfer â thrin gwastraff bwyd a ddiolir yn y tarddle gan breswylwyr a busnesau Gwynedd (yn bennaf) trwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Mae hyn yn gymorth i'r Cyngor gyrraedd ei dargedau ailgylchu, a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Biogddiraddadwy am gyfnod o 15 mlynedd.

Mae'r asedau sy'n cael eu darparu i gyflenwi'r gwasanaeth yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor. Gwerth yr asedau perthnasol ar 31 Mawrth 2020 oedd £3.2m (£3.5m ar 31 Mawrth 2019). Mae'r Cyngor yn gwneud taliad cytunedig (ffi giât) bob blwyddyn yn seiliedig ar isafswm o dunelli sy'n cael ei gynyddu yn flynyddol gan chwyddiant ac sy'n gallu cael ei ostwng os yw'r contractwr yn methu â chyrraedd safonau argaeledd a pherfformiad mewn unrhyw flwyddyn. Mae gan y Cyngor yr hawl i gynyddu swm y tunelli dros y 7,500 tunnell cytunedig hyd at 11,000 tunnell, a bydd yn talu ffi giât ostyngol am unrhyw beth dros 7,500 tunnell.

	Taliad am Wasanaethau	Ad-daliad Gwariant Cyfalaf	Llog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Talwyd yn 2019/20	498	151	114	763
Taladwy yn 2020/21	498	160	105	763
Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd	1,991	746	314	3,051
Taladwy o fewn 6 i 10 mlynedd	1,700	794	112	2,606
Cyfanswm	4,687	1,851	645	7,183

Er bod y taliadau sy'n cael eu gwneud i'r contractwr yn cael eu disgrifio fel taliadau unedol, maent wedi eu cyfrifo er digolledu'r contractwr am werth teg y gwasanaeth a gyflenwir, y gwariant cyfalaf a'r llog oedd yn daladwy.

Mae'r contractwr yn derbyn incwm o ynni sy'n cael ei gynhyrchu o'r gwastraff sydd wedi eu galluogi i gadw'r taliad unedol i'r Cyngor yn isel. Os yw'r incwm yn uwch na'r hyn sydd yn y cytundeb, mae trefniant iddo gael ei rannu rhwng y contractwr a Chyngor Gwynedd.

NODYN 41 – TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH (parhad)

Mae'r ymrwymadau sy'n ddyledus i'r contractwr am y gwariant cyfalaf sydd wedi ei wneud fel a ganlyn:

	2019/20	
	Ymrwymadau Prydlesau	Incwm Gohiriedig
	£'000	£'000
Balans yn sefyll 1 Ebrill 2019	(1,851)	(1,373)
Ad-daliad o brifswm yn ystod y flwyddyn	151	0
Rhyddhad o incwm gohiriedig	0	146
Balans yn sefyll ar 31 Mawrth 2020	(1,700)	(1,227)

Gellir terfynu'r cytundeb gan un o'r ddwy ochr ar unrhyw adeg ar sail diffygion, yn amodol ar roi rhybudd yn unol â'r cytundeb. Yn ogystal, gall y Cyngor derfynu'r cytundeb yn unochrog yn unol â'r amodau ynddo. Byddai costau iawndal ynghlwm ag unrhyw drefniant terfynu. Ar ddiwedd y cytundeb, mae gan y Cyngor hawl i ail-dendro am gontractwr i ddarparu'r gwasanaeth.

NODYN 42 – CYLLIDEB CYFUN

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllidebau cyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn. Daeth y trefniant i rym ar 1 Ebrill 2019. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod lletya yn ystod cyfnod cychwynol y cytundeb (2019/20 i 2021/22).

Mae y partneriaid yn cyfrannu cyllid yn ôl eu gwir wariant ar gartrefi gofal i bobl hŷn.

Mae trafodion Cyngor Gwynedd wedi eu cynnwys yn y linell Oedolion, Iechyd a Llesiant o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer trefniadau cyllideb gyfun 2019/20 fel a ganlyn :-

Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn	
	2019/20
	£'000
Gwariant	
Costau Cartrefi Gofal	93,903
Cyfanswm Gwariant	93,903
Ariannu	
Cyngor Sir Ddinbych	(9,041)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(13,417)
Cyngor Sir y Fflint	(8,916)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(11,059)
Cyngor Gwynedd	(7,839)
Cyngor Sir Ynys Môn	(5,075)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	(38,556)
Cyfanswm Ariannu	(93,903)
(Gwared) / Diffyg wrth gefn	0

NODYN 43 – GWEITHREDIADAU AR Y CYD A CHYD-BWYLLGORAU

Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o weithrediadau ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2019/20, roedd Cyngor Gwynedd yn rhan o bedwar cyd-bwyllgor, sef cyd-weithio mewn meysydd penodol rhwng awdurdodau lleol. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Y pedwar cyd-bwyllgor perthnasol i Wynedd yn ystod 2019/20 yw:

- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
- GwE
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Mae cyfrifon y cyd-bwyllgorau yn dilyn yr un amserlen o ran dyddiad statudol ar gyfer cwblhau y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, felly fe welir bod cyfrifon Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gwir ymrwymiad net perthnasol, er bod y sefyllfa ddadansoddol oddrychol yn mynd i amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa a threfniadau adrodd y gwahanol gyd-bwyllgorau. Mae'r ffigyrau ar gyfran berthnasol i Wynedd wedi eu cynnwys yn y tabl isod:

Gweithrediad ar y Cyd / Cyd-Bwyllgor	Awdurdod Lletya Cyllid	Cynghorau a Sefydliadau sydd yn rhan o'r Cydbwyllgor	Cyfran Cyngor Gwynedd	Gwerth Cyfran Gwynedd (Cyfrif Incwm a Gwariant)
			%	£'000
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd	Cyngor Gwynedd	Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn	50	214
GwE	Cyngor Gwynedd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	17.64	721
Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru	Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn	22.91	1
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Cyngor Gwynedd	Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Gwynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Prifysgol Bangor Grŵp Llandrillo Menai Prifysgol Glyndŵr Wrecsam Coleg Cambria	12.5	67

Gellir gweld cyfrifon y cyd-bwyllgorau unigol ar wefannau y cynghorau sydd yn awdurdodau lletya cyllid.

NODYN 44 – DIGWYDDIADAU WEDI DYDDIAD Y FANTOLEN

Awdurdodwyd y datganiad o gyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 3 Mehefin 2020. Nid yw digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau neu nodiadau ariannol. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2020, mae'r ffigurau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob ffordd materol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Y GRONFA DEGWM

2018/19		2019/20	
£'000		£'000	£'000
930	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill		930
	Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn		
8	Llog ar fuddsoddiadau		18
	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn		
(8)	Grantiau a chostau	(13)	
0	Trosglwyddo (Tan) / Gorwariant Gwynedd	1	(12)
930	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth		936
	A gynrychiolir gan yr Asedau canlynol		
24	Dyledwyr		13
0	Buddsoddiadau		900
1,805	Arian mewn llaw		26
1,829			939
(891)	Llai - Eifen yn ddyledus i Gyngorau Môn a Chonwy		0
938			939
(18)	Llai - Credydwyr		(3)
10	Ychwaneger - Eifen yn ddyledus gan Gyngorau Môn a Chonwy		0
930	Cyfanswm		936

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y dylid defnyddio'r incwm at bwrsasau elusennol - addysgol, adloniadol a chymdeithasol, yn unol â disgresiwn y Cyngor.

2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.

3. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2020 oedd £761,978.

4. Yn 2018/19, cafodd yr asedau oedd yn berthnasol i Gyngor Môn a Chyngor Conwy eu dosbarthu yn ôl i'r awdurdodau yn unol â'r cytundeb a wnaethpwyd yn 1996. Y cytundeb oedd fod Cyngor Môn yn cadw'r tir ac fod cyfanswm y tir ac arian yn cael ei rannu i adlewyrchu y dosraniad hyn, Gwynedd 44%, Môn 38% a Conwy 18%.

Tud. 156

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN
--

2018/19 £'000		2019/20 £'000
182	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill	189
	Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn	
13	Llog enillwyd gan yr asedau	12
	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn	
(6)	Grantiau	(7)
189	Cyfanswm y Gronfa 31 Mawrth	194
	Asedau	
145	Buddsoddiadau	145
44	Arian mewn llaw	49
189		194

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Sefydlwyd y Gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs. Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.
2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2020 oedd £307,833 (£351,837 ar 31 Mawrth 2019).
3. Mae Cronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

Geirfa

Amhariad – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid anffafriol mewn amgylchedd statudol).

Amorteiddio – Gwarediad graddol ymrwymiad, megis benthyciad, gyda thaliadau cyson dros gyfnod penodol o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i glirio'r prifswm a'r llog.

Ariannu Cyfalaf - Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthycia, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

Ased - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Asedau Anniriaethol – Ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd corfforol. Meddalwedd cyfrifiadurol er enghraifft.

Asedau Cymunedol - Asedau anghyfredol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal yn barhaus sydd heb oes benodol ddefnyddiol, ac a allai gael cyfyngiadau ar eu gwarediad. Gall esiamplau gynnwys parciau ac adeiladau hanesyddol.

Asedau Treftadaeth – Ased gyda rhinweddau Hanesyddol, Artistig, Gwyddonol, Technolegol, Geoffisegol neu a budd Amgylcheddol, gaiff ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad i wybodaeth a diwylliant.

Balansau (neu Reserfau) - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronodig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Cost Adnewyddu Dibrisiedig – Dull prisiau sy'n darparu procsi ar gyfer gwerth marchnad asedau arbenigol.

Cost Gwasanaeth Cyfredol – Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwyr - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth.

Cronfa Ymddiriedolaeth - Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor ar gyfer dibenion megis gwobrau, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf – Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau cyllid neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

Darpariaeth – Ymrwymiad sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

Derbyniadau Cyfalaf - Incwm a dderbynnir o werthu tir neu asedau cyfalaf arall.

Dibrisio – Mesuriad cost y budd economaidd yr asedau sefydlog diriaethol dreuliyd yn ystod y cyfnod.

Dyledwyr - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Eiddo Buddsoddi – Eiddo a ddelir unai ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer gwerthfawrogiad cyfalaf, neu'r ddau.

Enillion a Cholledion Actiwaraid - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwaged actiwaraid sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraid a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraid wedi newid.

Gwariant Cyfalaf - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Llyfr Net – Gwerth lle caiff asedau sefydlog eu cynnwys ar y Fantolen, h.y. eu cost hanesyddol neu werth cyfredol llai'r gwerth cronus a ddarperir ar gyfer dibrisiad.

Gwerth Teg - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Lleiafswm Darpariaeth Refeniw (LIDR) – Y lleiafswm sydd rhaid ei godi ar gyfrif refeniw awdurdod yn flynyddol a'i neilltuo fel darpariaeth ar gyfer ymrwymiad credyd.

Menter Cyllid Preifat (MCP) – Menter llywodraeth ganolog sy'n anelu i gynyddu lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau preifat o gyllid.

Offerynnau Ariannol - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymladau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymladau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb dyledus) a masnach daladwy (anfoneb sy'n ddyledus i'w talu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnbllannu.

Partion Cysylltiedig - Caiff partion eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Praeseptau – Yr ardoll a wnaed gan awdurdodau archebiant ar awdurdodau sy'n bilio, gyda'r gofyn ar yr awdurdod sy'n bilio i gasglu'r incwm gan drethdalwyr y Cyngor ar eu rhan.

Prydlesau Cyllidol – Les sydd yn trosglwyddo'n sylweddol holl risg a gwobr perchnogaeth ased anghyfredol i'r deiliad prydles.

Prydlesau Gweithredol - Math o les, gan amlaf ar offer cyfrifiadurol, cyfarpar swyddfa, dodrefn a.y.y.b. ble mae'r cydbwysedd risgiau a gwobrau o ddal yr ased ynghlwm â'r prydleswr. Mae'r ased yn aros ym mherchnogaeth y prydleswr ac mae costau'r les yn wariant refeniw i'r Cyngor.

Rhestr Eiddo – Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categoreiddio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadu cyllidol endidau eraill.

Ymrwymladau – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

Eitem 8

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	30 Gorffennaf 2020
TEITL	Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2019/20, a• Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad
AWDUR	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid
AELOD CABINET	Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
GWEITHREDIAD	Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon

1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.
- 1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.
- 1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

2. CYFRIFON 2019/20

- 2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2019/20 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml. Gwelir fod yr harbyrau wedi tanwario (£10,574) gyda'i incwm yn dangos gwarged o £12,539 yn erbyn targed o £175,330. Noder fod y targed wedi ei ostwng £30,000 yn 2019/20 oherwydd y gostyngiad parhaol yn y gofyn am angorfeydd.

- 2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2019/20, wedi'i chwblhau a'i hardystio cyn yr archwiliad gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr Harbyrau.
- 2.3 Yn dilyn yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeiriwyd ato uchod, roedd y corff ar ran Harbyrau Gwynedd yn ofynnol i gymeradwyo a chyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol erbyn 15 Mehefin 2020. Er iddo gael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 27 Mai 2020, oherwydd argyfwng COVID-19, nid oedd yn bosib i'r corff gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol cyn 15 Mehefin 2020.
- 2.4 Mae'r cyfrifon a'r ffurflen wrthi'n cael eu harchwilio gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod 14 Medi 2020 o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 2.5 Ar ôl archwiliad Deloitte ac unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 15 Medi 2020.
- 2.6 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Nid oedd gwariant cyfalaf gan Harbyrau Gwynedd yn 2019/20.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef ;–**
 - Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2019/20 – Atodiad A
 - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2020, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B

Atodiad A**Pwyllgor Archwilio****Adroddiad Harbyrau Cyngor Gwynedd****Cyfrif Incwm a Gwariant 2019-20**

Gwariant	Cyllideb 2019-20 £	Cyfrifon Terfynol 2019-20 £	Gwahaniaeth Gor (Tan) wariant £
Gweithwyr			
Cyflogau	197,940	193,572	(4,368)
Hyfforddiant	0	179	179
Yswiriant Atebolrwydd	2,040	2,116	76
Amrywiol Eraill	2,280	4,340	2,060
Adeiladau			
Cynnal a Chadw	63,780	18,871	(44,909)
Cynnal Tiroedd	2,130	12,422	10,292
Ynni	8,630	9,043	413
Trethi	20,450	19,712	(738)
Dwr	2,440	4,317	1,877
Lês yr Arfordir	2,730	2,600	(130)
Llogi Ystafelloedd	0	100	100
Glanhau a Casglu Sbwriel	4,590	3,655	(935)
Yswiriant Adeiladau	370	380	10
Cludiant			
Costau Rhedeg Cerbydau (cynnwys cychod)	2,240	524	(1,716)
Costau Teithio	470	137	(333)
Cyflenwadau a Gwasanaethau			
Offer - cynnwys diogelwch	18,510	41,503	22,993
Arolygiadau Tanfor	0	532	532
Arwyddion a Rhybuddion	0	11,865	11,865
Dillad	2,020	1,802	(218)
Cynnal Cychod	3,160	8,336	5,176
Ffioedd Arbennigol	6,760	1,985	(4,775)
Trwyddedau	600	225	(375)
Deunyddiau Swyddfa, Argraffu a Rhwydwaith	3,090	4,579	1,489
Ffioedd Archwilio	720	700	(20)
Yswiriant Arian Parod	0	39	39
Dileu Dyledion	0	3,381	3,381
Cefnogaeth Canolog			
Ad-Daliadau Costau Canolog	39,225	39,225	0
Cyfanswm Gwariant	384,175	386,140	1,965
Incwm			
Ffioedd a Rhenti	(175,330)	(163,494)	11,836
Cyfraniad o Cronfeydd	0	(24,375)	(24,375)
Cyfanswm Incwm	(175,330)	(187,869)	(12,539)
Cyfanswm Gwariant Net	208,845	198,271	(10,574)

Cyrff llywodraeth leol perthnasol llai yng Nghymru Ffurflen Flynyddol i'r Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020


ATODIAD B

Y BROSES O RAN CYFRIFON AC ARCHWILIO

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny. Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gyrff llywodraeth leol llai h.y. y rhai hynny ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn baratoi eu cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Nodir yr arferion priodol i is gyd-bwyllgorau sydd ag incwm a gwariant yn llai na £2.5 miliwn yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol 'Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide' (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae'r ffurflen flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr.

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran a amlygir mewn coch gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

CYMERADWYO'R FFURFLEN FLYNYDDOL

Mae dau flwch i'w hardystio a'u cymeradwyo gan y corff. Mae'r ail flwch yn ofynnol dim ond os oes angen diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad. Dylech lenwi'r blwch uchaf yn unig cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd.

Mae'n rhaid i'r pwyllgor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol CYN i'r cyfrifon a'r dogfennau ategol fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn cwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. NI CHAIFF y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Cadeirydd na'r archwilydd mewnol eu cwblhau.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd i'r corff at ddibenion cyhoeddi ac arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Datganiadau cyfrifyddu 2019-20 ar gyfer:

Enw'r corff:

Harbyrau Cyngor Gwynedd

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2019 (£)	31 Mawrth 2020 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	188,730	198,271	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	160,409	187,869	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a referniw.
4. (-) Costau staff	-161,308	-200,207	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-187,831	-185,933	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr a balansau stoc	8,621	22,573	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	-7,579	-17,561	Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.
10. (-) Credydwyr	-1,042	-5,012	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	496,912	496,912	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad o drydydd partiön ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol


Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Do	Naddo*		
<p>1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a • pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. 	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
<p>2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
<p>3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
<p>4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23
<p>5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
<p>6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
<p>7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymglyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
<p>8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.	Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: 	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod: angen llofnod
Enw: DAFYDD L EDWARDS	Enw: angen enw
Dyddiad: 26/05/2020	Dyddiad: dd/mm/bbbb

Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad gan y Pwyllgor (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad)

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.	Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod
Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: angen llofnod	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod: angen llofnod
Enw: angen enw	Enw: angen enw
Dyddiad: dd/mm/bbbb	Dyddiad: dd/mm/bbbb

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ganddo. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ar gyfer:

Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a nodir isod]* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn yn ogystal â]* Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu dwyn i sylw'r corff a'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff dyddiedig _____.]

Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

Enw'r archwilydd allanol:

Llofnod yr archwilydd allanol:

Dyddiad:

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

* Dileer fel y bo'n briodol.

Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Harbyrau Cyngor Gwynedd

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
11. Nodwch y maes risg	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
12. Nodwch y maes risg	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig Mai 2020.]

Cadarnhau archwiliad mewnol

Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio, Cyngor Gwynedd

Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: *Luned Fôn Jones*

Dyddiad: 13/05/2020

Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol

- Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Nodir yr arferion priodol yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn, h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol. Gofynnwch i'ch archwilydd am gopi electronig o'r ffurflen os oes angen un.
- Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2019) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llinell 1 o 2020). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2019 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
- Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
- Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Pwyllgor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu gyfateb eich cysoniad banc i linell 9 yn y datganiadau cyfrifyddu. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Mae'n ofynnol i bob pwyllgor anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hyd yn oed os nad ydych chi wedi gwneud hynny yn flaenorol.** Bydd eich archwilydd yn dweud wrthy'ch pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
- Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
- Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
- Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
- Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn ei hanfon at yr archwilydd.**

Rhestr wirio cwblhau - Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion		Cwblhawyd?	
Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd ac eleni?		
	A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2020 yn gyson â Llinell 9?		
Cymeradwyo	A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rheoliad 15 (1)) erbyn 15 Mehefin 2020 fan bellaf?		
	A yw'r corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 15 Mehefin 2020 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan yr unigolyn a oedd yn cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth?		
Pob adran	A yw'r holl flychau pinc yn y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu llenwi ac esboniadau wedi'u rhoi pan fo angen?		
	A yw'r holl wybodaeth y gofynnodd yr archwilydd allanol amdani wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at eich hysbysiad o archwiliad ac unrhyw atodlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.		

Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi eu diwygio wedi'u cymeradwyo ac Adran 3 wedi'i llofnodi eto a'r dyddiad wedi'i nodi eto fel tystiolaeth o gymeradwyaeth y Bwrdd i'r diwygiadau cyn eu hailgyflwyno i'r archwilydd?		

Eitem 9

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD:	30 GORFFENNAF 2020
TEITL:	RHEOLAETH TRYSORLYS 2019/20
PWRPAS:	Mae'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor
ARGYMHELLIAD:	DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

Crynodeb Gweithredol

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 arhosodd gweithgaredd benthycu'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £546,000 o log ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £406,000 a oedd yn y gyllideb. Ni wnaeth unrhyw fanc yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda methu â thalu, a chyrrhaeddwyd pob dangosydd darbodus.

1. Cyflwyniad

Cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys gan y Cyngor llawn ar y 7fed o Fawrth 2019.

Mae'r Cyngor wedi benthycu a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o Gôd CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

2. Sefyllfa Diwedd Flwyddyn

Crynodeb Mantolen

Ar 31 Mawrth 2020 roedd gan y Cyngor fenthyciadau net o £100m oherwydd gweithgareddau refeniw a chyfalaf. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthycia Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

	31.3.19 Gwir £m	2019/20 Symudiad £m	31.3.20 Gwir £m
CFR	178	(1)	177
Llai : Ymrwymadau dyled eraill	(2)	0	(2)
CFR Benthyciadau	176	(1)	175
Llai: Cronfeydd defnyddiadwy	(73)	(5)	(78)
Llai: Cyfalaf Gweithredol	(29)	32	3
Benthyciadau net	74	26	100

Strategaeth yr Awdurdod oedd cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthycia mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

	31.3.19 Balans £m	Symudiad £m	31.3.20 Balans £m	31.3.20 Cyfradd %
Benthyciadau tymor hir	(105,924)	1,578	(104,346)	5.6
Benthyciadau tymor byr	(2,236)	(18,342)	(20,578)	1.6
PFI	(1,851)	151	(1,700)	Amh.
Cyfanswm Benthyciadau	(110,011)	(16,613)	(126,624)	
Buddsoddiadau tymor hir	17	0	17	4.0
Buddsoddiadau tymor byr	19,567	(8,308)	11,259	1.4
Arian a Chywerthydd arian	14,686	214	14,900	0.8
Cyfanswm buddsoddiadau	34,270	(8,094)	26,176	
Benthyciadau net	75,741	24,707	100,448	

3. Gweithgaredd Benthycia

Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan y Cyngor £124.9m o fenthyciadau, cynnydd o £16.7m ers y flwyddyn cynt.

Y llog a dalwyd yn ystod 2019/20 oedd £5.9 miliwn ar bortffolio benthyciadau gyda chyfartaledd o £106.1 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.6%.

Gweler y sefyllfa a symudiadau benthyciadau ar ddiwedd y flwyddyn yn y tabl isod.

	31.3.19 Balans £m	2019/20 Symudiad £m	31.3.20 Balans £m	31.3.20 Cyfradd %	31.3.20 WAM* blynyddoedd
PWLB	90.2	(2.0)	88.2	5.84	19.7
Banc (tymor sefydlog)	16.2	0.0	16.2	4.22	58.4
Awdurdodau Lleol (tymor byr)	0.0	19.0	19.0	1.58	0.2
Eraill	1.7	(0.3)	1.5	0.00	3.4
Cyfanswm Benthyciadau	108.2	16.7	124.9		

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

Prif amcan y Cyngor wrth fenthycia arian yw taro cydbwysedd risg isel briodol rhwng sicrhau costau llog isel a derbyn sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian, gyda'r ail amcan o hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe byddai cynlluniau hir dymor y Cyngor yn newid.

Ymhellach i'r amcanion yma, ni wnaed unrhyw fenthycia tymor hir newydd yn 2019/20 gyda'r benthyciadau presennol yn aeddfedu heb gymryd benthyciad newydd yn eu lle. Wnaeth y strategaeth yma alluogi'r Cyngor i leihau eu costau benthycia net (er colli incwm buddsoddi) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol.

Cymerwyd benthyciadau byrdymor eleni i sicrhau bod digon o arian parod ar gael yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2020, yn hytrach na chymeryd benthyciad hirdymor.

4. Gweithgaredd Buddsoddi Trysorlys

Mae'r Cyngor wedi dal cronfeydd buddsoddi sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod 2019/20, amrywiodd balansau buddsoddi'r Cyngor rhwng £23.2 miliwn a £71.2 miliwn.

Mae Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor ydi sicrhau enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	31.3.19 Balans £m	2019/20 Symudiad £m	31.3.20 Balans £m	31.3.20 Cyfradd %	31.3.20 WAM* (diwrnodau)
Banciau & Cymdeithasau Adeiladu (heb ei ddiogelu)	15.2	(6.5)	8.7	0.57	122.3
Cronfeydd Marchnad Arian	9.4	(0.3)	9.1	0.42	10.5
Cronfeydd Eiddo	9.6	(1.3)	8.3	3.99	365+
Cyfanswm buddsoddiadau	34.2	(8.1)	26.1		

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

Mae Côt Ymarfer CIPFA ac arweiniad y llywodraeth yn gofyn i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o ddychweliadau neu gynnyrch. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau, lleihau'r risg o achosi colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Mae £8.3m o fuddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu dal mewn cronfeydd ecwiti cyfun strategol a chronfeydd eiddo a reolir yn allanol lle mae hylifedd byrdymor yn ystyriaethau llai, a'r amcanion yn eu lle yw incwm referniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Cynhyrchodd y cronfeydd hyn enillion incwm o 3.99%, ond colled cyfalaf heb ei gwireddu o £1.3m yn y flwyddyn ariannol yma.

Mewn cyfnod cymharol fyr ers dechrau'r pandemig COVID-19, roedd y canlyniadau economaidd byd-eang yn finiog ac yn fawr. Roedd ymateb y farchnad yn eithafol gyda gostyngiadau mawr mewn ecwitiau, marchnadoedd bondiau corfforaethol ac, i ryw raddau, ystâd real sy'n adleisio parlys a ysgogwyd gan cyfyngiadau symud a'r heriau anhysbys i lywodraethau, busnesau ac unigolion.

Gan fod y Cyngor yn fuddsoddi mewn cronfeydd ecwiti ac eiddo, adlewyrchwyd y gostyngiadau yng ngwerthoedd cyfalaf yr asedau sylfaenol ym mhriadau'r Gronfa ar 31 Mawrth gyda phob cronfa'n cofrestru adenillion negyddol dros 12 mis hyd at fis Mawrth. Ni fydd y colledion cyfalaf heb eu gwireddu hyn yn cael effaith ar y Gronfa Gyffredinol gan fod y Cyngor wedi dewis cyflwyno newidiadau yng ngwerthoedd teg y cronfeydd yn yr incwm cynhwysfawr arall.

Meincnodi Buddsoddiadau

	Sgôr Credyd	Graddfa Credyd	Amlygiad 'Bail-in'	WAM* (diwrnodau)	Cyfradd Dychwelyd
31.03.2019	4.96	A+	92%	41	2.13%
31.03.2020	4.99	A+	100%	31	1.97%
A.LI Tebyg	3.77	AA-	29%	27	0.65%
Pob A.LI	3.94	AA-	56%	20	1.23%

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwysu

Roedd y balansau arian cyfartalog yn £48.9m yn ystod y flwyddyn. Mae Cyfradd Banc y DU wedi bod yn 0.75% ers Awst 2018, ond yn sgil y goblygiadau COVID-19 torrwyd y gyfradd i 0.25%, ac ar ôl hynny 0.10% ym mis Mawrth 2020. Mae cyfraddau'r farchnad arian tymor byr wedi aros ar lefelau cymharol isel. Gwnaed adneuron newydd ar gyfradd gyfartalog o 0.57%. Cynhyrchodd buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian gyfradd gyfartalog o 0.42%.

Roedd amcan y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi y Cyngor yn £0.406m am y flwyddyn. £0.546m oedd alldro incwm buddsoddiad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn.

5. Adroddiad Cydymffurfiad

Mae'r Pennaeth Cyllid yn falch o adrodd bod yr holl weithgareddau rheolaeth trysorlys a ymgwymerwyd yn ystod 2019/20 yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor. Mae'r cydymffurfiad gyda cyfyngiadau buddsoddi penodol yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

Cyfyngiadau Dyled

	2019/20 Uchafswm	31.3.20 Gwir	2019/20 Ffin Weithredol	2019/20 Terfyn Awdurdodedig	Cydymffurfiwyd
Benthyciadau	£127m	£127m	£180m	£190m	✓

Gan fod y ffin weithredol yn declyn rheolaeth ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn nad yw'n arwyddocaol os yw'r ffin weithredol yn cael ei thorri ar achlesir oherwydd amrywiadau'r llif arian, ac nad yw hyn yn cael ei cyfrifi fel methiant cydymffurfiad.

Cyfyngiadau Buddsoddi

	2019/20 Uchafswm	31.3.20 Gwir	2019/20 Terfyn	Cydymffurfiwyd
Unrhyw sefydliad unigol, heblaw Llywodraeth y DU	£8m yr un	£3m	£3.865m	✓
Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un perchnogaeth	£8m y grŵp	£3m	£3.865m	✓
Unrhyw grŵp cronfeydd o dan yr un rheolaeth	£20m y grŵp	£5m	£5m	✓
Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer	£40m y brocer	£0m	£0m	✓
Gwledydd tramor	£8m y wlad	£0m	£2m	✓
Darparwyr cofrestredig a lanlordiadau cymdeithasol cofrestredig	Cyfanswm o £20m	£0m	£0m	✓
Buddsoddiadau heb eu gwarantu mewn Cymdeithasau Adeiladu	Cyfanswm o £8m	£0m	£2m	✓
Benthyciadau i gorfforaethau heb eu radio	Cyfanswm o £8m	£0m	£0m	✓
Cronfeydd Marchnad Arian	Cyfanswm o £40m	£9.135m	£30m	✓
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	Cyfanswm o £20m	£0m	£0m	✓

6. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys drwy ddefnyddio'r mesuryddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartal wedi'i bwysu ar gyfer y portffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysu yn ôl hyd bob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb ei graddio yn cael sgôr yn seiliedig ar y risg canfydded.

	31.3.20 Gwir	2019/20 Targed	Cydymffurfiwyd
Sgôr credyd cyfartal y portffolio	4.99	Sgôr o 6 neu is	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol er mwyn mesur ei amlygiad i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael er mwyn gallu cwrdd a taliadau annisgwyl o fewn cyfnod tri mis dreigl, heb fenthyciadau ychwanegol.

	31.3.20 Gwir	2019/20 Targed	Cydymffurfiwyd
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£14.9m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Roedd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, yn:

	31.3.20 Gwir	2019/20 Terfyn	Cydymffurfiwyd
Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog sefydlog	£0	£761,000	✓
Terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol	£0	£0	✓

Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau: Mae'r dangosydd hwn wedi ei osod i reoli datguddiad y Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog yn:

	31.3.20 Gwir	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf	Cydymffurfiwyd
O dan 12 mis	16.47%	25%	0%	✓
12 mis ac o fewn 24 mis	1.25%	25%	0%	✓
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	7.54%	50%	0%	✓
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	8.64%	75%	0%	✓
10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd	66.10%	100%	0%	✓

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedu benthyciadau yw'r dyddiad cynharaf gall y benthyciwr ofyn am ad-daliad.

Symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod: Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ad-dalu'r symiau a fuddsoddwyd yn gynnar. Y cyfyngiadau ar symiau y gellir buddsoddi gydag aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod oedd:

	2019/20	2020/21	2021/22
Gwir brifswm a buddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn	£10m	£0	£0
Terfyn ar gyfer prifswm a fuddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn	£20m	£20m	£20m
Cydymffurfiwyd	✓	✓	✓

Cynllun Archwilio 2020 – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1837A2020-21

Fersiwn ddrafft yw'r ddogfen hon tra bo trafodaethau pellach â'r corff a archwilir ac a arolygir yn yr arfaeth. Mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn eto ac ni ddylid ei dosbarthu'n helaeth.

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cynllun Archwilio 2020

Ein dyletswyddau	4
Effaith Covid-19	4
Archwilio'r datganiadau ariannol	5
Archwilio perfformiad	8
Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau	9
Ffi, tîm archwilio ac amserlen	9
Secondiadau staff	12

DRAFT

Cynllun Archwilio 2020

Ein dyletswyddau

- 1 Rydym yn cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

Archwilio'r datganiadau ariannol

- 2 Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd (y Cyngor) i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

Gwerth am arian

- 3 Rhaid i'r Cyngor sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i ninnau fod wedi'n hargyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

Gwella'n barhaus

- 4 Rhaid i'r Cyngor hefyd sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus ac rydym hefyd yn gwirio a yw wedi gwneud hyn.

Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

- 5 Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr, wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Rhaid i ni asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

Effaith COVID-19

- 6 Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar yr DU a bydd yn effeithio'n sylweddol ar baratoi cyfrifon 2019-20 gan awdurdodau lleol ac ar ein gwaith archwilio, o ran archwilio ariannol ac archwilio perfformiad.
- 7 Yn sgîl cyfyngiadau Llywodraeth y DU ar symudiadau a lefelau absenoldeb oherwydd salwch a ddisgwyllir, rydym yn deall na fydd nifer o awdurdodau'n gallu paratoi cyfrifon yn unol â'r amserlen a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Yn ogystal â chyflawni cyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol, ein blaenoriaeth yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff Swyddfa Archwilio Cymru, eu teuluoedd a'n partneriaid mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth cyhoeddus ar yr adeg hynod heriol hon.
- 8 Mewn ymateb i gyngor y Llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, rydym wedi rhoi'r gorau i'n holl waith ar safleoedd cyrff a archwilir ac yn ein swyddfeydd ni ein hunain. Mae ein staff yn gweithio gartref a byddwn yn parhau i wneud pa bynnag gynnydd y gallwn ei wneud wrth weithio ac ymgysylltu â chi o bell.
- 9 O ganlyniad, nid yw'r cynllun archwilio hwn yn cynnwys unrhyw fanylion mewn perthynas â chwblhau ein gwaith archwilio. Byddwn yn trafod amserlen gyda'r

Awdurdod unwaith y bydd yr argyfwng cenedlaethol presennol drosodd ac y bydd yr Awdurdod mewn sefyllfa i baratoi ei gyfrifon.

- 10 Rydym yn ymrwymo i sicrhau na fydd ein gwaith archwilio'n cael effaith niweidiol arnoch ar adeg pan fo cyrff cyhoeddus dan bwysau ac yn canolbwyntio ar faterion pwysicach.

Archwilio'r datganiadau ariannol

- 11 Fy nghyfrifoldeb yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ynglŷn â'u 'cywirdeb a thegwch':
- rydym yn bwriadu rhoi barn ynglŷn â datganiadau ariannol y Cyngor.
 - asesu pa un a gafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Rydyn hefyd yn adolygu pa un a oeddent yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor ac â'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- 12 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae gennym hefyd gyfrifoldeb am:
- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am y Cyngor i roi cymorth i baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
 - ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynglŷn â'r cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os oes angen);
 - archwilio cyfrifon cronfa bensiwn y Cyngor (mae cynllun archwilio ar wahân wedi cael ei baratoi ar gyfer archwilio'r cronfa bensiwn);
 - archwilio cydbwyllgorau'r Cyngor; ac
 - ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau erbyn dyddiadau amrywiol y cytunwyd arnynt gyda'r cyrff ariannu.
- 13 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwrmpas yr archwiliad hwn.
- 14 Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar ein gwefan (www.archwilio.cymru).

Risgiau Archwilio yn y Datganiadau Ariannol

- 15 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u hadnabod ar gyfer yr archwiliad o'r Cyngor.

Arddangosyn 1: risgiau archwilio yn y datganiadau ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoir risgiau archwilio allweddol yn y datganiadau ariannol a adnabuwyd adeg cynllunio'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
Risgiau arwyddocaol	
<p>Gwrthwneud rheolaethau gan reolwyr</p> <p>Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• cynnal profion dylunio a gweithredu ar reolaethau ar gofnodion dyddlyfr;• cynnal profion sampl o briodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a hefyd• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.
<p>Effaith COVID-19</p> <p>Gall argyfwng cenedlaethol COVID-19 arwain at oedi sylweddol cyn paratoi a chyhoeddi'r cyfrifon. Ceir risg y bydd ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol e.e. mewn perthynas ag amcangyfrifon a phrisiadau, yn cael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu argaeledd adnoddau.</p>	<p>Byddwn yn trafod eich prosesau cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses paratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i adnabod meysydd lle gall fod bylchau mewn trefniadau.</p>
<p>Cyflawnrwydd gwariant a gronnwyd</p> <p>Dan safonau archwilio'r DU, ceir risg dybiedig mewn perthynas â chydabod referniw o ganlyniad i dwyll. Rydym wedi gwrthbrofi'r risg hon, ac yn lle hynny rydym ni'n credu bod y risg o dwyll yn gysylltiedig â chyflawnrwydd gwariant, yn benodol mewn perthynas â chamddatgan croniadau diwedd blwyddyn. O ystyried y pwysau ar draws y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd,</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• cynnal profion dylunio a gweithredu ar reolaethau ar gyflawnrwydd croniadau diwedd blwyddyn; a• chyflawni profion â ffocws mewn perthynas â chyflawnrwydd croniadau diwedd blwyddyn trwy brofi anfonebau a gafwyd a thaliadau a wnaed ar ôl diwedd y flwyddyn.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
<p>ceir risg gynhenid y gallai'r safle ar ddiwedd y flwyddyn gael ei ffugio trwy hepgor neu gamddatgan gwariant a chroniadau diwedd blwyddyn.</p>	
<p>Incwm a Gwariant Grant GwE Mae'r pwyllgor yn cael cyllid grant sylweddol, y mae'r rhan fwyaf ohono'n cael ei ddsbarthu i awdurdodau lleol ac ysgolion. Ceir risg bod y datganiadau ariannol yn cynnwys neu'n hepgor y cyllid grant hwn yn amhriodol gan y bydd angen i'r pwyllgor asesu a yw'n gweithredu fel asiant ynteu fel prif gorff.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ceisio deall polisi cydnabod y pwyllgor ar gyfer incwm a gwariant grant, a fydd yn cynnwys adolygiad i ganfod pa un a yw'r pwyllgor yn gweithredu fel asiant ynteu fel prif gorff; • cynnal profion dylunio a gweithredu ar reolaethau ar asesu pa un a yw'r pwyllgor yn gweithredu fel asiant ynteu fel prif gorff; a • chyflawni profion manylder i gadarnhau a yw meini prawf cydnabod wedi cael eu bodloni.
<p>Meysydd eraill a fydd yn cael sylw wrth archwilio</p>	
<p>Dyfarniad McCloud Yn 2015 cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, gan olygu bod y rhan fwyaf o weithwyr y sector cyhoeddus wedi'u symud i gynlluniau pensiwn newydd yn 2015.</p> <p>Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'mesurau diogelu dros dro' a gynigiwyd i rai aelodau o'r cynlluniau barnwyr a diffoddwyr tân, fel rhan o'r diwygiadau, yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth eu bod yn derbyn bod y dyfarniad yn gymwys i holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Mae effaith y dyfarniad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar y rhwymedigaethau a ddatgelir dan IFRS19.</p>	<p>Bydd fy nhîm yn archwilio'r ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â dyfarniad McCloud ac yn monitro cynnydd o ran datblygu cynigion ar gyfer rhwymedi i'w gymhwyso yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol/Heddlu/Diffoddwyr Tân.</p>

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
Mae'r broses o gyflwyno IFRS 16 Prydlesi wedi cael ei gohirio tan 2021-22. Mae angen peth wmbredd o waith i adnabod prydlesi a gallai argyfwng cenedlaethol COVID-19 greu rigiau o ran rhoi'r safon ar waith.	Bydd fy nhîm yn gwneud peth gwaith cynnar i adolygu parodrwydd ar gyfer cyflwyno IFRS 16 Prydlesi.

Archwilio perfformiad

- 16 Yn ogystal â'n Harchwiliad o'r Datganiadau Ariannol rydym hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol a nodir ar **dudalen 4** mewn perthynas â gwerth am arian, gwella'n barhaus a datblygu cynaliadwy. Ar gyfer 2020-21, caiff y gwaith hwn ei nodi isod.

Arddangosyn 2: Rhaglen Archwilio Perfformiad 2020-21

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2020-21.

Rhaglen archwilio perfformiad	Disgrifiad byr
Gwaith archwilio ac asesu trefniadau gwella gan gynnwys archwiliad o gynllunio ar gyfer gwella ac adrodd ar wella	Archwilio'r modd y cyflawnwyd y ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella, ac i gyhoeddi asesiad o berfformiad.
Archwiliad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Prosiect sy'n gyffredin i'r holl gynghorau lleol a fydd yn canolbwyntio ar thema 'atal'.
Sicrwydd ac Asesu Risg	Prosiect i ganfod y lefel o sicrwydd archwilio a/neu ble y gall fod angen gwaith archwilio pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i waith gan y Cyngor i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau.

Rhaglen archwilio perfformiad	Disgrifiad byr
Cynaliadwyedd Ariannol	Prosiect sy'n gyffredin i'r holl gynghorau lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yng ngoleuni heriau yn awr ac yn y dyfodol gan adeiladu ar waith a wnaed yn ystod 2019-20
Adolygiad rhanbarthol o gomisiynu gofal preswyl a nyrsio ar draws BIPBC a chwe chyngor Gogledd Cymru	Adolygiad rhanbarthol o gomisiynu gofal preswyl a nyrsio.
Ein "ffordd o weithio"	Adolygiad o'r "ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio" sy'n ystyried llywodraethu corfforaethol a'r mecanweithiau sydd gan y Cyngor i roi sicrwydd iddo bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian.

Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau

- 17 Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau'r Cyngor am grantiau a'i ffurflenni grantiau. Archwiliwyd cyfanswm o naw hawliad a ffurflen yn 2018-19; er, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth ni ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y byddwn yn archwilio llai o hawliadau a ffurflenni yn 2019-20.

Ffi, tîm archwilio ac amserlen

- 18 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y bwriedir cytuno arni wedi i argyfwng cenedlaethol COVID-19 ddod i ben, i'r ansawdd disgwyliedig ac maent wedi bod trwy adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
 - mae gwybodaeth a ddarparwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen canlyniadau archwilio cytunedig;
 - darperir ystafell a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
 - bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;

- rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf;
 - mae rhaglen waith arfaethedig y tîm Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol; a
 - nodi i ba raddau yr ydych yn bwriadu dibynnu ar waith y tîm Archwilio Mewnol a lle bwriedir dibynnu ar waith archwilwyr eraill, arbenigwyr a.y.b.
- 19 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Ffi

- 20 Caiff eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2020 ei nodi yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2020, yn ôl maes archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£) ¹	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwilio'r cyfrifon ²	180,450	180,450
Gwaith archwilio perfformiad ³	99,310	99,449
Gwaith ardystio grantiau ⁴	30,000-35,000	47,290
Archwilio cyfrifon GwE ²	11,000	11,000
Archwilio Cydbwyllgorau	2,700	2,700
Cyfanswm y ffi	328,460	340,889

- 21 Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio ac felly fy ffi yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod gyda'r Cyngor yn gyntaf.
- 22 Mae rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r modd y caiff ffioedd eu pennu ar gael ar ein gwefan.

¹ Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch

² Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Hydref 2020.

³ Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021

⁴ Yn daladwy wrth i waith gael ei wneud

Tîm archwilio

23 Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn Arddangosyn 4.

Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

Enw	Rôl	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Derwyn Owen	Cyfarwyddwr Ymgysylltu	02920 320651	derwyn.owen@audit.wales
Ian Howse	Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol	02920 264319	ihowse@deloitte.co.uk
Lauren Parsons	Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol)	02920 26 4109	laurparsons@deloitte.co.uk
Jeremy Evans	Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad)	07825 052861	jeremy.evans@audit.wales
Alan Hughes	Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad)	02920 829 349	alan.hughes@audit.wales

Amserlen

- 24 Byddwn yn parhau i wneud pa bynnag waith y gellir ei wneud o bell yn ystod argyfwng cenedlaethol COVID-19. Fodd bynnag, fel a nodir uchod, ni fyddwn mewn sefyllfa i gytuno ar amserlen gyda chi nes bod argyfwng cenedlaethol COVID-19 drosodd.
- 25 Felly, byddwn yn adrodd ar amserlen ar gyfer ein gwaith archwilio maes o law.
- 26 Gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar y Cyngor a'ch swyddogion. Hefyd, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ei ddwyn i'ch sylw.

Secondio staff

27 Er mwyn diogelu rhag unrhyw fgythiadau posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd archwilwyr, mae'r cyfyngiadau canlynol yn bodoli yn unol â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2019:

- ni fydd y secondai'n cyflawni unrhyw gyfrifoldebau rheolaeth llinell na rheoli;
a
- bydd y secondiad am uchafswm o chwe mis.

DRAFT



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn-destun: 029 2032 0660

E-mail: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.wales / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dilwyn Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd

Cyfeirnod: HR20-05

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Mehefin 2020

Annwyl Dilwyn

Rhaglen Waith Archwilio Perfformiad

Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn eich cael mewn iechyd da yn bersonol a'ch bod yn cadw eich hun a'ch teulu'n ddiogel ac yn iach.

Mae'r heriau o'n blaenau yn eithriadol, ac rwyf yn sylweddoli bod y baich yr ydych chi'n ei ysgwyddo ar hyn o bryd yn sylweddol. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi a'ch staff am y gwaith anhygoel yr ydych yn ei wneud, ac hefyd am y ffordd broffesiynol a charedig yr ymdriniwyd â'r ymgysylltiad cyfyngedig a fu rhyngom dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Pan ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol atoch ar 30 Ebrill, nododd ein bwriad i ailsiapio'r rhaglenni gwaith oedd wedi eu cynllunio o'r blaen a chanolbwyntio ar effaith yr argyfwng presennol, o ran cadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol. Rwyf i yn awr yn ysgrifennu i roi mwy o gnawd ar yr esgryn hynny.

Gyda golwg ar y gyfres o asesiadau cynladwyedd ariannol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn archwilio ddiwethaf, mae pob un o'r rhain wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn gyda'r mwyafrif helaeth wedi eu cwblhau'n derfynol. Er mwyn cyflawnrwydd, rydym yn bwriadu cwblhau'r ychydig rai sy'n weddill o ran cywirdeb ffeithiol, ond rwyf yn sylweddoli bod y rhain bellach wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn cyfnod o amser sy'n prysur gael ei draddodi i hanes. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu peidio â chyhoeddi sefyllfa gryno o ran Cymru gyfan gan na fyddai hyn yn berthnasol mwyach ac y byddai'n tynnu sylw oddi wrth yr heriau presennol. Yn hytrach, bwriadwn archwilio effaith ariannol y pandemig ar gyllidebau cynghorau a'u rhagolygon ariannol, yn ystod yr haf i ddechrau. Bydd hyn yn dilyn cyllideb atodol Llywodraeth Cymru ym mis Mai ac ar adeg pan fydd alldro'r chwarter cyntaf yn hysbys. Bydd hyn yn ein galluogi i greu darlun Cymru gyfan o'r rhagolygon ar gyfer cyllid llywodraeth leol yng Nghymru, fydd hefyd yn edrych i mewn i ganlyniadau a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae ein staff wrthi'n trafod hyn â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Trysoryddion Cymru ar hyn o bryd.

Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd gyda'n gilydd yn awyddus i ganolbwyntio ar y dyfodol. Gyda hyn mewn golwg, ein bwriad yw defnyddio staff i gefnogi a herio'r ffordd y cynllunnir adferiad mewn amser real. Gyda'n gilydd, mae angen i ni gael sicrwydd y bydd yr adferiad yn talu'r sylw dyledus i'r llu o risgiau, ond y bydd hefyd yn cymryd gafael o'r cyfleoedd i gael dyfodol gwahanol a chynaliadwy. Rydym wedi penderfynu y bydd y gwaith hwn ar gynllunio adferiad yn cymryd lle'r gwaith ar y thema 'atal', a nodwyd gennym mewn cynlluniau archwilio.

Rydym yn deall bod pethau'n symud yn gyflym, a dyna pam yr ydym yn awyddus i nodi, rhannu a dysgu'n gyflym ar draws y gwasanaethau cyhoeddus drwy brosiect dysgu COVID-19, a ddisgrifiwyd gan Adrian yn ei lythyr. Nid yw hwn yn waith traddodiadol i sefydliad archwilio cyhoeddus, ond credwn y gallwn ychwanegu gwerth sylweddol, ac rydym yn ei weld yn ategu ein gwaith ar y meysydd 'tocynnau mawr', megis yr effaith ariannol a chynllunio adferiad, fel y disgrifiais.

Yn olaf, gwn y bydd yna brosiectau archwilio lleol, seiliedig ar risg, naill ai wedi'u cynllunio neu ar y gweill. Rwyf yn sylweddoli, o ystyried arwyddocâd a maint y meysydd ffocws a nodir uchod, mai ychydig o le fydd yna yn ein rhaglen archwilio i gynnwys y rhain. Bydd ein tîm archwilio lleol yn trafod unrhyw feysydd gwaith posibl y gallai fod yn fuddiol eu cadw.

Diolch i chi am eich parodrwydd i ymgysylltu'n adeiladol. Bydd ein tîm archwilio lleol yn cysylltu â chi i drafod y rhaglen waith ymhellach, a theimlwch yn rhydd, os gwelwch yn dda, i godi unrhyw faterion neu bryderon gyda hwy.

Dymuniadau gorau a diolch i bawb yn Gwynedd Council.

Yn gywir



Huw Rees

Cyfarwyddwr Archwilio, Archwilio Perfformiad

Cc Derwyn Owen , Cyfarwyddwr Ymgysylltu



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Gwynedd**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1734A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Alan Hughes a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

Cynnwys

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau orwariannau blynyddol sylweddol ac nid yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau orwariannau blynyddol sylweddol ac nid yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy 7

Mae strategaeth ariannol drosfwaol y Cyngor wedi cefnogi ei gydnerthedd ariannol yn dda, ond mae'n wynebu heriau yn y blynyddoedd sydd i ddod 7

Mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb gyffredinol, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwysu gan danwariannau mawr mewn rhai eraill; yn y flwyddyn gyfredol gallai hyn arwain at orwariant ar y cyfan 9

Bu gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, ond mae wedi bod yn llai llwyddiannus yn y flwyddyn gyfredol gyda rhai arbedion a oedd wedi'u cynllunio heb gael eu cyflawni 10

Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac nid yw wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant referniw dros y blynyddoedd diwethaf 12

Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o incwm y Cyngor wedi cynyddu dros y degawd diwethaf 13

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau masnachol ac mae lefelau benthyca ar y cyfan yn dal i fod yn isel 14

Adroddiad cryno

Crynodeb

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.
- 2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu 'dangosyddion' ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â'r canlynol:
 - Perfformiad yn erbyn y gyllideb
 - Cyflawni cynlluniau arbedion
 - Defnyddio cronfeydd wrth gefn
 - Y dreth gyngor
 - Benthycia

Arddangosyn 1: ynglŷn â'r Cyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb referniw net y Cyngor, nifer yr aelodau o staff y mae'n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



Roedd cyllideb referniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £248 miliwn



Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 3,900 o bobl



Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £453 miliwn


Ffynhonnell: Gwefan Cyngor Gwynedd

- 3 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian y gwnaeth y Cyngor gyllidebu i'w gael o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19

Ffynonellau refeniw mewn £m



- Y dreth gyngor
- Ffioedd a thaliadau
- Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru
- Grantiau Eraill gan y Llywodraeth
- Y Gronfa Ardrethi Annomestig Cenedlaethol

Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon archwiliedig Cyngor Gwynedd 2018-19

- 4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Tachwedd 2019.

Yr hyn a ganfuom

- 5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau orwariannau blynyddol sylweddol ac nid yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
 - mae strategaeth ariannol drosfwaol y Cyngor wedi cefnogi ei gydnerthedd ariannol yn dda, ond mae'n wynebu heriau yn y blynyddoedd sydd i ddod;
 - mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb gyffredinol, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae gorrariannau sylweddol mewn rhai

gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwysu gan danwariannau mawr mewn rhai eraill; yn y flwyddyn gyfredol gallai hyn arwain at orwariant ar y cyfan;

- bu gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, ond mae wedi bod yn llai llwyddiannus yn y flwyddyn gyfredol gyda rhai arbedion a oedd wedi'u cynllunio heb gael eu cyflawni;
- mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac nid yw wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw dros y blynyddoedd diwethaf;
- mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o incwm y Cyngor wedi cynyddu dros y degawd diwethaf; ac
- nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau masnachol ac mae lefelau benthyca ar y cyfan yn dal i fod yn isel.

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau orwariannau blynyddol sylweddol ac nid yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy

Mae strategaeth ariannol drosfwaol y Cyngor wedi cefnogi ei gydnerthedd ariannol yn dda, ond mae'n wynebu heriau yn y blynyddoedd sydd i ddod

Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig


- 6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

Yr hyn a ganfuom

- 7 Canfuom fod strategaeth ariannol drosfwaol y Cyngor wedi cefnogi ei gydnerthedd ariannol yn dda, ond ei fod yn wynebu heriau yn y blynyddoedd sydd i ddod. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- fe ymgynghorodd y Cyngor yn eang â dinasyddion i helpu i lunio'i ddull o newid gwasanaethau. Dilynodd y Cyngor ganlyniad yr ymgynghoriad wrth benderfynu pa wasanaethau i'w blaenoriaethu. Cafodd opsiynau ar gyfer gostyngiadau i'r gyllideb eu cynnig ar y sail hon. Mae'r Cyngor, trwy ei fenter Ffordd Gwynedd, hefyd wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd trwy ddull a symleiddiwyd yn fwy, gan wneud y dinesydd yn ganolog i bopeth a wna.
 - mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod o 2019-20 i 2021-22 yn tybio bwch o ran cyllid a fydd o fewn yr amrediad o £6.5 miliwn i £15.4 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd.
 - mae gan y Cyngor hanes da o amcangyfrif ei incwm tebygol yn gywir, gan ystyried yr holl ffactorau rhesymol. Ond nid yw i'w weld fel pe bai ganddo wybodaeth (anariannol) amserol ar gyfer rhai o'i wasanaethau (er enghraifft gofal cymdeithasol i oedolion) a fyddai'n ei alluogi i ystyried y rheswm sylfaenol dros amrywiadau. Byddai gwella cywirdeb cyllidebau'n helpu i wella cywirdeb y bwch o ran cyllid a wynebir;
 - mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau sydd wedi gostwng lefelau'r cyllid ar gyfer gwasanaethau dewisol ac annewisol dros y blynyddoedd diwethaf.
 - mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau ar gyfer creu incwm gan gynnwys ffioedd a thaliadau;
 - mae'r Cyngor wedi cydnabod nad yw cynyddu lefelau ffioedd wastad yn arwain at gynnydd cyfatebol yn lefel yr incwm, gan bod newidiadau'n effeithio ar ymddygiadau unigolion, ac felly nid yw cynnydd canrannol mewn unrhyw faes penodol o anghenraid yn trosi'n godiad tebyg yn lefel yr incwm a gesglir.

Arddangosyn 3: bwloch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwloch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer eleni, a'r tair blynedd ddilynol.



Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan Gyngor Gwynedd yn ei hunanasesiad

Mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb gyffredinol, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwysio gan danwariannau mawr mewn rhai eraill; yn y flwyddyn gyfredol gallai hyn arwain at orwariant ar y cyfan

Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

- 8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Yr hyn a ganfuom

- 9 Canfuom fod y Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb gyffredinol, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwysio gan danwariannau mawr mewn rhai eraill; yn y flwyddyn

gyfredol gallai hyn arwain at orwariant ar y cyfan. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi profi gorwariannau cylchol sylweddol mewn rhai gwasanaethau sydd wedi cael eu gwrthbwysu gan danwariannau mewn meysydd megis cyllidebau Corfforaethol a Chanolog. Ar gyfer 2019-20 mae'r Cyngor wedi rhagfynegi gorwariannau o £658,000 yn yr Oedolion, Iechyd a Llesiant a £3.2 miliwn yn yr Adran Plant a Theuluoedd. Mae'r Cyngor yn rhagweld y gallai'r gorwariannau hyn gyfrannu at orwariant ar y cyfan o £4.58 miliwn (yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis Tachwedd 2019).
- mae'r Cyngor yn cynnal [adolgygiad manwl ar lefel sylfaenol](#) er mwyn deall y rheswm dros orwariannau ac mae'n gweithredu i geisio mynd i'r afael â'r gorwariannau rhagamcanol cyn diwedd y flwyddyn.

Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb referniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb referniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ym mis Tachwedd 2019.

	Cyllideb Wreiddiol y gyllideb referniw net	Alldro Gwirioneddol y gyllideb referniw net	Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan	Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb referniw net
2017-18	£234.35m	£234.03m	Gwarged o £0.32m	Gwarged o 0.14%
2018-19	£243.40m	£243.39m	Gwarged o £0.01m	gwarged bach iawn
2019-20	£247.70m	£252.28m (amcangyfrif)	Gorwariant o £4.58m (amcangyfrif)	Gorwariant o 1.85% (amc)

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd

Bu gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, ond mae wedi bod yn llai llwyddiannus yn y flwyddyn gyfredol gyda rhai arbedion a oedd wedi'u cynllunio heb gael eu cyflawni

Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

- 10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd

ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall yn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolog.

Yr hyn a ganfuom

- 11 Canfuom fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, ond mae wedi bod yn llai llwyddiannus yn y flwyddyn gyfredol gyda rhai arbedion a oedd wedi'u cynllunio heb gael eu cyflawni. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- mae gan y Cyngor hanes sefydledig o gyflawni arbedion ac mae'n ymwybodol y gall llithriant mewn cynlluniau effeithio ar wireddu'r arbediad a oedd wedi'i gynllunio.
 - dros y cyfnod rhwng 2015-16 a 2018-19 cyflawnwyd cynlluniau arbedion gwerth £25,487,967 (95.7%) allan o gyfanswm arbedion wedi'u cynllunio o £26,633,718. Fodd bynnag, yn 2018-19 cafodd ychydig dros 80% o'r arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2018-19 eu cyflawni yn y flwyddyn.
 - mae'r Cyngor wedi adnabod arbedion posibl o 2020-21 ymlaen, yn amodol ar lefelau cyllid yn y dyfodol fel a ganlyn:
 - 2020-21 - £2.7miliwn
 - 2021-22 - £1.9miliwn
 - 2022-23 - £0.8miliwn
 - 2023-24 - £0.02miliwn
 - gallai'r cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2020-21 ostwng lefel yr arbedion y mae angen i'r Cyngor eu gwneud yn ystod 2020-21.

Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

£2.45m

Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio

£1.98m

Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd

£0.47m

Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd

80.7%

Canran yr arbedion a gyflawnwyd

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd

Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac nid yw wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw dros y blynyddoedd diwethaf

Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn ei cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Yr hyn a ganfuom

- 13 Canfuom fod gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac nid yw wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw dros y blynyddoedd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- nid yw'r Cyngor wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw;
 - defnyddiodd y Cyngor gronfeydd wrth gefn yn 2014-15 i ategu ei gyllideb refeniw ac roedd yn bwriadu gwneud hynny cyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â setliad dros dro llywodraeth leol ar gyfer 2020-21; a
 - bu gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy dros y cyfnod rhwng 2008-09 a 2018-19, a'r rheiny'n amrywio o isafswm o £49.3 miliwn i

uchafswm o £67.3 miliwn. Roedd balans y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd mis Mawrth 2019 yn £60.9 miliwn gan gynnwys balans ar gyfer y Gronfa Gyffredinol o £6 miliwn.

Arddangosyn 6: Swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb referniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



£243.4m

Cyllideb Referniw Net



£60.9m

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy



25.0%

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Referniw Net

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd

Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o incwm y Cyngor wedi cynyddu dros y degawd diwethaf

Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r dreth gyngor fel cyfran o incwm y Cyngor wedi cynyddu dros y degawd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae incwm o'r dreth gyngor yng Ngwynedd wedi cynyddu o 22% o'i incwm yn 2010-11 i 30% yn 2019-20 (Ardrethi Annomestig, Grant Cynnal Referniw a'r Dreth Gyngor). Mae newid sy'n debyg fwy neu lai yn y cyllid o'r Grant

Cynnal Refeniw i'r dreth gyngor yn amlwg mewn cyngorau eraill yng Nghymru; ac

- mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gostwng ychydig yn 2018-19 i 96.6% o uchafbwynt o 97.35% yn 2016-17. Mae'r Cyngor yn mynd ymlaen i gasglu'r symiau sy'n ddyledus yn y blynyddoedd dilynol yn unol â'i bolisi casglu dyledion, y mae'r Cyngor yn nodi sy'n sicrhau ei fod yn cymryd agwedd gydymdeiladol tuag at adennill dyledion.

Arddangosyn 8: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£74.138m** (96.6%) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£76.712m**

Ffynhonnell: Stats Cymru (www.statscymru.gov.uk)

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau masnachol ac mae lefelau benthyca ar y cyfan yn dal i fod yn isel

Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

- 16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cyngorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom nad oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau masnachol ac mae lefelau benthycia ar y cyfan yn dal i fod yn isel. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Cyngor fenthyciadau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau masnachol;
- roedd cost yr holl fenthycia gan y Cyngor yn 2018-19 yn £13.4 miliwn, sy'n 5.5% o'r gyllideb referniw net a'i ragolwg yw y bydd y ganran hon yn parhau'n sefydlog.

Arddangosyn 9: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthycia i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb referniw net.



£0m

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



5.5%

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb referniw net 2018-19

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Eitem 12

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 GORFFENNAF 2020
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2020
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 3 Chwefor 2020 hyd 31 Mawrth 2020.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	10
Adroddiadau Eraill o'r Cynllun Gweithredol (memoranda)	1

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Merched mewn Arweinyddiaeth	Corfforaethol	-	Uchel	Atodiad 1
Trefniadau Diogelu - Sefydliadau	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 2
Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 3
GwE – Costau Teithio	Addysg	GwE	Cyfyngedig	Atodiad 4
Uned Diogelwch y Ffyrdd	Amgylchedd	Trafnidiaeth a Gofal Stryd	Digonol	Atodiad 5
Cysoni Banc	Cyllid	Cyfrifeg	Digonol	Atodiad 6
Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	Cyllid	Refeniw	Uchel	Atodiad 7
Defnydd o Ffurflenni P6	Oedolion, Iechyd a Llesiant/Plant a Chefnogi Teuluoedd	Ar draws yr Adran	Uchel	Atodiad 8
Goramser	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Ar draws yr Adran	Cyfyngedig	Atodiad 9
Rhaglen Waith Pontydd	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Gwaith Priffyrdd	Cyfyngedig	Atodiad 10

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn ar "Ddiwylliant a Moeseg", ac ni roddwyd categori ar gyfer lefel sicrwydd. Fel rhan o'r gwaith, crëwyd holiadur pwrpasol gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Phennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad ac Uwch Swyddog Datblygu'r Sefydliad er mwyn ymgynghori ar ddulliau addas i dderbyn adborth ar ddiwylliant y Cyngor a chynyddu'r amrywiaeth o staff a fuasai'n cwblhau'r holiadur.

3. GWAITH DILYNIANT

3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2018/19, daethpwyd i gytundeb ar 88 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2020. Yn dilyn cais am wybodaeth a thystiolaeth gan yr Unedau/Gwasanaethau perthnasol ar gynnydd gweithrediadau, dengys ar 31 Mawrth 2020 bod gweithrediad derbynol ar **100%** o'r camau cytunedig a gytunwyd i liniaru risgiau uchel/uchel iawn, h.y. 11 allan o 11, a **72.73%** o'r camau cytunedig a gytunwyd i liniaru risgiau isel/canolig., h.y. 56 allan o 77.

3.2 Ar y cyfan, gwelwyd bod gweithrediad derbynol ar **76.13%** o'r camau cytunedig, h.y. 67 allan o 88 gweithrediad cytunedig. Gwelwyd bod cynnydd wedi ei wneud ar **12.5%**, h.y. 11 gweithrediad cytunedig ond ni dderbyniwyd ymateb mewn perthynas â **11.36%** o'r gweithrediadau. Ni dderbyniwyd ymateb ar gyfer yr archwiliadau canlynol:

- Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau (1 gweithrediad)
- Diogelwch Seibr (1 gweithrediad)
- Trefniadau Adfer Trychineb TG (4 gweithrediad)
- Prynu Cyfarpar drwy'r Ysgol (2 gweithrediad)
- Plant – Lleoliadau All-Sirol (2 gweithrediad)

4. GWAITH AR Y GWEILL

4.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Mawrth 2020:

- 5 Ffordd o Weithio (*Corfforaethol*)
- ARFOR (*Economi a Chymuned*)
- Plas Gwilym (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Cerbydau Bwrdeistrefol (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 3 Chwefror 2020 hyd at 31 Mawrth 2020, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

**MERCHED MEWN ARWEINYDDIAETH
CORFFORAETHOL**

1. Cefndir

- 1.1 Cynhaliwyd arolwg yn 2017 ble adnabuwyd bod dros 70% o weithlu'r Cyngor yn ferched ond mai ychydig dros 30% o'r uwch swyddi s'yn cael eu gweithredu gan ferched. O holl swyddi arweinyddol y Cyngor (h.y. arweinydd / uwch reolwyr sydd yn uniongyrchol ymatebol i Bennaeth Adran neu uwch) mae 75% yn cael eu gweithredu gan ddynion a 25% yn unig gan ferched, ac o ganlyniad mae tangynrychiolaeth o ferched o fewn y Cyngor. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos nad yw merched yn aml yn ystyried eu hunain yn arweinwyr, ac nad ydynt mor barod i ymgeisio/ymgymryd â rolau arweinyddol. Yn ogystal, mae'r ymchwil yn dangos bod rhagfarn ddiarwybod (unconscious bias) yn parhau i fodoli ymysg y dynion hynny fyddai'n gyfrifol am benodiadau i'r uwch swyddi hynny.
- 1.2 Un o brif flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2018-2023 yw 'Merched mewn Arweinyddiaeth'. Bwriedir adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn flaengar, yn annog 'merched mewn arweinyddiaeth' ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor. Mynegir adroddiad Cabinet dyddiedig 28 Ionawr 2020 mai *"Nod y prosiect yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor."*

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i weithredu a chyflawni blaenoriaeth gwella 3 yng Nghynllun Cyngor Gwynedd, sef Merched mewn Arweinyddiaeth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio gweithrediadau mae'r Cyngor wedi eu cymryd i hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio i gyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Sefydlwyd Grŵp Prosiect 'Merched mewn Arweinyddiaeth' ac ar hyn o bryd mae cyfansoddiad y grŵp yn cynnwys trawsdoriad o ddynion a merched mewn swyddi rheolaethol ynghyd ag dwy Aelod Cabinet. Bydd y grŵp yn ymdrechu i wella eu dealltwriaeth o'r rhwystrau cyffredin sy'n dylanwadu ar benderfyniadau gyrfaol merched ac yn ymateb iddynt. Byddent yn gwneud hyn drwy:
- a) canfod y rhwystrau a chytuno ar gamau gweithredu er mwyn newid diwylliant ac annog ac ysbrydoli merched i ystyried rôl arweiniol a rheolaethol; ac
 - b) codi ymwybyddiaeth o ragfarn ddiarwybod ymysg dynion a chyflwyno trefniadau sy'n annog cyfleoedd cyfartal.

- 4.2 Cynhaliwyd gweithdy ym mis Hydref 2019, i ferched sydd eisoes mewn swyddi rheoli neu arwain tîm er mwyn casglu adborth pellach i'r hyn a gasglwyd yn ystod arolwg 2017. Gwahodwyd siaradwyr gwadd a chynhaliwyd gweithgaredd er mwyn clywed barn, arfer da a derbyn awgrymiadau gan y mynychwyr. Cafwyd llawer o sylwadau, amlygwyd pwyntiau megis cydbwysedd, hyblygrwydd, ofn methu a.y.b. Yn ogystal, derbyniwyd awgrymiadau megis, mentora, annog unigolion i gymryd y camau nesaf yn eu gyrfa, gwneud defnydd o fodelau rôl a.y.b. Nodwyd bod yr adborth a dderbyniwyd yn dilyn y gweithdy yn gadarnhaol iawn, dylid nodi nad oedd pob unigolyn wnaeth fynychu'r gweithdy yn credu bod y ffaith eu bod yn ferch wedi cael effaith negyddol ar ddatblygiad eu gyrfa.
- 4.3 Cynhaliwyd gweithdy i ddynion sy'n gweithio mewn rolau rheoli neu arweinyddol ym mis Rhagfyr 2019, mewn ymdrech i ledaenu ymwybyddiaeth o'r hyn sydd angen sylw ac i dderbyn adborth ganddynt hwythau hefyd. Fe wahodwyd siaradwyr gwadd a chynhaliwyd yr un gweithgaredd, adnabuwyd yr angen i adolygu swydd ddisgrifiadau rheolwyr fel nad oes ganddynt dueddiadau dynol, yr angen i roi cefnogaeth i ferched a dynion sydd eisieu manteisio ar bolisiau penodol (gofal plant, mamolaeth, tadolaeth) a.y.b.
- 4.4 Mae camau eisoes wedi eu cymryd i dderbyn adborth pellach. Gwnaethpwyd cais drwy e-bost i reolwyr y Cyngor yn gofyn iddynt gynnal trafodaethau yn eu cyfarfodydd tîm ynglŷn â pha rwystrau a wynebier gan ferched yng nghyd-destun ymgeisio a chael eu penodi'n rheolwyr neu i uwch swyddogaethau yn y Cyngor. Yn ogystal, bwriedir cynnal arolwg ar ffurf holiadur ar gyfer holl ferched y Cyngor ym mis Mawrth 2020 i adnabod y rhwystrau a chlywed am eu dyheadau.
- 4.5 Defnyddiwyd yr holl wybodaeth sydd wedi ei gasglu hyd yma i lunio'r cynllun gweithredu a bydd y fersiwn diwygiedig yn cael ei gymeradwyo gan y Grŵp prosiect yn eu cyfarfod nesaf ar y 3 Mawrth 2020. Megis cychwyn mae'r gwaith o ran ymateb i'r hyn sydd wedi ei amlygu hyd yma. Bydd gwaith parhaus o ran ymchwilio i'r maes, gydag aelodau o'r grŵp yn mynychu cynadleddau, yn ymchwilio i ymarfer da ac yn cael cyfleoedd i fynychu cyrsiau perthnasol. Yn yr hirdymor gobeithir y bydd y prosiect yw newid diwylliant o fewn y Cyngor a bod merched yn teimlo eu bod yn gallu ymgeisio am swyddi arweinyddiaeth/rheolaethol.

TREFNIADAU DIOGELU - SEFYDLIADAU CORFFORAETHOL

1. Cefndir

- 1.1 Un o brif flaenoriaethu Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn mewn lle er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, trais yn y cartref ac ecploetiaeth. Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i adrodd ar bryder neu amheuaeth fod unigolion yn cael eu cam-drin.
- 1.2 Mae nifer o bosteri ynghyd â phamffledi a chardiau cyswllt wedi eu cynhyrchu er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o faterion a threfniadau diogelu. Yn ogystal, mae modiwlau e-ddysgu ar gael i weithwyr sydd â mynediad at gyfrifiadur a thrwy hunan-wasanaeth ar gyfer gweithwyr maes.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod sefydliadau tu allan i brif swyddfeydd y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gyfeirio pryderon am ddiogelu plant ac oedolion yn briodol.
- 2.2. Roedd yr archwiliad yn cael ei arddangos yn cwmpasu cynnal trafodaethau gyda Rheolwyr ac arsylwi bod poster diogelu yn cael ei arddangos mewn sefydliadau y tu allan i'r prif swyddfeydd. Roedd hyn yn cynnwys cartrefi preswyl ac harbyrau Cyngor Gwynedd bu i Archwilio Mewnol ymweld â hwy fel rhan o gynllun blynyddol Archwilio Mewnol 2019/20.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod ymwybyddiaeth o faterion diogelu, ond fod lle i wella ar godi ymwybyddiaeth ymhellach. Fel rhan o gynllun archwilio 2019/20, archwiliwyd sampl o gartrefi preswyl ac harbyrau y Cyngor. Ymysg y rhaglen archwilio, fe archwiliwyd trefniadau diogelu megis polisiau diogelu, hyfforddiant a dadleniadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG/DBS) yn y cartrefi. Gweler isod grynodedb o'r darganfyddiadau.

- 5.2 Roedd pob cartref yn y sampl yn dilyn polisi corfforaethol y Cyngor, sydd eisoes wedi cael ei adolygu ym mis Medi 2017. Gwelwyd bod un cartref yn defnyddio Polisi a Chanllawiau Amddiffyn Oedolion Bregus Gogledd Cymru yn ogystal.
- 5.3 Gwelwyd bod poster diogelu wedi ei arddangos mewn dau allan o'r tri Cartref Preswyl a ymwelwyd â hwy. Yn yr achos ble nad oedd poster wedi ei arddangos yn un o'r Cartrefi, gwelwyd bod gan y Rheolwraig gardiau cyswllt diogelu ac eglurodd ei bod yn rhoi un i bob aelod o staff newydd.
- 5.4 Gwelwyd bod staff y cartrefi yn derbyn amrywiaeth gwahanol o hyfforddiant diogelu oedolion bregus megis hyfforddiant sylfaenol Cymru gyfan ar ymwybyddiaeth o ddiogelu, ymwybyddiaeth POVA (Protection of Vulnerable Adults), a hyfforddiant diogelu fel rhan o'u hanwythiad. Dylai'r gweithwyr dderbyn hyfforddiant diogelu drwy ffurf ystafell ddosbarth pob tair blynedd. Nid oedd pob aelod o staff yn y sampl wedi derbyn hyfforddiant diogelu oedolion bregus, a darganfuwyd achosion ble roedd angen ei adnewyddu. Roedd hyfforddiant amryw o staff yn dyddio yn ôl mwy na'r cyfnod tair blynedd gyda rhai yn dyddio yn ôl i 2014. Yn yr achosion yma, roedd Rheolwyr Cartrefi yn ymwybodol o'r sefyllfa a gwelwyd bod enwau wedi eu rhoi ymlaen ar gyfer gwneud y cwrs hyd at 2020.
- 5.5 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant e-ddysgu gan gynnwys modiwlau 'Cam-drin Domestig', 'Diogelu Oedolion' ac 'Amddiffyn a Diogelu Plant'. Detholwyd sampl o 35 aelod o staff rhwng y tri cartref a gwelwyd mai 20 allan o 35 o aelodau staff oedd wedi cwblhau'r modiwl 'Cam-drin Domestig' rhwng y tri cartref. Roedd rheolwyr y cartrefi yn ymwybodol o'r angen i gwblhau'r modiwlau yma, ond nododd un ohonynt am y trafferthion maent wedi ei gael gyda'r we. Nid yw'n angenrheidiol i staff gwblhau'r modiwlau diogelu gan eu bod eisoes yn derbyn hyfforddiant wyneb yn wyneb ond o ran y modiwlau 'Cam-drin domestig' mae'n angenrheidiol i bob aelod o staff y Cyngor i gwblhau'r modiwl.
- 5.6 Gwelwyd bod poster diogelu ym mhob un o'r harbyrau yr ymwelwyd â hwy. Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant e-ddysgu gan gynnwys modiwlau fel 'amddiffyn a diogelu plant', 'amddiffyn oedolion' a 'cham-drin domestig', a gwelwyd bod y tri harbwrfeistr a Rheolwr Hafan wedi cwblhau'r hyfforddiant "amddiffyn a diogelu plant" yn 2016. Ni chwblhaodd yr un o'r pedwar hyfforddiant e-ddysgu 'Amddiffyn Oedolion' neu 'gam-drin domestig'.
- 5.7 Gwelwyd bod holiadur diogelu plant ac oedolion bregus nawr ar gael ar fewnwyd y Cyngor ar gyfer unrhyw aelod o staff sydd yn ddefnyddiwr cyfrifiadur. Mae'r holiadur wedi ei lunio er mwyn rhoi trosolwg ar ymwybyddiaeth staff y Cyngor am y maes, a bydd canlyniadau'r holiadur yn cynorthwyo'r Grwp Gweithredol Diogelu i helpu staff wybod beth i'w wneud pe byddai yn dod ar draws sefyllfa o berygl neu niwed i blentyn neu oedolyn.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Panel Gweithredol Diogelu wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau diogelu corfforaethol a'r angen i gwblhau hyfforddiant.**

RHEOLI GWYBODAETH - SEFYDLIADAU CORFFORAETHOL

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r Cyngor yn gwneud cryn ddefnydd o wybodaeth bersonol yn ei holl feysydd gwaith. Fel rhan o'i gyflogaeth gyda Chyngor Gwynedd mae disgwyl i bob aelod o staff fod yn gyfarwydd â'i gyfrifoldebau Diogelu Data ac ymdrin â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC, neu 'GDPR').
- 1.2 Daeth y RhDDC i rym ym Mai 2018, yn ogystal â Deddf Diogelu Data 2018 (oedd yn disodli Deddf Diogelu Data 1998). Golyga hyn y bydd yn rhaid i sefydliadau gydymffurfio â'r RhDDC ynghyd â'r Ddeddf Diogelu Data newydd.
- 1.3 Golyga hyn bod angen esbonio yn llawer mwy eglur i'r cyhoedd a staff sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei ddefnyddio. Mae gan unigolion lawer mwy o hawliau a bydd angen prawf pendant o ganiatâd i ddefnyddio gwybodaeth. Mae'n rhaid adrodd yn genedlaethol os yw gwybodaeth yn mynd ar goll neu i'r lle anghywir a bydd angen gwybod pa wybodaeth bersonol sydd gennych, lle mae'n cael ei storio, efo pwy mae'n cael ei rannu a pha mor hir bydd yn cael ei gadw.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr Archwiliad oedd sicrhau fod gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei gadw yn ddiogel ac mewn cydymffurfiaeth ag egwyddorion y RhDDC a'r Ddeddf newydd. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu arsylwi ar drefniadau diogelu gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau'r Cyngor sydd y tu allan i'r prif adeiladau. Roedd hyn yn cynnwys Cartrefi Preswyl a Harbyrau y bu i Archwilio Mewnol ymweld â hwy fel rhan o gynllun blynyddol Archwilio Mewnol 2019-20.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod ymwybyddiaeth am faterion rheoli gwybodaeth ac egwyddorion diogelu data, ond fod lle i wella ar godi ymwybyddiaeth ymhellach. Gweler isod grynodedb o'r darganfyddiadau yn y sefydliadau yr ymwelwyd â hwy yn ystod 2019-20.

5.2 Cartrefi Preswyl

5.2.1 Dim ond un allan o'r tri Cartref Preswyl ymholwyd oedd yn ymwybodol o'r tîm Rheoli Gwybodaeth. Er hynny, gwelwyd bod gan y tri cartref ddealltwriaeth dda o'r rheolau diogelwch gwybodaeth. Gwelwyd bod y tri cartref yn cadw at y polisi desg glir, yn ymwybodol o'r cyfnodau cadw gwybodaeth ac yn gwneud defnydd o larpiwyr a sachau coch.

5.2.2 Roedd gan y tri cartref drefniadau ar gyfer gwirio pwy sydd ar ben arall y ffôn, man preifat ar gyfer trafod unrhyw faterion cyfrinachol ac nid ydynt yn rhannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol dros y ffôn. Gwelwyd bod staff Cartrefi Preswyl yn cwblhau ffurflenni cyfrinachedd sydd yn ran o'r pecyn cais, ac felly yn ymwybodol o'r angen i beidio â thrafod materion tu allan i'r gwaith.

5.3 Harbyrau

5.3.1 Nid oedd swyddogion dau harbwr allan o bedwar yn ymwybodol o'r tîm Rheoli Gwybodaeth a'r gefnogaeth maent yn gynnig.

5.3.2 Roedd gan y pedwar harbwr fan preifat ar gyfer trafod unrhyw faterion cyfrinachol ac roedd y swyddogion yn ymwybodol iawn o'r angen i wirio pwy sydd ar ben arall y ffôn. Roedd swyddogion yr harbyrau yn gwneud defnydd o larpiwr a sachau coch, ac yn ymwybodol o'r cyfnodau cadw ar gyfer y gwybodaeth dan eu gofal.

5.3.3 Roedd TCC wedi ei osod mewn tri allan o'r pedwar harbwr a ymwelwyd, a gwelwyd bod arwyddion i hysbysu'r cyhoedd o'r defnydd wedi eu gosod ar yr adeiladau. Nid oedd y system TCC yn gweithio yn un o'r harbyrau allan o'r tri yn ystod yr ymweliad. Mae swyddogion penodedig yn rheoli'r systemau TCC, ond petai ymholiad gan yr Heddlu, yr Harbwrfeistr yn unig fuasai'n delio â hwy. Yn yr achosion yma mae angen cwblhau ffurflen diogelu data.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau rheoli gwybodaeth gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.**

COSTAU TEITHIO GwE

1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd, sef Awdurdod Lletuol GwE, wedi mabwysiadu trefn ble gall gweithwyr sydd â chyfrif TG hawlio unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth drwy system hunanwasanaeth. Fel rhan o'r drefn yma, cyflwynir manylion teithiau ar-lein ac nid oes angen awdurdodiad gan reolwr er mwyn i'r taliad gael ei brosesu, ond mae ganddynt y gallu i wrthod ceisiadau os ydynt o'r farn eu bod yn amhriodol neu'n anghywir. Bwriad y drefn newydd yw lleihau'r baich gweinyddol oedd ynghlwm â'r drefn flaenorol o gwblhau cais papur oedd angen awdurdodiad rheolwr llinell, ei ardystio gan ddaliwr y gyllideb ac yna ei fewnbynnu gan swyddogion gweinyddol i'r system i gynhyrchu'r taliad.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod proses effeithlon ac effeithiol mewn lle ar gyfer hawlio costau teithio drwy'r system hunanwasanaeth, sy'n lleihau'r baich gweinyddol ac yn cadw risg o golled drwy gamgymeriad neu dwyll i lefelau priodol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu darganfod amlder cynnal gwiriadau gan reolwyr a gwirio sampl o geisiadau costau teithio a gyflwynwyd.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae'r drefn o gyflwyno ceisiadau drwy hunanwasanaeth yn lleihau'r gwaith gweinyddol yn sylweddol. Mae'r cyfrifoldeb am gynnal gwiriadau yn parhau gyda'r rheolwyr, felly mae'r risg o gamgymeriadau neu dwyll costus yn ddibynnol ar ba mor drylwyr mae'r rheolwyr yn gwirio ceisiadau. Yn yr ystyr yma, nid yw'r drefn wedi newid wrth gymharu â threfniant ceisiadau costau teithio papur, ond bod y drefn newydd yn ddibynnol ar ymrwymiad y rheolwyr i fewngofnodi i'r system hunanwasanaeth yn fisol i gynnal y gwiriadau.

- 5.2 Mae'r drefn yn tybio bod rheolwyr yn gwirio'r ceisiadau ac yn gwrthod rhai amhriodol. Cynhyrchiwyd adroddiad oedd yn dangos pa reolwyr sydd wedi a pha reolwyr sydd heb wirio ceisiadau dros gyfnod o fisoedd diweddar, a gwelwyd nad oedd y rhan helaeth o geisiadau staff GwE yn cael eu gwirio, er bod y system yn cynhyrchu e-byst i reolwyr sydd heb ymweld â'r system hunanwasanaeth i wirio costau teithio gan nodi'r angen "*i chwi wirio costau teithio eich staff yn y system Hunan Wasanaeth cyn y dyddiad rhyddhau*" gan nodi'r dyddiad rhyddhau perthnasol. Yn ogystal, mae neges atgoffa yn ymddangos yn y system hunanwasanaeth.
- 5.3 Darganfuwyd bod camgymeriadau yn gallu cael eu prosesu (e.e. gwelwyd cais am 800 milltir am daith 80 milltir) a daethpwyd â hyn i sylw GwE i'w cywiro. Dengys felly bod camgymeriadau amlwg yn gallu disgyn drwy'r rhwyd petai rheolwyr ddim yn cynnal gwiriadau.
- 5.4 Gwelwyd felly bod risg o geisiadau amhriodol yn bodoli, ond nid yw'n sylweddol uwch wrth gymharu â'r trefniant o gyflwyno ceisiadau costau teithio papur gan fod y ddwy drefn yn ddibynnol ar onestrwydd y swyddog a pharodrwydd y rheolwr i'w gwirio a'u herio ble'n briodol.
- 5.5 Cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd ar y 13 Mawrth 2018 i addasu'r rheolau ar gyfer adhawlio costau teithio. Yn weithredol o'r 1 Gorffennaf 2018 ymlaen, caiff swyddogion (gan gynnwys GwE) ond hawlio ad-daliad am y nifer o filltiroedd busnes a deithir uwchben y nifer o filltiroedd a deithir rhwng y cartref a'r man gwaith arferol. Mynegir yn y Polisi Teithio a Chynhالياeth; "*Os yw taith fusnes yn dechrau ac yn gorffen yng nghartref yr unigolyn, yna dylid tynnu'r nifer milltiroedd a deithir yn ôl ac ymlaen i'r ganolfan waith arferol allan o'r cyfanswm sy'n cael eu hawlio.*" Bwriad y newid yn y Polisi yma yw arbed arian, ond gwelwyd fod gwariant GwE ar god gwariant 2GWR 2710 (lwfansau ceir cyffredinol, llai costau trên) wedi cynyddu rhwng 2017/18 a 2018/19. Mae cyfrifon alldro GwE yn dangos lleihad yng nghostau teithio sy'n cael ei ariannu o'r gyllideb craidd yn unig, h.y. gwaith craidd y gwasanaeth o wella ysgolion ar rhan y 6 awdurdod lleol o £123,391 yn 2017/18 i £122,416 yn 2018/19. Yn ôl GwE, mae cynnydd wedi bod yng nghostau teithio'r gwasanaeth ar y gwaith ehangach, h.y. oherwydd gofynion y grantiau gan Llwyodraeth Cymru yn benodol yn ystod y cyfnod sylweddol yma o ddiwygio addysg yng Nghymru.
- 5.6 Yn dilyn trafodaethau rhwng GwE a'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, cytunwyd i adolygu lleoliadau gwaith pob aelod staff GwE, a hynny yn weithredol o'r 1 Gorffennaf 2018. Gwelwyd fod nifer o'r staff wedi dymuno newid lleoliad gwaith, a hynny i'r swyddfeydd sydd agosaf i'w cartrefi. Nid oes modd diystyru'r ffaith gall hyn fod wedi digwydd mewn ymateb i'r newid yn y Polisi a'r effaith caiff hyn ar gostau teithio'r swyddogion, yn hytrach nag am resymau ymarferol i GwE. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith bod ceisiadau costau teithio'r swyddogion yn awgrymu nad oes newid wedi bod o ran eu trefniadau gweithio, ond wrth reswm mae'r newidiadau wedi cael effaith ar gostau teithio'r swyddogion drwy leihau'r elfen rhaid iddynt dynnu o bob hawliad, yn ogystal â galluogi'r swyddogion i hawlio costau am deithio tu hwnt i'w lleoliadau swyddogol newydd.
- 5.7 Mae natur gwaith GwE yn golygu bod elfen fawr iawn o deithio ynghlwm â'r gwaith, gan gynnwys ymweliadau rheolaidd i ysgolion gwahanol, neu i'r amryw o swyddfeydd sydd ar draws y Gogledd. Mae'r swyddogion bellach gyda'r hawl i hawlio costau teithio am unrhyw daith sy'n fwy na'r pellter rhwng eu cartref a'u man gwaith swyddogol, sy'n golygu gall swyddogion hawlio costau teithio i fynd i'w man gwaith 'arferol', sydd ddim

o reidrwydd eu man gwaith swyddogol. Gan fod gan GwE fynediad at nifer o swyddfeydd, mae'n bosib i staff weithio yn y swyddfeydd sydd agosach i'w cartrefi o bryd i'w gilydd drwy drefniant 'hot desk'. Mae trefniant o'r fath o fudd i GwE a'r swyddogion, ond nid oes angen newid eu lleoliad gwaith swyddogol i gyflawni hyn.

- 5.8 Ymysg y trafodaethau i newid lleoliadau gwaith swyddogol, darganfuwyd fod GwE wedi ceisio symud rhai staff i lleoliadau 'virtual', gan nad oedd ganddynt swyddfeydd yn y lleoliadau oedd y staff yn dymuno symud iddynt. Defnyddiwyd cyfleusterau 'hot desk' yn y lleoliadau fel man gwaith swyddogol yn y diwedd gan fod angen cael man gwaith ffisegol. Eto caiff hyn yr effaith o alluogi'r swyddog i hawlio costau teithio (ac amser, os yn berthnasol i delerau'r swydd) am unrhyw daith sydd yn fwy na'r pellter o'r cartref i'r man gwaith swyddogol yma.
- 5.9 Wrth wirio hawliadau costau teithio'r swyddogion, ymddengys bod y rhai sydd wedi newid lleoliad gwaith swyddogol wedi cael budd ariannol, boed drwy hawlio am y teithiau maent yn gwneud i'w lleoliadau gwaith arferol, neu drwy leihau'r golled sydd ynghlwm â'r pellter rhwng y cartref a'r man gwaith swyddogol - neu gyfuniad o'r ddau.
- 5.10 Nodir Polisi Gwerth am Arian GwE "*Mae Gwerth am Arian yn derm a ddefnyddir i asesu p'un a yw sefydliad wedi cael y budd gorau neu beidio o'r gwasanaethau y mae'n eu sicrhau a'u darparu, a hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael... Mae cyflawni Gwerth am Arian yn cael ei ddisgrifio yn aml yn nhermau'r 'tair E' - economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:*
- (i) *economi - lleihau cost yr adnoddau ar gyfer gweithgaredd ('gwneud pethau am bris is');*
 - (ii) *effeithlonrwydd - perfformio tasgau gydag ymdrech rhesymol ('gwneud pethau y ffordd gywir');* ac
 - (iii) *effeithiolrwydd - i ba raddau y bodlonir amcanion ('gwneud y pethau iawn').*
- ...Mae rhaid i Werth am Arian fod yn ran naturiol o'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws GwE. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gynllunio neu adolygu gweithgareddau sydd â goblygiadau ariannol sylweddol... Bydd rhaid bodloni'r Bwrdd Ansawdd Busnes yr eir i'r afael yn ddigonol â materion Gwerth am Arian a bod y prif feysydd gwariant, gan gynnwys costau staff, yn cael eu craffu yn briodol."* Gan fod goblygiadau ariannol ynghlwm â symud lleoliadau gwaith gweithwyr, credir ei fod yn rhesymol bod achos busnes mewn lle i gyfiawnhau y newidiadau ac i amlygu y buddion i GwE sy'n deillio o'r trefniadau arfaethedig. Lluniwyd adroddiad i'r cyd-bwyllgor GwE ar y 22 Mai 2019 gyda'r bwriad o gyflwyno, a chymeradwyo lleoliadau gwaith staff. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn crybwyll y ffaith bod lleoliadau gwaith wedi newid, nac y goblygiadau ariannol o hynny. Yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro, ni gyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyd-Bwyllgor gan mai mater rheolaethol yw newid amodau gwaith unigol, a gan bod y newidiadu eisoes yn weithredol ers 1 Gorffennaf 2018.
- 5.11 Mae Polisi Gwerth am Arian GwE hefyd yn nodi "*er mai prif bwrpas archwilio mewnol yw asesu'r system reoli fewnol, mae'r archwilwyr mewnol mewn lle da yn aml i asesu Gwerth am Arian a chynnig sylwadau yn y meysydd a adolygir"*. I'r perwyl yma, nid oes modd i Archwilio Mewnol roi sicrwydd bod ystyriaeth wedi ei roi i gael gwerth am arian wrth newid lleoliadau gwaith.

6. Camau Gweithredu

Mae GwE wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Atgoffa rheolwyr i wirio hawliadau costau teithio.**

UNED DIOGELWCH FFYRDD AMGYLCHEDD

1. Cefndir

- 1.1 Uned o fewn yr adran Amgylchedd yw Diogelwch Ffyrdd. Mae tudalen Facebook yr Uned yn nodi: 'Mae Uned Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd yn cynnig hyfforddiant o bob math i bob oedran ar draws Gwynedd. Uchelgais yr Uned yw lleihau'r nifer o bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Gwynedd.'

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle a sicrhau bod gwasanaethau'r Uned Diogelwch Ffyrdd yn cael eu cyflawni'n briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu trefniadau hybu gwasanaethau'r uned, derbyn a gweithredu ar geisiadau ac ymholiadau am wasanaeth a delio â chwynion diogelwch ffyrdd ac adolygu trefniadau monitro perfformiad y gwasanaeth/cyflwyno ystadegau lleol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwiriwyd sampl o daliadau wnaethpwyd gan yr Uned i hyfforddwyr gyrru a chwmnïau eraill perthnasol. Roedd y taliadau wiriwyd wedi eu trin yn briodol ac yn amserol.
- 5.2 Derbyniwyd ystadegau ar ymweliadau ysgolion gan yr Uned. Roedd yr ystadegau'n dangos bod 44 o'r 44 ysgol wiriwyd wedi derbyn ymweliad o fewn y flwyddyn addysgol 19/20. Mae'r Uned Diogelwch Ffyrdd yn adrodd ar eu perfformiad pob 3 mis. Gwelwyd bod y mesur perfformiad a'r dull adrodd yn ddigonol.
- 5.3 Mae gan Uned Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd dudalen Facebook eu hunain (<https://www.facebook.com/pg/Diogelwch-Ffyrdd-Gwynedd-Road-Safety-345094455627034/posts/>).

Mae tudalen Facebook Uned Diogelwch Ffyrdd Gwynedd yn cael ei diweddarau yn aml. Roedd gwybodaeth am wahanol swyddogaethau'r Uned ar y dudalen Facebook. Roedd gwefan arall yn un o ganlyniadau uchaf pan fewnbynwyd 'Diogelwch Ffyrdd Gwynedd' i beiriant chwilio megis Google (<http://www.dffgwyneddmon.net/index.php?cid=373>). Trafodwyd gyda staff yr Uned ac eglurwyd i'r Archwiliwr nad oedd y wefan yn cael ei diweddarau mwyach. O ganlyniad, roedd llawer o wybodaeth oedd wedi dyddio ar y wefan. O dan adran 'newyddion' y wefan, gwelwyd bod y darn o newyddion diweddaraf wedi ei ddyddio 20/12/2018. Rhestrir gweithdai gall ymwelwyr i'r wefan 'archebu lle' arnynt gyda dyddiadau o 2014. Ni ddylai'r wefan fod ar gael i'r cyhoedd os nad yw'n cael ei diweddarau.

- 5.4 Mae atodiad B polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor yn nodi: 'Dylai unrhyw un sy'n ystyried cynnal ymgyrch drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gysylltu â'r Uned Gyfathrebu am arweiniad yn y lle cyntaf.' Derbyniwyd rhestr gan y Swyddog Gyfathrebu – Y Wasg/Hyrwyddo Gwasanaethau o dudalennau cyfryngau cymdeithasol sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Uned Gyfathrebu. Roedd tudalen Facebook Uned Diogelwch Ffyrdd wedi'i rhestru yma a gwelwyd bod y cais atodol wedi ei gwblhau'n briodol.
- 5.5 Mae swyddogion croesi ar gyfer ysgolion yn ran o Uned Diogelwch Ffyrdd y Cyngor. Gwiriwyd statws DBS sampl o Groeswyr. Gwelwyd bod 10 allan o'r 10 oedd yn y sampl yn meddu tystysgrif DBS dilys wedi'i wobrwyo o fewn y 3 mlynedd diwethaf. Roedd tystysgrif DBS un unigolyn yn terfynu Mis Mawrth 2020 a gwelwyd bod camau cychwynnol wedi eu cymryd i gael tystysgrif DBS newydd. Maent yn derbyn hyfforddiant mewnol o fewn yr Uned. Nid oes cofnod o hyn yn cael ei gadw sy'n cynyddu'r risg bod Croeswyr yn gweithio heb dderbyn yr hyfforddiant diweddaraf.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Cydlynnydd Croeswyr ifanc, Cymhorthydd Cefnogol a Thechnegol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Rhwystro hen wefan Diogelwch Ffyrdd Gwynedd rhag bod yn weledol i'r cyhoedd gyda chymorth yr adran TG.
- Cadw cofnod parhaus o hyfforddiant swyddogion croesi.

CYSONI BANC CYLLID

1. Cefndir

1.1 Cysoni banc yw'r broses o baru'r balansau yng nghofnodion ariannol y Cyngor gyda'r wybodaeth gyfatebol ar ddatganiadau banc. Nôd y broses hon yw canfod ac adnabod y gwahaniaethau rhwng y ddau. Dylid cwblhau cysoniad banc yn rheolaidd ar gyfer pob cyfrif banc, er mwyn sicrhau bod cofnodion ariannol y Cyngor yn gywir.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod cysoniadau banc yn cael eu cwblhau mewn dull priodol ac effeithiol. Roedd yr archwiliad yn adolygu'r gweithdrefnau sydd mewn lle yn ogystal a gwirio dogfennaeth a chofnodion sampl o gysoniadau banc sydd wedi eu cwblhau yn ddiweddar.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae'r Adran Gyllid wedi mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer paratoi cysoniadau banc, gyda gwahanol swyddogion yn gyfrifol am wahanol gyfrifon. Mae'r trefniant yma o gynnal y gwahanol gysoniadau; dyddiol, misol a chwarterol, wedi bod mewn lle ers peth amser ac yn cael eu cynnal gan swyddogion profiadol. Fodd bynnag, wrth drafod trefniadau dirprwyo, darganfuwyd nad oes trefniant swyddogol mewn lle ar gyfer cynnal y cysoniadau petai'r swyddogion arferol ddim yn eu gwaith. Ar gyfer absenoldeb tymor byr fel salwch neu wyliau, bydd y gwaith yn cael ei chynnal gan y swyddogion arferol wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Ar gyfer absenoldeb tymor hir, credir bydd cyd-weithwyr yn gallu cyflawni'r cysoni, ond nid oes trefniadau pendant mewn lle sy'n creu'r risg o fethiant i gynnal y cysoniadau mewn amgylchiadau o'r fath. Gwelwyd nodyn yn ffeil yr Uned Cyfrifeg ar gyfer mis Awst 2019 yn esbonio na wnaed y cysoniad oherwydd gwyliau.

- 5.2 Nid yw'r weithdrefn o gynnal cysoniadau wedi newid llawer dros y blynyddoedd, ac mae'r swyddogion sydd ynghlwm a'r gwaith yn ymwybodol o'u dyletswyddau. Fodd bynnag, darganfuwyd nad oedd cyfrif newydd Byw'n Iach Cyf. wedi cael ei gysoni ers sefydlu'r cwmni, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb i'w cysoni.
- 5.3 Mae nifer o ganllawiau ar gael sy'n egluro'r amryw adroddiadau a ddefnyddir i baratoi cysoniadau banc. Gan nad oes proses swyddogol i ddirprwyo gwaith mewn cyfnod o absenoldeb mae'n bwysig bod y canllawiau yn gyfredol ac yn disgrifio'r broses gam wrth gam fel y gall swyddog arall gyflawni'r gwaith lle bo'r angen. Mae'n fwriad gan y gwahanol wasanaethau o fewn Cyllid i ddiweddarau eu canllawiau i'r perwyl hyn. Daeth i'r amlwg yn ystod yr archwiliad bod swyddogaethau helaeth gan y Swyddog Incwm o ran paratoi dogfennau amrywiol ar gyfer cysoni a gwirio incwm y Cyngor. Cadarnhawyd bod dogfen amlinellol ar gael yn y Gwasanaeth Incwm sy'n rhoi disgrifiad o drefniadau'r Swyddog Incwm, ond byddai ehangu ar y ddogfen gyfredol yn rhoi hyder bod swyddog dirprwyol yn gwbl gyfarwydd gyda'r anghenion mewn cyfnod o absenoldeb y cysonwr arferol e.e. enghraifft o'r taenlenni pwrpasol, eu henwau a'u lleoliad, sut i baratoi'r adroddiadau penodol.
- 5.4 Mae'r Gwasanaeth Cyfrifeg a'r Gwasanaeth Incwm yn gwneud defnydd o iGwynedd ac yn cynnig mynediad i'r ddogfennaeth berthnasol i'r holl swyddogion angenrheidiol petai angen dirprwyo gwaith, yn ogystal â chadw ffeiliau papur. Fodd bynnag mae'r Swyddog Incwm yn ymwybodol fod angen addasu'r taenlenni o safbwynt cywiro/dileu/ychwanegu dyddiadau, colofnau a fformiwlâu er mwyn hwyluso'r broses i swyddog petai angen dirprwyo yn y dyfodol.
- 5.5 Caiff y mwyafrif o waith cysoni incwm ei gyflawni yn ddyddiol, gyda chysoniad misol yn cadarnhau cywirdeb y gwaith dyddiol. O ran yr Uwch Dechnegydd Rheolaeth caiff 3 o'r cyfrifon eu cysoni yn fisol yn ogystal â chysoniad cyfansawdd chwarterol. Er mwyn hwyluso'r gwaith cysoni, ac er mwyn datrys anghysondebau, cyflawnir rhai o'r tasgau perthnasol yn ddyddiol ac eraill oddeutu pob 10 diwrnod. Gwelwyd tystiolaeth fod y gwaith o gyflawni'r cysoniad cyfansawdd chwarterol yn cael ei wneud yn amserol gan yr Uwch Dechnegydd Rheolaeth a bod y gwaith yn cael ei wirio a'i awdurdodi gan y Cyfrifydd Grŵp. Yn yr un modd gwelir tystiolaeth fod gwaith cysoni'r Swyddog Incwm wedi cael ei wirio gan y Rheolwr Incwm a'i awdurdodi gan y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.
- 5.6 Gwiriwyd cysoniadau banc yr Uned Cyfrifeg a'r Gwasanaeth Incwm am fisoedd Medi, Rhagfyr 2019 ac Ionawr 2020. Arsylwyd y Swyddog Incwm yn cynnal cysoniad diwrnod yn ogystal a cysoniad misol mis Ionawr 2020. Ar amser yr archwiliad, ni lwyddwyd i gysoni mis Ionawr 2020.
- 5.7 Gwelwyd o waith cysoni misol y Gwasanaeth Incwm fod nifer fawr o addasiadau hanesyddol sy'n deillio o amser cyn y Swyddog Incwm presennol ac fe gaiff y rhain eu cario o un mis i'r llall ar gyfer pwrpas cysoni. Gwelir gall y broses cysoni misol fod yn gymhleth, ac er gwaethaf y cysoniadau dyddiol sydd yn cael eu cynnal, gall anghysondebau godi yn y misol sy'n waith llafurus i'w ddatrys. Ymddengys nad yw'r gwaith dyddiol presennol yn dileu'r risg o anghysondebau yn y gwaith misol. Ymddengys nad oes trefn o ddileu neu gywiro'r tan/gôr fancio cronus sydd heb glirio ac nid oedd esboniad i'w weld am yr achos craidd ar gyfer y gwahaniaethau hyn sy'n golygu fod y daenlen yn aneglur i ddefnyddwyr lleyg, a gall unrhyw gamgymeriad ogwyddo'r gwaith cysoni misol yn ei gyfanrwydd.

5.8 Wrth gysoni yn fisol gwelwyd esiampl o'r taliadau cardiau debyd, gyda'r cyfanswm cyfriflyfr yn £11 a'r swm dalwyd i mewn i'r banc yn £8. Does dim trefn o gywiro hyn ac felly caiff ei roi dan y pennawd addasiadau eraill, er bod ymwybyddiaeth bod posib na wnaiff y gwahaniaeth hwn o £3 gael ei ddarganfod.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Adran Gyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod trefniadau parhad busnes yn briodol drwy sefydlu trefniadau dirprwyo priodol a diweddarau canllawiau i alluogi'r dirprwy i gyflawni'r gwaith cysoni.**
- **Adolygu y broses cysoni dyddiol er mwyn lliniaru y risg o anghysondebau misol.**

BUDD-DALIADAU – ADOLYGIAD O’R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL CYLLID

1. Cefndir

- 1.1 Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Mai 2018 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu, lle’n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn “system ariannol bwysig” ac felly cynhelir adolygiad ar reolaethau allweddol y system yma yn flynyddol.
- 1.2 Bydd y Gwasanaeth Budd-dal yn prosesu ceisiadau am fudd-dal tai a gostyngiad treth cyngor pan fydd ymgeisydd yn cyflwyno cais i hawlio budd-dal tai a/neu ostyngiad treth cyngor ynghyd â thystiolaeth briodol, gan gynnwys cadarnhad ei bod yn fyr o incwm a methu fforddio rhent a/neu gost y dreth cyngor.
- 1.3 Ers y 12 Rhagfyr 2018, mae Gwynedd yn ardal wasanaeth Credyd Cynhwysol Llawn. Mae Credyd Cynhwysol yn cymryd lle chwech o fudd-daliadau sef Budd-dal Tai, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Lwfans Ceisio Gwaith. Mae’r holl geisiadau o dan y Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn parhau i gael eu gweinyddu gan y Gwasanaeth Budd-dal.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau budd-dal, bod y system budd-dal yn cyfrifo symiau budd-daliadau’n gywir ac fe’u telir yn amserol drwy wirio sampl o geisiadau budd-dal ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Roedd yr archwiliad hefyd yn cadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal, adolygu trefniadau rheoli perfformiad yr uned a gwirio bod trefniadau diogelu data digonol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu’r System Budd-daliadau.
- 4.1.1 Detholwyd ar hap sampl o 30 o geisiadau newydd o’r adroddiad ‘hb7243a’ a gwelwyd bod tystiolaeth briodol wedi ei dderbyn ar gyfer pob cais a bod y dystiolaeth yn unol â pholisi gwireddu ar sail risg. Yn ogystal gwiriwyd sampl o 15 o daliadau estynedig a cheisiadau ôl-ddyddiedig a gwelwyd eu bod yn unol â’r rheoliadau cyfredol.
- 4.1.2 Gwelwyd bod cysoniadau o’r budd-daliadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwiriwyd taenlenni cysoni misoedd Ebrill, Awst a Rhagfyr 2019 a phrofwyd bod y system yn cyd-fynd â’r hyn a dalwyd allan.

**ARCHEBU A DEFNYDDIO FFURFLENNI P6
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT / PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

1. Cefndir

1.1 Defnyddir y ffurflenni P6 ar gyfer unrhyw wariant o fewn yr adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Phlant a Chefnogi Teuluoedd, boed ar gyfer codi archebion, talu anfonebau neu ar gyfer mân wariant. Derbyniwyd cais i adolygu'r drefn o ddefnyddio'r ffurflenni P6 gan ystyried os yw'n angenrheidiol neu yn dyblygu gwaith yn ddiangen.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau gweinyddol addas mewn lle o fewn yr adrannau ar gyfer codi archebion a thalu anfonebau boed yn nwyddau neu'n wasanaethau, yn ogystal â gweinyddu taliadau arian mân. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio priodoldeb y trefniadau archebu o fewn y gwasanaethau gan ddethol sampl o archebion er mwyn sicrhau fod y trefniadau yn addas i bwrpas. Roedd yr archwiliad hefyd yn cwmpasu adolygu gweinyddiaeth taliadau arian mân a'r cynlluniau arfaethedig o fewn yr adrannau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Mae'r drefn o ddefnyddio ffurflenni P6 wedi ei gyflwyno ers cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 ac yn arferiad o fewn yr adrannau lle mae'r holl staff yn ymwybodol ohono. Daeth y drefn i rym yn wreiddiol o ganlyniad i orwario sylweddol ac i sicrhau bod rheolau ariannol y Cyngor yn cael eu dilyn er mwyn cysondeb a chywirdeb wrth archebu nwyddau/gwasanaethau a thalu gan ddefnyddio'r cyllidebau cywir.

4.1.1 Mae'r ffurflen P6 yn gweithredu fel ffurflen codi archeb swyddogol o lyfr archeb ac yn cynnwys yr un manylion, yn ogystal â manylion pellach sy'n berthnasol i'r adrannau yn ddibynnol ar y math o archeb neu daliad sydd angen. Yn ei habsenoldeb, mae'n bosib y byddai'r Tîm Cyllid Oedolion a Plant yn derbyn ceisiadau i godi archebion heb y wybodaeth angenrheidiol.

4.1.2 Mae'r ffurflen P6 yn cael ei harwyddo gan reolwr sydd â hawl i godi archebion ac/neu yn gyfrifol am gyllideb. O ganlyniad mae'r ffurflen yn gweithredu fel awdurdod i'r Tîm Cyllid Oedolion a Plant i gwblhau archebion a thalu anfonebau. Mae derbyn ffurflen P6 yn electronig dros e-bost hefyd yn dderbyniol ac yn gweithredu fel awdurdod os mai'r swyddog cyfrifol sy'n anfon yr e-bost. Os nad yw'r ffurflenni P6 wedi eu cwblhau yn ddigonol gyda'r manylion angenrheidiol, ni fydd yr archeb/taliad yn cael eu prosesu gan y staff gweinyddol sydd yn sicrhau trywydd archwilio cyflawn ar gyfer pob archeb/anfoneb.

- 4.1.3 Mae defnydd cywir o'r ffurflen wrth godi archebion yn sicrhau fod archebion yn cael eu cwblhau a'u codi yn ganolog ac o ganlyniad bod yr anfonebau yn cael eu derbyn yn ganolog gan y Tîm Cyllid Oedolion a Plant. Oherwydd bod y ffurflen P6 eisoes wedi ei hawdurdodi, mae'r Tîm Cyllid Oedolion a Plant yn gallu talu'r anfoneb gyda'r rhif cyfrif ar gyfer y gyllideb gywir heb oedi a heb yr angen i geisio cysylltu â'r sawl sy'n gyfrifol am yr archeb ac/neu'r gyllideb. Mae hyn yn arbed amser gan alluogi i anfonebau gael eu talu yn brydlon gan wella perfformiad talu anfonebau'r adrannau. Mae'r drefn hefyd yn osgoi'r posibilrwydd o anfonebau sydd angen eu talu yn aros ar ddesg gweithwyr sydd ddim yn ymweld â'r swyddfa yn aml nac ar sail reolaidd.
- 4.1.4 Mae'r drefn P6 hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer archebion electronig lle caiff yr archeb ei chodi'n swyddogol yn ganolog. Bydd y drefn P6 yn cael ei hymgorffori o fewn y system Care Director (WCCIS)1 a ddefnyddir gan wasanaethau cymdeithasol a gofal y Cyngor. Pan ddaw'r drefn yma'n weithredol, bydd yn galluogi i'r broses archebu fod yn gwbl ddi-bapur.
- 4.1.5 Mae'r Tîm Cyllid Oedolion a Plant, yn ogystal â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r farn bod y ffurflenni P6 yn ddefnyddiol. Fel sy'n wir am bob proses, dylai'r swyddogion perthnasol adolygu'r trefniadau yn barhaus gan sicrhau nad oes elfen o ddyblygu a bod y trefniadau yn cyd-fynd ag egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy sicrhau bod unrhyw gamau gwag yn cael eu hadnabod.

GORAMSER CORFFORAETHOL

1. Cefndir

1.1 Yn dilyn achosion Llys diweddar, mae pryder bydd deddf newydd yn dod i rym a fuasai'n golygu cynnydd yn y gwariant ar oramsr. Byddai'r ddeddf yn rhoi hawl i bob gweithiwr sy'n derbyn taliadau am oramsr gwirfoddol yn rheolaidd i dderbyn elfen o oramsr yn eu tâl gwyliau hefyd. Mae'r adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhagweld bydd angen clustnodi £193,000 yn ychwanegol i'w cyllideb ar gyfer 2020-21 i gwrdd â hyn. O ganlyniad bu cais gan y Pennaeth Adran i edrych ar reolaeth taliadau Goramsr o fewn yr adran yma yn benodol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i sicrhau fod taliadau goramsr yn cael eu talu ar y gyfradd gywir a'u bod yn briodol. Roedd yr archwiliad yn edrych yn benodol ar yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gais y Pennaeth Adran. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu edrych ar fanylion trafodion o'r cyfriflyfr a dethol sampl o daliadau o wahanol wasanaethau a lleoliadau gwaith o fewn yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	4
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod taliadau am oramsr gwirfoddol ar draws pob gwasanaeth o fewn yr adran ac mae goblygiadau unrhyw reolau neu ddeddf newydd yn golygu nad yw'n gynaliadwy i barhau â thaliadau goramsr ar yr un gyfradd. Mae'r adran eisoes wedi adnabod hyn ac yn y broses o adnabod cyfleoedd i addasu strwythurau staff a dulliau gweithredu.

- 5.1.1 Mae nifer o wasanaethau lle mae taliadau goramser yn anorfod. Mae gwaith cynnal a chadw ar ffyrdd prysur yn cael ei gynnal gyda'r nos i leihau'r effaith ar draffig yn ogystal â iechyd a diogelwch y gweithlu. Mae ymateb i ddamweiniau ar y priffyrdd yn ogystal â graeanu gyda'r nos yn weithgareddau tu allan i oriau gwaith arferol lle gweithredu drwy goramser yw'r ffordd mwyaf effeithiol i dalu'r gweithlu ym marn y rheolwyr gan nad oes posibil rhaglennu ar eu cyfer. Mae gwaith megis ail wynebu ffyrdd hefyd yn waith lle mae angen ei gwblhau yr un diwrnod ac yn aml nid yw hyd sifft arferol yn ddigonol. Mae'n fwy effeithlon i barhau i weithio ar gyfradd goramser yn hytrach na cheisio ail sefydlu ac ail gychwyn ar y diwrnod canlynol, mae natur deunyddiau megis 'tarmac' a'r angen i osgoi gwastraff hefyd yn berthnasol.
- 5.1.2 Mae gwariant ar oramser yn uchel iawn mewn gwasanaethau bwrdeistrefol megis casgliadau sbwriel ac ailgylchu. Telir goramser er mwyn ymdopi â'r amser a gollir wrth i gerbydau dorri lawr, methiant i gwblhau'r dasg o fewn yr oriau gwaith ond hefyd ar gyfer casgliadau wedi eu methu. Nid yw'n ymarferol i ddadlau â thrigolion ynglŷn â methu casgliadau a thelir goramser i weithiwy'r ddychwelyd i'w casglu. Golyga natur y sifftiau 12.33 awr bod y gweithlu yn amrywio eu cylchdeithiau ar bob sifft a dim o reidrwydd yn casglu sbwriel/ailgylchu o'r un llefydd. Mae'r adran yn gobeithio bydd dychwelyd i sifftiau wythnosol yn rhoi fwy o gysondeb o ran yr amseroedd casglu i'r trigolion ac yn cynyddu ymwybyddiaeth y gweithlu a pha mor gyfarwydd ydynt â'r lleoliadau a'r casgliadau 'drws cefn'. Bydd angen ystyried yr adnoddau a'r gyllideb yn ofalus wrth drawsnewid, er mwyn gwella'r rheolaeth ar wariant goramser.
- 5.1.3 Mae'r drefn i ddychwelyd i ddiwrnod gwaith arferol o 7.5/7 awr eisoes wedi cychwyn yn Nwyfor ers Gorffennaf 2019 ac yn Arfon ers mis Tachwedd 2019 gyda Meirionnydd i ddilyn yn 2020. Yn ogystal mae'r adran wedi trafod gyda'r undebau er mwyn gwaredu'r drefn 'tasg a gorffen'. Y bwriad yw lleihau'r oriau di-gynnyrch ymysg y gweithlu, lleihau'r taliadau goramser am waith ychwanegol i'r dasg arferol a lleihau'r cymhelliant i ruthro sy'n cyfrannu at anafiadau ac absenoldebau salwch. Gwelwyd patrwm amlwg rhwng absenoldebau salwch a'r gwasanaethau lle mae'r gwariant uchaf ar oramser sef Casglu Sbwriel ac Ailgylchu, Glanhau Strydoedd a Safleoedd Gwastraff. Mae cyfran uchel o'r goramser er mwyn ymdopi â'r diffyg staff a sicrhau parhad gwasanaeth cyflawn.
- 5.1.4 Mae'r 'Rheoliadau Amser Gwaith' (1998) yn gyfraith sy'n atal cyflogwyr rhag gorfodi gweithwyr i weithio tu hwnt i gyfartaledd o 48 awr yr wythnos dros gyfnod o 17 wythnos. Nid yw gwaith gwirfoddol megis goramser gwirfoddol yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiad yma ac mae'n ofynnol i gyflogwyr gadw tystiolaeth pan mae gweithwyr yn arwyddo taflen i gadarnhau eu bod yn dewis eithrio o'r rheol. Mae nifer o weithwyr yn gweithio mewn nifer o swyddi sydd erbyn hyn ar draws nifer o adrannau. Mae'r cyfanswm oriau maent yn gofnodi pob mis yn uchel a thu hwnt i'r 48 awr ac mae angen edrych os oes gweithwyr sydd angen eithrio o'r rheol.
- 5.1.5 Mae'r cyfradd talu yn amrywio rhwng gwasanaethau ag ardaloedd. Gwelwyd bod goramser mewn rhai ardaloedd yn bennaf ar gyfradd sylfaenol tra fod ardaloedd eraill yn talu y rhan helaeth ar gyfradd amser a hanner. Ymddengys bod gwaith tu hwnt i oriau sylfaenol ar raddfa amser a hanner tra fod y cyfradd sylfaenol yn cael ei dalu ar gyfer sifftiau ychwanegol er mwyn cyflenwi staff sy'n absennol. Yn ôl y polisïau perthnasol nid yw swyddogion ar gyflog sydd ar raddfa 23 ag uwch i fod i dderbyn taliadau goramser ar gyfradd amser a hanner ond gwelwyd sawl engraifft o hyn.

Mae canllawiau yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn nodi bod goramser cynlluniedig i'w dalu ar gyfradd amser a hanner tra bod goramser heb ei gynllunio i'w dalu ar gyfradd sylfaenol. Mae hyn wedi bod yn destun sawl trafodaeth heb ddiwedd glo pendant na arweiniad penodol oherwydd y gwahaniaeth yn natur y gwaith a'r amgylchiadau mewn gwahanol adrannau. Mae'r adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn y broses o edrych ar y polisi er mwyn cyhoeddi newidiadau sy'n fwy priodol ag addas.

- 5.1.6 Yn ogystal â newid trefniadau gwaith yn y maesydd Sbwriel ac Ailgylchu mae'r adran yn mynd drwy'r broses o ail strwythuro ers penodi Pennaeth newydd er mwyn i'r unedau Priffyrdd, Bwrdeistrefol a Chomisiynu weithredu yn fwy cyson. Mae'r adran yn bwriadu ail edrych ar strwythur gwaith a staffio gwasanaethau eraill o fewn yr adran er mwyn eu haddasu gyda'r bwriad i leihau'r gwariant ar oramser. Mae treialon llwyddiannus eisoes wedi eu cynnal mewn rhai gwasanaethau megis Safle Gwastraff Meirionnydd lle mae'r penwythnos yn rhan o'r wythnos waith arferol ond mae'r adran yn gweithredu'n ofalus oherwydd yr angen i ystyried natur y gwaith mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd cyn penderfynu ar strwythur ymarferol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Cefnogaeth Gorfforaethol wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Llunio Polisi cyfredol ar gyfer cyfradd a thaliadau goramser.**
- **Monitro'r strwythurau gwaith a'r drefn sifftiau newydd Casglu Sbwriel ac Ailgylchu ac addasu'r cylchdeithiau a'r lefel staffio fel yr angen.**
- **Trefnu patrymau sifftiau sy'n fwy addas i natur y gwaith gan ystyried newid o drefn draddodiadol Llun i Gwener.**
- **Cydweithio â'r gwasanaeth Iechyd a Diogelwch a llunio rhaglen hyfforddiant sy'n blaenoriaethu lles y gweithlu gyda'r bwriad i leihau anafiadau ag absenoldebau salwch.**
- **Monitro'r gweithwyr sydd yn gweithio tu hwnt i 48 o oriau gwaith wythnosol yn gyson a chysidro'r angen iddynt eithrio allan o'r rheoliadau.**

RHAGLEN WAITH PONTYDD PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

1. Cefndir

1.1 Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn rheoli ac yn llunio Rhaglen Waith Pontydd ar ran yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae'r rhaglen yn cynnwys pob strwythur megis pontydd, waliau cynnal a chwiferi sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn gyfrifoldeb ar y Cyngor i'w cynnal a'u cadw. Mae YGC yn cadw cofnod o'r holl strwythurau yma ac yn gweithredu ar raglen archwilio barhaus ar y pontydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y gofynion a'r safon angenrheidiol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas yn bodoli er mwyn cynnal archwiliadau ar bontydd sydd o dan ofal Cyngor Gwynedd a bod trefn addas ar gyfer blaenoriaethu unrhyw waith angenrheidiol arnynt a dethol contractwyr. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu edrych ar y drefn o reoli a chynnal y gofrestr asedau, rheoli'r gyllideb a'r drefn o gomisiynu gwaith gan contractwyr.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	1
ISEL	1

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae'r amrywiaeth o waith sydd wedi eu categoreiddio o fewn y 'Rhaglen Waith Pontydd' yn eang iawn. Mae'r gyllideb yn ystyried y gwaith rhaglunedig a chynnal a chadw ond mewn gwirionedd mae digwyddiadau na ragwelir yn golygu nad yw'r gyllideb ar gael i'w defnyddio fel y bwriedir. O ganlyniad mae gwaith yn y tymor byr yn aml yn cael ei ddisodli o ran blaenoriaeth er mwyn arbed adnoddau, gyda goblygiadau o gostau llawer uwch o bosib yn y dyfodol.

5.1.1 Gwelwyd bod YGC yn defnyddio system Bridgestation sy'n eu galluogi i gadw cofnod o bob strwythur a rheoli cynllun archwilio'r pontydd.

Cofnodir manylion perthnasol y pontydd a darganfyddiadau'r archwiliadau yn ogystal â defnyddio dull sgorio sy'n gyson ar gyfer yr holl bontydd. Gwelwyd bod y system yn cynnwys manylion trylwyr yn dilyn archwiliadau gweledol ar y gwahanol elfennau o'r pontydd. Mae hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwaith cynnal a chadw angenrheidiol yn ogystal ag amcanbrisiau ar gyfer y gwaith. Amlygwyd hyn nad oedd y gyllideb yn ddigonol ar gyfer gweithredu ar bob argymhelliad ac yn aml yn golygu mai monitro rhag dirywiad pellach yw'r unig opsiwn ar gyfer gwaith nad yw'n argyfwng.

- 5.1.2 Mae rhai o'r argymhellion yn waith mân ble nad oes angen contractwyr arbenigol ac yn dasgau gellir gweithwyr ffordd Priffyrdd eu cyflawni, er bod hyn yn digwydd yn bresennol nid oes strwythur na rhaglen benodol yn cael eu gweithredu. Yn hytrach mae'r gwaith ar hap ac wedi ei rannu rhwng nifer o wahanol staff sydd yn rhoi elfen o anghysondeb. Byddai yn fanteisiol i ddod i drefn fwy strwythuredig gyda rhaglen waith a staff penodol wedi eu dethol ar gyfer yr elfennau yma.
- 5.1.3 Er bod y gyllideb yn bennaf ar gyfer gwaith archwilio a chynnal a chadw ar strwythurau priffyrdd, mae cyfran uchel o'r gyllideb yn gorfod cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith sylweddol yn dilyn difrod a gwaith argyfwng. Mae achosion llys o ganlyniad i ddigwyddiadau hefyd yn golygu gall arian o'r gyllideb gael ei ddefnyddio ar gyfer talu bargyfreithwyr i gynrychioli'r Cyngor. Mae sawl enghraifft lle ddefnyddir y gyllideb ar gyfer gwaith ymatebol fel hyn yn hytrach na gwaith rhaglunedig a gwaith cynnal a chadw angenrheidiol. Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith sylweddol sydd angen ei gwblhau. Mae hyn yn ymestyn y cyfnod rhwng adnabod diffygion a chwblhau gwaith cynnal a chadw sy'n golygu dirywiad pellach ac o bosib costau llawer uwch yn y pen draw.
- 5.1.4 Mae YGC yn cadw system ar wahân ar gyfer llunio rhaglen waith a chadw cofnod o gynnydd y prosiectau. Er bod bwriad i raglennu gwaith angenrheidiol yn flynyddol yn unol â'r gyllideb, mae gwaith argyfwng o ganlyniad i ddigwyddiadau tu hwnt i reolaeth angen eu blaenoriaethu. O ganlyniad mae rhan helaeth o'r gyllideb flynyddol yn cyfrannu at waith ymatebol yn hytrach na gwelliannau a gwaith adeiladu rhaglunedig. Mae unrhyw waith rhaglunedig yn cael eu llithro ymlaen i raglen y flwyddyn ganlynol.
- 5.1.5 Mae YGC angen gweithredu yn unol â rheolau caffael y Cyngor a'r fframwaith ar gyfer penodi contractwyr ond mae natur ymatebol y gwaith yn cynnwys nifer o brosiectau sy'n argyfyngau ac angen gweithredu arnynt mor fuan â phosib. Mae cydymffurfio â'r telerau yn gallu bod yn rhwystr a all olygu oedi sylweddol cyn gallu cychwyn ar waith. Er mwyn ymdopi â hyn mae achlysuron lle mae YGC wedi dewis penodi contractwyr lleol sydd ar gael i gychwyn y gwaith mor fuan â phosib er mwyn osgoi ymyrraeth a sicrhau parhad i wasanaethau eraill y Cyngor. Nid yw hyn yn ddelfrydol ac er bod y contractwyr a benodir yn rhan o'r fframwaith mae'n ychwanegu elfen o risg i'r Cyngor, fodd bynnag mae hyn yn llawer mwy ymarferol ac yn galluogi i'r Cyngor weithredu yn gynharach er mwyn delio ag argyfyngau a lleihau costau anfuddiol megis rheoli traffig.
- 5.1.6 O ganlyniad i'r uchod mae'r tîm Syrfewyr Meintiau o fewn YGC yn y broses o lunio canllawiau caffael a thendro sydd yn fwy addas i bwrpas ar gyfer y gwaith yma. Maent hefyd yn bwriadu addasu eu system sgorio a phrisio er mwyn sicrhau fod prisiau mwy realistig yn cael eu derbyn gan ddarpar contractwyr yn enwedig cwmnïau bychan. Bydd y fframwaith presennol yn dod i ben yn ystod yr Haf a'r gobaith yw cael trefniadau mewnol mwy effeithlon ar gyfer y fframwaith newydd.

- 5.1.7 Yn bresennol mae YGC yn dilyn rhaglen i archwilio'r pontydd ond nid oes trefniadau ar gyfer archwilio strwythurau eraill megis waliau cynnal sydd hefyd yn hanfodol i strwythurau priffyrdd a ffyrdd Gwynedd. Byddai'n werth ystyried rhaglen i archwilio'r strwythurau hyn yn ogystal â'r pontydd, fodd bynnag byddai angen ystyried yr adnoddau a'r gyllideb sydd ar gael.
- 5.1.8 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu sawl digwyddiad lle'r oedd angen cynnal gwaith argyfwng, sydd wedi golygu defnyddio rhan sylweddol o'r gyllideb. Mae dirywiad pellach mewn nifer o strwythurau yn debygol yn y dyfodol, a gall hyn arwain at gynydd yn y nifer o ddigwyddiadau gyda goblygiadau posib megis cau strwythurau a lonydd a fyddai'n tarfu'n sylweddol ar wasanaethau a bywyd trigolion. Ymddengys bod yna elfen o betruster rhag defnyddio'r gyllideb ar gyfer mân waith cynnal gan fod yna bryder gall digwyddiadau a all achosi difrod sylweddol fod yn debygol. O ganlyniad mae yna gronid o fân waith sydd angen ei gwblhau gyda diffyg adnoddau i weithredu.
- 5.1.9 Nid yw sgôr risg yr archwiliad yn adlewyrchiad o'r prosesau a threfniadau gwaith sydd mewn lle wrth reoli rhaglen waith pontydd. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu'r risgiau sylweddol sy'n deillio o'r cyfyngiadau cyllidebol ar gyfer ymdopi gyda digwyddiadau ac argyfyngau tu hwnt i reolaeth yr adran.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Adran wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Ymchwilio ac adolygu os yw'n ymarferol i gychwyn rhaglen i archwilio waliau cynnal yn ogystal â phontydd.**
- **Ystyried ychwanegu i'r Gofrestr Risg Corfforaethol gan nodi gall methiant i ariannu gwaith cynnal a chadw ar bontydd arwain at ddirywiad sylweddol yng nghyflwr strwythurau a chostau llawer mwy sylweddol yn y dyfodol.**
- **Ystyried llunio rhaglen waith cynnal a chadw strwythuredig yn deillio o archwiliadau'r pontydd gan ddefnyddio adnoddau staff o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.**
- **Llunio a chytuno ar ganllawiau tendro a phenodi contractwyr sydd yn fwy addas i bwrpas ac yn hwyluso'r broses o osod gwaith.**

Eitem 13

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 GORFFENNAF 2020
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2019/2020
PWRPAS YR ADRODDIAD	MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD

1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS

2.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol (2019) yn datgan:

"Mae pob sefydliad llywodraeth leol yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol drwy roi sicrwydd bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol sydd yn ofynnol yn y Safonau yn gwybyddu'r datganiad llywodraethu, ac yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."

2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2019/2020 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

3. SICRWYDD CYFFREDINOL

3.1 Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2019/2020, yn fy marn i, mae gan Gyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyfiawnhad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i gynnal a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod y camau gweithredu cytunedig i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.

3.2 Ystyriaethau

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, ac wedi derbyn sylw y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

4. GWAITH ARCHWILIO

Cynllun Archwilio

4.1 Roedd 49 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2019/2020. Cafodd 45 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2020, sy'n cynrychioli **91.84%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.

4.2 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2019/2020 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

4.3 Ble'n berthnasol, caiff lefel sicrwydd ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau archwiliad mewnol sydd yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg cyfatebol. Mae'r sgôr risgiau cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

LEFEL RISG	SGÔR
UCHEL IAWN	20 - 25
UCHEL	12 - 16
CANOLIG	6 - 10
ISEL	1 - 5

- 4.4 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod:

LEFEL SICRWYDD	DIFFINIAD
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

- 4.5 Nod pob un o'r gweithrediadau cytunedig o fewn yr adroddiadau oedd cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.
- 4.6 O'r 45 aseiniad yng nghynllun archwilio 2019/2020 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y lefelau sicrwydd canlynol:

Lefel Sicrwydd	Nifer Archwiliadau
Uchel	13
Digonol	22
Cyfyngedig	4
Dim Sicrwydd	0
Dim Categori	6
Cyfanswm	45

- 4.7 O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2019/2020 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 77.77% ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel".
- 4.8 Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel "Dim Sicrwydd".
- 4.9 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleiant a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori sicrwydd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol ble'n briodol.
- 4.10 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2019/2020. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol	Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
1 Ebrill 2019 – 4 Hydref 2019	17 Hydref 2019
7 Hydref 2019 – 15 Tachwedd 2019	28 Tachwedd 2019
18 Tachwedd 2019 – 31 Ionawr 2020	13 Chwefror 2020
3 Chwefror 2020 – 31 Mawrth 2020	30 Gorffennaf 2020

Addasiadau i'r Cynllun

- 4.11 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

Gwaith Dilyniant

- 4.12 Allan o'r 88 gweithrediad cytunedig a wnaethpwyd yn 2018/19, roedd gweithrediad derbyniol ar **76.14%** ohonynt erbyn 31 Mawrth 2020, gwelwyd bod cynnydd wedi ei wneud ar 12.5% ac ni dderbyniwyd ymateb ar gyfer 11.36% (4 archwiliad unigol). Bydd y Gwasanaeth yn ail-ymweld â'r rhain yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Gweithgor Gwella Rheolaethau

- 4.13 Parhaodd y Gweithgor Gwella Rheolaethau gyda'i waith o gryfhau trefniadau'r Cyngor i ymateb i adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn trafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Caiff swyddogion eu gwahodd i'r Gweithgor i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa.

5. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

Staffio a Chymwysterau

- 5.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg, sydd yn atebol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio ac un Arweinydd Archwilio cymhwyster CIPFA llawn ac mae gan yr Arweinydd arall gymhwyster llawn ACCA. Mae dwy Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster CIPFA a dau Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster AAT.
- 5.2 Ers 1 Ebrill 2020, 7 aelod llawn amser sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol ac un Uwch Archwiliwr Dros Dro i gyfro mamolaeth ac absenoldeb Uwch Archwiliwr i fynychu Coleg ar gyfer ennill eu cymhwyster proffesiynol.

Y defnydd a wneir o adnoddau staff

5.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos gostyngiad yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd o **913** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 i **681** diwrnod am yr un cyfnod yn 2019/2020, gostyngiad o **232**. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth, cynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn eu trefniadau diwedd blwyddyn ariannol a darparu gwasanaeth archwilio i Byw'n Iach Cyf.
- Roedd y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 18 diwrnod o gymharu â 34 o ddiwrnodau yn 2018/19.
- Roedd y dyddiau a ddefnyddiwyd i gyflawni archwiliadau dilyniant yn 31 diwrnod yn 2019/2020 o gymharu â 50 diwrnod yn 2018/19.

6. PERFFORMIAD ARCHWILIO


6.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2019/2020 fel a ganlyn:

Disgrifiad Mesurydd	Perfformiad 2018/19	Uchelgais 2019/20	Canlyniadau 2019/20
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	96.67%	95%	91.84%
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	88.46%	80%	77.77%
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen (mesur corfforaethol).	94.48%	85%	76.14%
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	-	100%	100%
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	-	85%	72.73%

7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2020/2021

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2020/2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2020. Fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid-19, mae cynllun archwilio mewnol newydd wedi'i ddrafftio a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 30 Gorffennaf 2020.

7.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Mesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/2021 yw:

Mesur	Uchelgais 2020/21	Cyfeiriad Uchelgais
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	95%	Cynnal
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	80%	Cynnal
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	100%	Cynnal
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	85%	

8. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL

8.1 Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 ganlyniad yr hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ynghyd â'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019. Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

9. ARGYMHELLIAD

- 9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2019/2020.



Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20

Enw'r Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
CORFFORAETHOL		
Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	Dim Categori	
Merched mewn Arweinyddiaeth	Uchel	30 Gorffennaf 2020
Costau Teithio Hunan-wasanaeth	Digonol	17 Hydref 2019
Trefniadau Diogelu - Sefydliadau	Digonol	30 Gorffennaf 2020
Diwylliant a Moeseg	Dim Categori	30 Gorffennaf 2020
Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll	Dim Categori	
Genedlaethol	Digonol	30 Gorffennaf 2020
Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	Cyfngedig	13 Chwefror 2020
Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar ac Offer		
Cyfathrebu		
Defnydd a Rheolaeth o Gyfryngau Cymdeithasol	Digonol	17 Hydref 2019
ADDYSG		
Adnoddau		
Grant Datblygu Disgyblion	Digonol	17 Hydref 2019
Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	Uchel	17 Hydref 2019
Grant Addysg Ôl-16	Dim Categori	13 Chwefror 2020
GwE		
GwE - Costau Teithio	Cyfngedig	30 Gorffennaf 2020
Ysgolion		
Penodi a Chostau Athrawon Llanw - Uwchradd	Digonol	13 Chwefror 2020
Cyfrifon Ymddiriedolaeth	Digonol	13 Chwefror 2020
Ysgolion Cyffredinol	Dim Categori	
Ysgol Pendalar	Digonol	13 Chwefror 2020
Ysgol Hafod Lon	Uchel	13 Chwefror 2020
AMGYLCHEDD		
Cynllunio		
Cytundebau Adran 106	Digonol	28 Tachwedd 2019
Trafnidiaeth a Gofal Stryd		
Uned Diogelwch y Ffyrdd	Digonol	30 Gorffennaf 2020
Uned Cefn Gwlad a Mynediad		
Grant AHNE	Uchel	28 Tachwedd 2019
CYLLID		
Ariannol		
System Taliadau- Newid Data Sefydlog	Digonol	17 Hydref 2019
Cyfrifeg		
Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2018-19	Uchel	17 Hydref 2019

Enw'r Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2018-19	Uchel	17 Hydref 2019
Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2018-19	Uchel	17 Hydref 2019
Cysoni Banc	Digonol	30 Gorffennaf 2020
Refeniw		
Rôl Cyngor Gwynedd mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol	Uchel	13 Chwefror 2020
Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	Uchel	30 Gorffennaf 2020
ECONOMI A CHYMUNED		
Adfywio Cymunedol		
Cronfa'r Degwm	Uchel	13 Chwefror 2020
Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau		
Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	Uchel	13 Chwefror 2020
Morwrol a Pharciau Gwledig		
Iechyd a Diogelwch Harbyrau	Digonol	13 Chwefror 2020
Mesurau Diogelwch Parc Padarn	Digonol	13 Chwefror 2020
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT		
Ar draws yr adran		
Defnydd o Ffurflenni P6	Uchel	30 Gorffennaf 2020
Rheoli Absenoldebau	Dim Categori	13 Chwefror 2020
Cefnogi Pobl		
Grant Cefnogi Pobl	Uchel	17 Hydref 2019
Digartrefedd a Thai Cefnogol		
Cynllun Ail-leoli Ffoaduriaid Syria	Digonol	17 Hydref 2019
Costau Gwely a Brecwast	Digonol	28 Tachwedd 2019
Preswyl a Dydd		
Plas Pengwaith	Digonol	13 Chwefror 2020
Bryn Blodau	Digonol	28 Tachwedd 2019
Llys Cadfan	Digonol	13 Chwefror 2020
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD		
Plant a Theuluoedd		
Cyfrifon Clybiau Ieuentid	Digonol	13 Chwefror 2020
Taliadau i Ofalwyr Maeth	Digonol	13 Chwefror 2020
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL		
Ar draws yr adran		
Goramser	Cyfyngedig	30 Gorffennaf 2020
Gwaith Bwrdeistrefol		
Cynnal a Chadw Meysydd Chwarae	Digonol	13 Chwefror 2020
Gwaith Priffyrdd		
Rhaglen Waith - Pontydd	Cyfyngedig	30 Gorffennaf 2020

Crynodeb o nifer yr adaroddiadau ym mhob lefel sicrwydd, Cynllu 2019/2020:

Lefel Sicrwydd	Nifer Archwiliadau
Uchel	13
Digonol	22
Cyfngedig	4
Dim Sicrwydd	0
Dim Categori	6
Cyfanswm	45

Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:

2018/19		2019/2020
2,118	Cyfanswm Dyddiau	2,037
240	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Blynnyddol	241
53	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Statudol	56
293	<i>Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol)</i>	297
1,825	Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael	1,741
	<i>Llai:</i>	
15	Gwyliau Arbennig	10
109	Salwch	117
90	Cyfnod Mamolaeth	232
81	Hyfforddiant Proffesiynol	115
80	Hyfforddiant Swydd	21
1,451	Dyddiau ar gael	1,247
	<i>Llai Amser Di-gynnyrch:</i>	
13	Apwyntiadau Meddygol	13
31	Cofnodi a Rheoli Amser	25
98	Cyfarfodydd a Phwyllgorau	77
8	Cyflwyno Hyfforddiant	4
2	Cynnal Cyfweiliadau	0
46	Gwaith Cefndirol	38
24	Gweinyddiaeth ayb.	13
3	Prosiect iGwynedd	14
4	Pwyllgor Archwilio	5
114	Rheolaeth Archwilio Mewnol	107
2	Rheoli Absenoldebau	2
43	Trafferthion TG	4
4	Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol	4
10	Tasgau Cyd-weithio Gogledd Cymru	2
3	Cyfarfodydd/Gwaith ar y cyd ag Archwilwyr Allanol	7
7	Amser Teithio	10
0	Cadw mewn Cysylltiad	10
0	Ymarferiadau Tân	0
1,038	Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol	912
37	Gwaith APCE	84
89	Cynghorau Tref a Chymuned	98
0	Byw'n Iach Cyf.	49
913	Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol, Cyngor Gwynedd	681

Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

2018/19		2019/2020
776	Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol	564
0	Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol	11
16	Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol	6
37	Cynghori	49
50	Gwaith dilyniant	31
34	Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig	18
913		681

Atodiad 3

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
01	1110 - Annibyniaeth Cyfundrefnol	A chwilir am adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwerthuso perfformiad y prif weithredwr archwilio?	Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu cynllun gwerthuso 360-gradd ar gyfer rheolwyr - dylai bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn gwahoddiad i roi adborth ar berfformiad y Rheolwr Archwilio yn y cyfarfod gwerthuso nesaf.	Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg	31/03/2018	Nid yw'r cynllun gwerthuso 360-gradd wedi ei ddatblygu hyd yma ond bellach, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu cyfarfodydd perfformiad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid.
02	1310 – Gofynion y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol	Bydd asesiad allanol yn cael ei gynnal gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gaerfyrddin yn unol â threfniadau adolygiad cyfoedion Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG).	Rheolwr Archwilio	31/12/2017	Mae'r asesiad allanol bellach wedi ei gwblhau gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gâr.
03	1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd ar ganlyniadau'r asesiad allanol i'r uwch reolwyr a'r bwrdd?	Canlyniadau'r asesiad allanol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.	Rheolwr Archwilio	08/02/2018	Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 17 Hydref 2019.

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
04	1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw canlyniadau monitro'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant a chynnydd yn erbyn y cynllun gwella yn cael eu hadrodd yn flynyddol o leiaf?	Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol.
05	1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw'r canlyniadau yn cynnwys gwerthusiad yr asesydd neu'r tîm asesu o safbwynt i raddau cydymffurfiaeth y weithgaredd archwilio mewnol gyda'r Safonau?	Gwerthusiadau'r asesiadau allanol i'w hymgorffori yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Mae hyn wedi ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio.
06	1322 – Datgelu Diffyg Cydymffurfiaeth	A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd am unrhyw ddiffyg o gydymffurfio â'r safonau i'r bwrdd?	Unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth i'w haradrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac unrhyw wyriadau arwyddocaol i'w cynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol.	Rheolwr Archwilio a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg	Fel yr angen	Nid oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth nac unrhyw wyriadau arwyddocaol.

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
07	2450 – <i>barn</i> <i>Gyffredinol</i>	A yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys: a) Datganiad ar gydymffurfiaeth â'r Safonau? b) Canlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant? Cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant?	Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i ymgorffori datganiad o gydymffurfiaeth â'r Safonau a chynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol – caiff hyn ei wneud yn flynyddol.

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	30 GORFFENNAF 2020
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2020/21
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DIWYGIEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2020 – 31 MAWRTH 2021
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynir cynllun drafft diwygiedig o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2020/21 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 1.2 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach fyth o ystyried effaith sylweddol a chyflym pandemig COVID-19 ar y Cyngor
- 1.3 Mae'r cynllun wedi ei ddiweddarau yn sgîl pandemig Covid-19 a'r ffaith nad oedd modd i Archwilio Mewnol gynnal ei waith yn chwarter cyntaf y flwyddyn. Cafodd swyddogion Archwilio Mewnol eu hadleoli i gynorthwyo a chefnogi'r Cyngor drwy wirio a phroses Grantiau Llywodraeth Cymru i Fusnesau a weinyddir gan y Gwasanaeth Refeniw. Mae gwariant rhagamcanol y Grantiau hyn yn £63M, yr ail gyngor uchaf yng Nghymru o ran gwariant a thrafodion. Mae'r gwaith hyn wedi ei adlewyrchu yn y cynllun diwygiedig.

2. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

- 2.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol ydi:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau
llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r
Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu***

- 2.2 Wrth baratoi'r cynllun gwaith diwygiedig yma, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn sydd angen i'r gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni'r pwrpas yma.

- 2.3 Adnoddau cyfyngedig sydd gan yr uned; adnodd staffio'r Uned yw 7 swydd amser ac un archwiliwr dros dro.
- 2.4 Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol, Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sydd ar waith. Mae hyn er mwyn sicrhau fod rheolaethau allweddol y Cyngor er mwyn ymdrin â'i brif risgiau yn derbyn sylw.
- 2.5 Canlyniad hyn oedd paratoi cynllun drafft cychwynnol, a drafodwyd gyda pob Pennaeth adran (neu dîm rheoli adrannol mewn rhai achosion) cyn ei gyflwyno a derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor hwn ar 13 Chwefror 2020.
- 2.6 Mae'r cynllun archwilio diwygiedig hwn yn gynllun gydag hyblygrwydd i sicrhau y rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor a hefyd sicrhau iechyd a diogelwch swyddogion Archwilio Mewnol a chleientiau.

3. Y FFORDD YMLAEN

- 3.1 Fel y mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor, mae swyddogion Archwilio Mewnol bellach yn gweithio o gartref hyd y gellir rhagweld, ac felly bydd cynnal archwiliadau lle mae angen ymweliad â'r sefydliad yn gyfyngedig. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau gyda cyflawni ei ddyletswyddau tra'n parchu unrhyw gyfarwyddyd a gaiff ei roi mewn lle gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnal ei weithgareddau o fewn unrhyw gyfyngiadau a osodir.
- 3.3 Un o prif flaenoriaethau chwarter 1, fel yn y ddwy flynedd ariannol flaenorol, yw darparu gwasanaeth Archwilio Mewnol i oddeutu 70 o gynghorau cymuned, tref a dinas. Ar gyfer cyflawni hyn ac i gynorthwyo'r cynghorau i gwrdd â'u amserlen statudol o ran cyflwyno eu cyfrifon erbyn 30 Mehefin 2020, derbyniwyd dogfennaeth drwy e-bost ble'n bosibl, a chynhaliwyd cyfarfodydd drwy ddefnyddio Zoom neu Microsoft Teams, yn ogystal â sgysiau dros y ffôn. Bu i'r Gwasanaeth dderbyn adborth positif gan y Clercod/Swyddogion Ariannol Cyfrifol ar y trawsffurfiad esmwyth o gynnal yr archwiliadau hyn.

3.3 Bydd cynllun diwygiedig 2020/2021 Archwilio Mewnol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Yn ymwybodol ar bob amser o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd. Byddwn felly yn manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol ac yn cynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol. Mae Archwilio Cymru wedi penderfynu ymestyn y Fenter i dargedu'r risgiau twyll sy'n gysylltiedig â grantiau neu daliadau Covid-19 a wneir gan awdurdodau lleol. Ni fydd swyddogion Archwilio sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o brosesu taliadau grant yn cynnal y gwaith hyn i sicrhau annibyniaeth a gwahaniad dyletswyddau priodol.
- Yn parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.

3.4 Mae'r cynllun diwygiedig yn adlewyrchu:

- Amser adleoli staff Archwilio Mewnol ar gyfer cynorthwyo gyda grantiau Llywodraeth Cymru (120 diwrnod)
- Darpariaeth ar gyfer cefnogi Adrannau/Gwasanaethau gyda'u trefniadau busnes diwygiedig yn sgil pandemig Covid-19 (30 diwrnod)
- Darpariaeth i alluogi Archwilio Mewnol ymateb i faterion allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd reolaeth fewnol a all fod wedi codi oherwydd newidiadau i brosesau yng ngoleuni gofynion brys (30 diwrnod)
- Adolygiad o drefniadau ymateb Cyngor Gwynedd i'r pandemig ac unrhyw wersi a ddysgwyd (50 diwrnod)
- Cynnal adolygiadau lefel uchel ble nad yw'n ymarferol ymweld â sefydliadau/gwasanaethau

4. ADNODDAU SYDD AR GAEL

4.1 Rhagwelir y bydd oddeutu 711 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2020/21. Mae hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd.

4.2 Bydd yn Cynllun Archwilio 2020/2021 yn gynllun gyda hyblygrwydd er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i gefnogi'r Cyngor gydag unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg ac i weithredu'n brydlon i unrhyw risgiau a ddeillir yn sgil y materion hynny.

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio Diwygiedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2020/2021

Archwiliad	Dyddiau	Rheswm
CORFFORAETHOL		
Ail Leoli Swyddogion Archwilio i Wasanaethau Blaenoriaeth 1	120	Cefnogi gyda phrosesu Grantiau Llywodraeth Cymru.
Cynlluniau Parhad Busnes (ar draws y Cyngor) a Gwersi a Ddysgwyd	40	Gwirio addasrwydd cynlluniau parhad gwasnaeth a gwirio bod adroddiadau gwersi a ddysgwyd wedi eu cyflwyno a bod log risgiau yn cael eu cynnal a'u cadw'n gyfredol.
Cefnogi Adrannau/Gwasanaethau gyda trefniadau busnes yn dlyn pandemig Covid-19	30	Adolygu trefniadau busnes a fabwysiadwyd yn sgil y pandemig Covid-19.
Ymateb i faterion allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd reolaeth fewnol a all fod wedi codi oherwydd newidiadau i brosesau yng ngoleuni gofynion brys	30	Bydd hyn yn ddibynnol ar ddatblygiadau yn sgil y pandemig Covid-19.
Trefniadau Gweithio o Gartref	20	Adolygu digonolrwydd y gefnogaeth sydd wedi ei roi i staff yn ystod cyfnod y pandemig, e.e.polisiau, rheoli, cyfarwyddyd GDPR ayb.
Trefniadau Diogelu	10	Llawer iawn o staff dros dro/gwirfoddolwyr wedi eu recriwtio yn sgil Covid-19 ac efallai nad oedd amser wedi caniatáu i gynnal gwiriadau priodol DBS - mae hwn yn faes o risg uchel.
Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	50	Gwaith i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth a'r Fenter Twyll Genedlaethol a gaiff ei rhedeg gan Archwilio Cymru. Gall yr ymchwiliadau hyn gynnwys unrhyw elfen o dwyll a gyflawnwyd drwy fanteisio ar bandemig Covid-19.
Credydwyr - Risgiau gyda'r gadwyn gyflenwi	20	Bydd risg sy'n gysylltiedig â chontractau a chymalau "force majeure" yn parhau i esblygu.
Newid Hinsawdd	20	Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau sydd y eu lle gan yr awdurdod i gwrdd â newid hinsawdd.

Archwiliad	Dyddiau	Rheswm
ADDYSG		
<i>Adnoddau</i>		
Grant Datblygu Disgyblion	10	Nid yw'r GDD wedi ei ymgorffori yn y Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion, felly mae'n ofynnol i gynnal archwiliad ar wahân.
Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	15	Mae'r grant yn gyfuniad o sawl grant blaenorol oedd yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru.
Grant Addysg Ôl-16	3	Disgwyliad yn yr amodau ariannol.
<i>Ysgolion</i>		
Cronfeydd Ysgol	30	Adolygiad o gronfeydd ysgolion Gwynedd.
Ysgolion Cyffredinol	5	Darpariaeth blynyddol ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori.
AMGYLCHEDD		
<i>Gwarchod y Cyhoedd</i>		
Gorfodaeth Ffyrdd a Parcio	12	Trefniadau gorfodaeth yn sgil ymwelwyr i'r ardal.
TAI AC EIDDO		
<i>Tai a Llesiant</i>		
Costau Gwely a Brecwast	30	Mae'r archwiliad wedi ei gynnwys ar gais y Pennaeth yn sgil y cynnydd mewn costau fel yr amlygwyd mewn adroddiad archwilio a gyhoeddwyd yn 2019-20.
Grant Cefnogi Pobl	12	Disgwyliad yn ampdau'r grant.
CEFNOGAETH GORFFORAETHOL		
<i>Uned Cefnogol Ganolog</i>		
Datganiadau Cyflogaeth	8	Mae bellach yn ofynnol bod datganiadau cyflogaeth yn cynnwys cymal mewn perthynas ag ymgymryd â hyfforddiant statudol, e.e. diogelu.

Archwiliad	Dyddiau	Rheswm
CYLLID		
<i>Ar draws yr adran/corfforaethol</i> Diogelwch a Systemau TG	30	Bwriedir cynnal archwiliadau ar feysydd penodol yn y maes Technoleg Gwybodaeth gyda ffocws ar weithio o gartref ynghyd â pholisiau "gweithio o bell", diogelwch seibr ayb.
<i>Cyflogau</i> Taliadau i Weithwyr Gofal	15	Gwirio bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu'r taliad ychwanegol i weithwyr yn y maes gofal.
<i>Cyfrifeg</i> Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2019-20	4	Mae hwn yn ofyniad statudol.
Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2019-20	4	Mae hwn yn ofyniad statudol.
Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2019-20	10	Mae hwn yn ofyniad statudol.
<i>Pensiynau</i> Taleion Newydd	12	Adolygiad o'r trefniadau dros sefydlu taleion newydd.
<i>Refeniw</i> Gostyngiad Treth Cyngor	10	Gwirio sampl o geisiadau newydd a gyflwynwyd yn ystod y pandemig.
ECONOMI A CHYMUNED		
<i>Adfywio Cymunedol</i> Cronfa'r Degwm	3	Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000.
<i>Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau</i> Amgueddfa Lloyd George	6	Mae gan Cyngor swyddogaeth benodol fel ymddiriedolwr. Mae angen gwirio fod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni.
Storiel	5	Mae Storiel wedi derbyn sgôr risg o 20 ar y Gofrestr Risg Corfforaethol.
<i>Morwrol a Pharciau Gwledig</i> Cynllun Rheoli Traethau	8	Mae hwn yn faes o risg uchel. (sgôr risg 20)

Archwiliad	Dyddiau	Rheswm
<i>Prosiectau Sylweddol</i> Cynllun STEM Gogledd	8	Adolygiad o gynlluniau penodol.
<i>Strategaeth a Datblygu</i> Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	15	Trefniadau llywodraethu y Bwrdd - sef cydbwyllgor o blith awdurdodau lleol gyda chynrychiolwyr o bartneriaid allweddol megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach.
Unedau Busnes	12	Gwirio bod yr Unedau wedi derbyn "gwyliau rhent" gan y Cyngor a bod y broses wedi ail-gychwyn.
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT		
<i>Preswyl a Dydd</i> Ffioedd Cartrefi Preifat	30	Adolygiad o'r taliadau a wneir i gartrefi preifat gyda phwyslais ar yr elfen o daliadau ychwanegol.
PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD		
<i>Plant a Theuluoedd</i> Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant	12	Mae'r maes hwn wedi ei adnabod ar y Gofrestr Risg Corfforaethol oherwydd trais yn y gwaith, gweithio'n unig a natur a nifer llwythi achos.
Asesiadau Statudol (AMHP)	20	Mae hwn yn ofynnol yn unol â Mesur Iechyd Meddwl Cymru.
Trefniadau "Cinio am Ddim"	12	Gwirio bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu i sicrhau bod plant bregus yn derbyn cinio am ddim yn ystod y pandemig.
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL		
<i>Ar draws yr adran</i> Asesiadau Risg	20	Gwirio cynnwys a phriodoldeb asesiadau risg.

Archwiliad
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

Ar draws yr adran

Cyllidebu a Gwariant

Dyddiau Rheswm

10

Adolygiad wedi ei gynnwys ar gais Tîm Rheoli YGC.

Cyfanswm Dyddiau

711